

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22

(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022)

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Senedd y DU, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â pharagraff 14(3)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (fel y'i diwygiwyd gan adran 40(4) o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020)

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Arglwyddi drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 21 Gorffennaf 2022.



(h) Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <http://www.gov.uk/official-documents>.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i Strategy, Competition and Markets Authority, 25 Cabot Square, London, E14 4QZ neu drwy e-bost i general.enquiries@cma.gov.uk

ISBN 978-1-5286-3278-2

E02715930 07/22

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

Cynnwys

Tudalen

1. Rhagair y Cadeirydd	4
2. Uchafbwyntiau'r flwyddyn.....	8
3. Amdanom ni.....	10
4. Adolygiad y Prif Weithredwr.....	12
5. Adegau allweddol eleni	43
6. Crynodeb o berfformiad	46
7. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.....	49
8. Yr adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff.....	91
9. Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio.....	111
10. Datganiadau Ariannol y CMA.....	123
11. Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA	152

1. Rhagair y Cadeirydd

- 1.1 Roedd hon yn flwyddyn o newid sylweddol i'r CMA. Rydym wedi gweithio'n galed i ddiogelu defnyddwyr ar adeg o ansicrwydd economaidd a geowleidyddol, ynghyd â chymryd swyddogaethau newydd sylweddol a phwysig.
- 1.2 Mae cadw marchnadoedd yn gystadleuol heddiw yn bwysicach nag erioed, wrth i ddefnyddwyr gael trafferth ymdopi â chostau byw cynyddol ac wrth i fusnesau geisio tyfu ar ôl y pandemig.
- 1.3 Pan fydd y gystadleuaeth yn wan, bydd defnyddwyr yn talu'r pris ar ffurf prisiau uwch a nwyddau a gwasanaethau o ansawdd is. Mae hyn yn codi costau byw, ar adeg pan oeddent eisoes yn codi oherwydd prinder yn deillio o dagfeydd mewn morgludiant, wedi'u gwaethygu oherwydd y rhyfel yn Wcráin. Mae marchnadoedd cystadleuol hefyd yn hanfodol er mwyn creu'r amodau ar gyfer buddsoddiad a thwf hirdymor cynaliadwy yn y DU. Mae marchnadoedd cystadleuol yn ysgogi arloesedd, gan wella ein cynhyrchiant, sy'n golygu y gallwn gynhyrchu mwy am lai.
- 1.4 Yn y cyd-destun hwn y mae'r CMA wedi gweithio i sicrhau buddiannau sylweddol i ddefnyddwyr, busnesau a'r economi ehangach ar draws yr holl flaenoriaethau a nodwyd yn ein Cynllun Blynnyddol ar gyfer 2021/22.
- 1.5 Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi **hawlio ein lle fel awdurdod cystadleuaeth a defnyddwyr byd-eang**, gan gymryd cyfrifoldebau ychwanegol sylweddol yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE) a phenderfyniadau gan Lywodraeth y DU i roi swyddogaethau newydd sylweddol i'r CMA. Rydym wedi wynebu'r heriau sy'n deillio o'r ymadawiad â'r UE ac wedi manteisio ar y cyfleoedd i sicrhau bod ein gweithredoedd yn diogelu defnyddwyr yn y DU. Rydym wedi lansio'r Uned Marchnadoedd Digidol gysgodol, wedi sefydlu a lansio Swyddfa'r Farchnad Fewnol, ac wedi ailgydio yn ein gwaith ar gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU i'r dyfodol drwy baratoi ar gyfer y gwaith o greu Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, pob un â'i set newydd ei hun o bwerau, swyddogaethau a chyfrifoldebau. Rydym hefyd wedi mynd i'r afael â nifer gynyddol o achosion o uno a gwrthglymblaid¹ cymhleth a rhyngwladol, y mae ganddynt yn aml, ffocws digidol. Ar yr un pryd,

¹ Deddfwriaeth sy'n gwahardd busnesau rhag cyfyngu ar gystadleuaeth (er enghraifft, drwy osod prisiau neu rannu marchnadoedd) neu rhag cam-fanteisio ar eu pŵer yn y farchnad drwy ei ddefnyddio i leihau cystadleuaeth neu gam-fanteisio ar gwsmeriaid.

rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod marchnadoedd lleol a rhanbarthol yn gweithio'n dda i'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny.

- 1.6 Rydym wedi cymryd camau i **ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, rhag tor-cyfraith ym meysydd cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr a marchnadoedd sy'n gweithredu'n wael**. Mae hyn wedi amrywio o gyflwyno gwerth miliynau o bunnoedd o ddirwyon i gwmnïau fferyllol am dor-cyfraith cystadleuaeth, i gyhoeddi [canllawiau i glinigau IVF ar hawliau defnyddwyr](#), [argymell gwelliannau o ran darparu gofal cymdeithasol plant](#) a rhoi rhwymedigaethau cyfreithiol newydd ar waith i roi [cefnogaeth well i ddefnyddwyr wrth drefnu gwasanaethau angladd](#).
- 1.7 Yn ein holl weithgarwch, buom yn **meithrin cystadleuaeth er mwyn hyrwyddo arloesedd, cynhyrchiant a thwf**. Rydym yn gweithredu system rheoli uno gadarn ac annibynnol er mwyn sicrhau bod busnesau yn cadw'r cymhellion i gystadlu, arloesi a thyfu. Pan fydd busnesau yn tanseilio cystadleuaeth drwy lunio cytundebau sy'n niweidio cwsmeriaid, rydym wedi defnyddio ein pwerau i osod dirwyon ac wedi defnyddio ein pwerau i ddatgymhwysu cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau atebolrwydd unigol am gamymddwyn. Rydym hefyd wedi ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i broblemau sylweddol a nodwyd mewn marchnadoedd.
- 1.8 Rydym wedi **meithrin cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol**, gan sicrhau manteision digideiddio i ddefnyddwyr ac, ar yr un pryd, gwneud yn siŵr y rhoddir sylw priodol i'w pryderon, gan gynnwys drwy [sicrhau ymrwymadau cyfreithiol gyfrwymol gan Google](#) i fynd i'r afael â phryderon ynghylch cystadleuaeth mewn perthynas â'i 'Privacy Sandbox' a [mynnu bod Facebook \(Meta bellach\) yn gwerthu Giphy](#), ar ôl canfod y gallai'r cytundeb niweidio defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol a hysbysebwr yn y DU. Gwnaethom hefyd [lansio ein hymgyrch 'Online Rip-Off, Tip-Off'](#) dan arweiniad Angellica Bell y bwriedir iddi helpu defnyddwyr sy'n siopa ar-lein i adnabod tactegau gwerthu llechwraidd a'u hosgoi.
- 1.9 Rydym wedi **cefnogi'r broses o newid i economi carbon isel**. Rydym wedi meithrin ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar farchnadoedd, gan arfer ein swyddogaethau mewn ffordd sy'n cefnogi'r broses o newid i economi carbon isel. Er enghraifft, gwneud argymhellion a gorfodi cyfraith cystadleuaeth er mwyn [cefnogi twf cystadleuaeth effeithiol yn y sector gwefru cerbydau trydan](#), cyhoeddi cyngor ar [ddefnyddio honiadau 'gwyrd' a rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol](#),

ar y ffordd y gall cystadleuaeth a chyfundrefnau defnyddwyr helpu i gefnogi nodau'r DU ar gyfer sero net a chynaliadwyedd yn well.

- 1.10 Wrth gyflawni pob un o'r blaenoriaethau hyn, rydym wedi parhau i gynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu â defnyddwyr, busnesau ac elusennau ym mhob un o ranbarthau a gwledydd y DU, gan adeiladu ar ein mentrau i gysylltu'n fwy effeithiol â defnyddwyr a gwella ein dealltwriaeth o'r problemau y maent yn eu hwynebu, yng ngoleuni'r ansicrwydd parhaus ynglŷn â phandemig y Coronafeirws (COVID-19) yn y flwyddyn ddiwethaf ac, yn fwy diweddar, gostau byw cynyddol.
- 1.11 Rydym yn croesawu deddfwriaeth newydd arfaethedig y Llywodraeth i gryfhau cystadleuaeth a pholisi defnyddwyr². Rydym o'r farn y byddai'r cynigion hyn yn hyrwyddo marchnadoedd teg, agored a chystadleuol a diogelu buddiannau defnyddwyr, yn ogystal â helpu busnesau sy'n masnachu'n deg i dyfu ac ymuno â marchnadoedd newydd a chystadlu â chwmnïau mawr sydd eisoes yn gweithredu yn y marchnadoedd hynny.
- 1.12 Hoffwn ddiolch i bob aelod o'n staff ym mhob rhan o'r sefydliad ym mhob un o bedair gwlad y DU am yr hyn y maent wedi llwyddo i'w wneud wrth gyflawni ein blaenoriaethau, er gwaethaf yr ansicrwydd parhaus. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, bu'n rhaid i'r rhan fwyaf o'n staff barhau i weithio gartref am ran o'r flwyddyn. Gyda help a chefnogaeth cydweithwyr yn y gwasanaethau corfforaethol a ddarparodd y dechnoleg i'n galluogi i barhau i weithio'n ddi-dor ac a rannodd arferion gorau ac a ddatblygodd ffyrdd newydd o weithio, bu'n bosibl inni ymateb i'r heriau a oedd yn effeithio ar ddefnyddwyr o ganlyniad i'r pandemig ac, ar yr un pryd, barhau i gyflawni ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn.
- 1.13 Mae'r posibilrwydd o gynyddu ein presenoldeb ymhellach yng ngwledydd y DU a'r rhanbarthau, drwy ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Belfast a Chaeredin a thrwy [gynlluniau ar gyfer swyddfeydd newydd yn rhanbarthau Lloegr](#) yn gyffrous iawn. Rydym wedi cyhoeddi y bydd Uned Micro-economeg newydd yn cael ei sefydlu yn Darlington, fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad annibynnol gan John Penrose AS. Bydd ein Huned Micro-economeg yn ehangu swyddogaeth ymchwil a gwerthuso economaidd bresennol y CMA, yn llunio adroddiad blynyddol ar y Sefyllfa o ran Cystadleuaeth ac yn gwneud ymchwil i ddiwygiadau i'r ochr gyflenwi er mwyn gwella

² [Reforming competition and consumer policy: government response - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

cynhyrchiant. Byddwn hefyd yn agor swyddfa ym Manceinion, a fydd yn gartref i'r Uned Marchnadoedd Digidol newydd.

- 1.14 Diolch yn fawr i Andrea Coscelli, y daw ei gyfnod fel Prif Swyddog Gweithredol i ben yn ystod haf 2022, am ei arweinyddiaeth, ei egni a'i wytnwch drwy gyfnod anodd ac ansicr. Mae wedi sicrhau bod y CMA wedi parhau i hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd, drwy ei arweinyddiaeth ystyriol ar reoleiddio marchnadoedd digidol yn fyd-eang, ac wedi darparu rhwymedïau mawr eu heffaith er mwyn mynd i'r afael â phroblemau lle maent yn codi a sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu ac y gallant fanteisio ar farchnadoedd cystadleuol iach.
- 1.15 Gan fod disgwyl i Gadeirydd newydd a Phrif Swyddog Gweithredol dros dro gymryd yr awenau yn y flwyddyn sydd i ddod, hwn fydd yr Adroddiad Blynyddol olaf gan Andrea a minnau, ac rydym yn hyderus, wrth inni adael y CMA, ei fod mewn sefyllfa gadarn a dwylo da.

2. Uchafbwyntiau'r flwyddyn

1. Diogelu defnyddwyr rhag arferion annheg

- Sicrhawyd ymrwymiadau ffurfiol gan fusnesau mewn saith ymchwiliad i faterion yn ymwneud â diogelu defnyddwyr, gan gynnwys mewn perthynas â rhenti tir annheg am eiddo lesddaliadol ac awtoadnewyddiadau mewn meddalwedd gwrthfeirysau.
- Cafwyd gorchymyn llys, a oedd yn datgan bod Teletext Holidays ac Alpharooms.com wedi torri cyfraith defnyddwyr, er mwyn pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod cwmnïau teithio yn parchu hawliau defnyddwyr i gael ad-daliad
- Cyhoeddwyd canllawiau/egwyddorion cyfraith defnyddwyr i fusnesau a defnyddwyr yn ein hymchwiliadau i'r arfer o adnewyddu meddalwedd gwrthfeirysau'n awtomatig, IVF a honiadau gwyrdd camarweiniol.

2. Diogelu defnyddwyr rhag ymddygiad gwrthgystadleuol

- Cwblhawyd saith ymchwiliad yn ymwneud â'r Ddeddf Cystadleuaeth yn llwyddiannus, gan gynnwys ymchwiliadau i'r sector cynhyrchion fferyllol, y sector hysbysebu ar-lein a'r sector goleuadau
- 4 penderfyniad ar achosion o Dor-cyfraith Cystadleuaeth – gosodwyd dirwyon gwerth £404.1 miliwn (y lefel uchaf o ddirwyon a osodwyd ers i'r Ddeddf Cystadleuaeth ddod i rym yn 2000)
- Sicrhawyd bod sawl cyfarwyddwr yn cael eu datgymhwyso, gan ddod â chyfanswm y cyfarwyddwyr sydd wedi'u datgymhwyso ers mis Tachwedd 2016 i 25 a thynnu sylw at gyfrifoldeb personol cyfarwyddwyr am ddiffyg cydymffurfio
- Lanswyd saith ymchwiliad newydd o dan y Ddeddf Cystadleuaeth

3. Rheoli achosion o uno mewn niferoedd

- Adolygwyd 827 o drafodiadau, o gymharu â thua 600 y llynedd

— Agorwyd 60 o achosion o uno cam 1:

- Cwblhawyd 55:
 - cliriwyd 34 o achosion o uno (gan gynnwys 1 cliriad 'de minimis')

- Cyfeiriwyd 10 at gam 2
 - Derbyniodd 6 ymgymeriad yn lle cyfeirio
 - Rhoddwyd y gorau i 1 achos o uno
 - Canfuwyd nad oedd 4 achos o uno yn gymwys.
- At hynny, ystyriwyd 3 achos o ymyrryd er budd y cyhoedd (cyfeiriwyd 1 at gam 2 a chafodd ei gyfrif uchod)

— Agorwyd 10 ymchwiliad cam 2:

- cwblhawyd 8:
 - cliriwyd 2 achos o uno
 - cliriwyd 2 achos o uno â rhwymedïau
 - Ataliwyd 3 achos o uno
 - Rhoddwyd y gorau i un achos o uno

4. Astudiaethau o farchnadoedd, ymchwiliadau ac apeliadau rheoleiddiol

- Astudiaethau o farchnadoedd:

- Lansioddwyd dwy astudiaeth o ecosystemau symudol a ffrydio cerddoriaeth
- Cwblhawyd yr astudiaethau o wefru cerbydau trydan a gofal cymdeithasol plant

- Ymchwiliadau i farchnadoedd:

- Lansioddwyd ymchwiliad i'r cyflenwad o wasanaethau rhwydwaith radio symudol tir

- Apeliadau rheoleiddiol:

- Cyhoeddwyd ein hailbenderfyniadau terfynol ar system rheoli prisiau Ofwat ar gyfer 4 cwmni dŵr
- Daethom i'n penderfyniad terfynol yn yr apeliadau gan 9 cwmni ynni

3. Amdanom ni

Amdanom ni

- 3.1 Mae'r CMA yn adran anweinidogol annibynnol o'r llywodraeth a bu'n gweithredu fel prif awdurdod cystadleuaeth a defnyddwyr y DU ers 2014. Rydym yn cyflogi tua 875 o bobl, a leolir yn bennaf yn ein swyddfeydd yn Llundain a Chaeredin, gyda thimau sy'n tyfu yng Nghaerdydd a Belfast a chynlluniau i agor swyddfeydd yng Ngogledd Lloegr. Rydym yn gweithio mewn ffordd integredig, gan ddewis yr adnoddau a fydd yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol i ddefnyddwyr ac economi'r DU, yn ein barn ni.

Llywodraethu

- 3.2 Ariennir y CMA gan Drysorlys EM ac mae'n atebol i Senedd y DU drwy ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol. Eleni, am y tro cyntaf, caiff Adroddiad Blynyddol y CMA ei osod gerbron pob un o'r deddfwrfeydd datganoledig. Gweision sifil yw ein staff. Cawn ein rheoli gan Fwrdd, sy'n cynnwys y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol a dau aelod o Banel y CMA. Y Prif Weithredwr, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA, sy'n gyfrifol am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei drin yn ddarbodus ac yn effeithlon. Rhaid i rai o swyddogaethau'r CMA gael eu cyflawni gan aelod o Banel y CMA sydd â chyfrifoldebau pendant ac sy'n gweithredu fel gwneuthurwyr penderfyniadau newydd rhwng dau gam achosion sy'n ymwneud â marchnadoedd ac uno er mwyn osgoi tuedd i gytuno. Mae ein strwythur llywodraethu yn ein helpu i gynnal ein henw da am degwch, annibyniaeth, gonestrwydd, gwaith dadansoddi trylwyr, trin gwybodaeth sensitif yn ofalus a defnyddio arian cyhoeddus yn effeithlon.

Y budd ariannol amcangyfrifedig i ddefnyddwyr

- 3.3 Bob blwyddyn mae'r CMA yn amcangyfrif budd ariannol uniongyrchol ein gwaith i ddefnyddwyr. Rydym yn ystyried bod ein hamcangyfrifon yn rhai ceidwadol am eu bod yn seiliedig ar dybiaethau gofalus.
- Arbedion cyfartalog blynyddol i ddefnyddwyr sy'n cyfateb i o leiaf £2 biliwn yn 2021/22

- Dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2019/20 a 2021/22, amcangyfrifir bod y budd ariannol uniongyrchol i ddefnyddwyr yn fwy na £6 biliwn;
- Am bob £1 y gwnaethom ei gwario ar ein costau gweithredu, roedd y budd i ddefnyddwyr dros y tair blynedd diwethaf yn £22.50 ar gyfartaledd.

3.4 Nid yw'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys effaith nifer o achosion lle mae ymyrraeth y CMA yn debygol o sicrhau buddiannau sylweddol i ddefnyddwyr ond roedd yn anodd mesur y buddiannau hyn yn ddigon manwl. Er enghraifft, nid ydym yn cyfrif am waith eirioli, gweithgareddau rhyngwladol nac apeliadau rheoleiddiol y CMA na'i waith ar gydymffurfiaeth.

3.5 Mae'r amcangyfrifon hyn ond yn cynnwys buddiannau ariannol uniongyrchol ein gwaith ac, felly, maent yn hepgor llawer o effeithiau ehangach pwysig ar y gyfundrefn gystadleuaeth. Er enghraifft, nid ydynt yn cyfrif am effaith ataliol ein gweithredoedd ac effaith ymyriadau polisi cystadleuaeth ar gynhyrchiant. Nododd ein [hadolygiad o lenyddiaeth](#) ynglŷn ag effaith gwaith awdurdodau cystadleuaeth dystiolaeth dda o effaith ataliol sylweddol, gydag arolygon yn amcangyfrif cymarebau ataliaeth rhwng 4.6:1 ac 28:1 ar gyfer cartelau, sy'n awgrymu bod llawer mwy o gartelau yn cael eu hatal ar gyfer pob un sy'n cael ei ddal.³ Ategir hyn gan werthusiadau achos-benodol o effaith detholiad o benderfyniadau'r CMA mewn ymchwiliadau o dan y Ddeddf Cystadleuaeth.⁴ Felly, ar y cyfan, dim ond rhan o effaith gadarnhaol gyffredinol gwaith y CMA sy'n cael ei nodi gan ein hamcangyfrifon ar gyfer buddiannau ariannol uniongyrchol.

³ [The deterrent effect of competition authorities' work, a literature review](#), September 2017

⁴ [CMA Evaluation of CA98 cases](#), Adroddiad DotEcon, Mai 2018

4. Adolygiad y Prif Weithredwr

- 4.1 Er ein bod wedi parhau i wynebu heriau sylweddol a chryn dipyn o sicrwydd yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r CMA wedi adeiladu ar y ddwy flynedd ddiwethaf gyda pherfformiad cryf iawn arall, gan gyflawni pob un o'n hymrwymiaadau yng Nghynllun Blyneddol y llynedd ac ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i heriau newydd wrth iddynt godi. Mewn cyfnod lle mae aelwydydd ledled y DU yn teimlo effaith y cynnydd mewn costau byw, mae sicrhau bod marchnadoedd yn gystadleuol mor bwysig ag erioed. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'n perfformiad, gan dynnu sylw at ein gwaith allweddol.
- 4.2 Yn ein gwaith gorfodi cystadleuaeth, gwnaethom osod dirwyon gwerth mwy na £400 miliwn ar gwmnïau fferyllol am dorri cyfraith cystadleuaeth wrth gyflenwi meddyginiaethau pwysig i'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, sef y lefel uchaf o ddirwyon mewn unrhyw flwyddyn yn hanes cyfundrefn y DU. Roedd effaith yr achosion hyn ar y GIG ac, yn y pen draw, ar drethdalwyr yn y DU, yn sylweddol. Er enghraifft, cyn mis Ebrill 2008, roedd y GIG yn gwario tua £500,000 y flwyddyn ar dabledi hydrocortison. Roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i fwy nag £80 miliwn erbyn 2016. Mae'r ymchwiliad i'r arferion hyn yn rhan o waith parhaus y CMA yn y sector fferyllol, gyda thri achos yn cael eu cwblhau eleni a dau achos arall yn dod i ben gyda dyfarniadau o dor-cyfraith y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dod â chyfanswm y dyfarniadau o dor-cyfraith yn y sector hwn yn y ddwy i bum mlynedd diwethaf i bump, y mae tri ohonynt bellach yn destun apêl yn y Tribiwnlys Apelau Cystadlu.
- 4.3 Yn unol â'n cyfrifoldebau ehangach newydd, gwnaethom hefyd agor pedwar achos gorfodi cystadleuaeth newydd mewn marchnadoedd digidol byd-eang, gan weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i ddod ag [achos Privacy Sandbox Google](#) i ben gydag ymrwymiaadau cyfreithiol gyfrwymol gan Google y bwriadwyd iddynt fynd i'r afael â phryderon ynghylch cystadleuaeth ac, ar yr un pryd, ddiogelu preifatrwydd. Rydym hefyd wedi agor ymchwiliadau i [daliadau storfa apiau Apple](#) a'r [defnydd o ddata gan Facebook \(Meta bellach\)](#).
- 4.4 Rydym wedi parhau i ymchwilio i achosion o uno yr ydym o'r farn y byddent yn debygol o niweidio cystadleuaeth a buddiannau defnyddwyr, gyda'r potensial ar gyfer prisiau uwch, llai o ddewis ac, yn y pen draw, lai o arloesedd a thwf. Adolygwyd 827 o drafodiadau uno, o gymharu â thua 600 y llynedd. Agorwyd 60 o adolygiadau rheoli uno ffurfiol, cwblhawyd 55 ac atgyfeiriwyd 10 i fod yn destun adolygiadau

manwl. Cwblhawyd 8 achos uno cam 2. O'r achosion hynny, cliriwyd 2, datryswyd 2 â rhwymedïau, ataliwyd 3 a rhoddwyd y gorau i achos arall ar ôl inni godi pryderon. Gwnaethom hefyd sicrhau dyfarniadau cadarnhaol gan y Tribiwnlys Apelau Cystadlu a'r Llys Apêl ar gyfer y dulliau gweithredu a fabwysiadwyd gennym yn achosion [Sabre/Farelogix](#) a [Facebook/Giphy](#) a fu'n destun ymchwiliadau gennym.

- 4.5 Rydym wedi parhau i gymryd camau cadarn o dan ddeddfau diogelu defnyddwyr mewn ymateb i faterion a godwyd o ganlyniad i effaith y pandemig a'r cyfyngiadau ar deithio a oedd ar waith, gan gynnwys [camau pellach i sicrhau bod defnyddwyr yn cael ad-daliadau ar gyfer gwyliau a ganslwyd](#), [rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y farchnad profion PCR a sicrhau ymrwymadau gan ddarparwyr profion PCR](#) i wella telerau a rhoi ad-daliadau yn brydlon.
- 4.6 Ar yr un pryd, rydym wedi bod yn bwrw ymlaen ag ymchwiliadau diogelu defnyddwyr pwysig eraill mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys lesddaliadau, meddalwedd gwrthfeirysau ac adolygiadau ffug ar-lein. Gwnaethom [ryddhau miloedd o lesddeiliaid o delerau cynyddu rhent tir](#) a oedd yn golygu eu bod yn cael eu dal mewn cartrefi roeddent yn ei chael hi'n anodd eu gwerthu neu gael morgais ar gyfer eu cyfer. Gwnaethom sicrhau [ymgymeriadau gan gwmnïau meddalwedd gwrthfeirysau i roi ad-daliadau](#) i ddefnyddwyr a gafodd eu hadnewyddu'n awtomatig, pan nad oeddent wedi dewis gwneud hynny. Gwnaethom agor [achosion gorfodi ffurfiol yn erbyn Amazon a Google](#) mewn perthynas ag adolygiadau ffug ar-lein. Gwnaethom hefyd gyhoeddi [canllawiau ar hawliau defnyddwyr mewn clinigau ffrwythlondeb IVF](#) a dechrau adolygiad o gydymffurfiaeth, a chyhoeddi [cyngor er mwyn helpu busnesau i gydymffurfio â'r gyfraith ynglŷn â honiadau amgylcheddol camarweiniol](#) ynghylch (y cyfeirir ato'n aml fel 'gwyrdgalchu') a rhoi cyngor i siopwyr ar yr hyn y dylent gadw llygad amdano, gydag ymrwymiad i adolygu a chymryd camau, lle y bo angen.
- 4.7 Rydym wedi cyhoeddi ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y Alban a Llywodraeth y DU ar gyfer [gwelliannau o ran darparu gofal cymdeithasol plant](#). Rydym wedi bwrw ymlaen â'n [hastudiaeth o'r farchnad sy'n edrych ar ecosystemau symudol](#) a'r [ymchwiliad i'r farchnad mewn perthynas ag Airwave Motorola](#), ar ôl i'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu gadarnhau penderfyniad y CMA i agor ymchwiliad i'r farchnad mewn perthynas â'r rhwydwaith radio symudol

a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys. Rydym hefyd wedi cyhoeddi penderfyniadau yn dilyn apeliadau rheoleiddiol yn y sector [dŵr](#) a'r sector [ynni](#).

- 4.8 Rydym wedi bod yn llwyddiannus mewn apeliadau i'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu yn erbyn ein penderfyniadau i osod dirwyon am gytundebau gwrthgystadleuol, gan gynnwys y [Tribiwnlys Apelau Cystadlu yn cadarnhau ein penderfyniad i ddirwyo Roland](#) am gyfyngu ar allu manwerthwyr i roi prisiau gostyngol wrth gyflenwi offerynnau cerdd a phenderfyniad yn cadarnhau ein canfyddiadau o ran cytundebau talu am oedi. Rydym hefyd wedi bod yn llwyddiannus mewn apêl yn erbyn y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith ar achosion o uno. Cawsom ddyfarniadau gan y [Tribiwnlys Apelau Cystadlu yn cadarnhau ein dull o asesu'r prawf 'cyfran o'r cyflenwad' yn achos Sabre/Farelogix](#), a'r [Llys Apêl yn cadarnhau ein dull o ymdrin â gorchmynion gorfodi dros dro yn achos Facebook/Giphy](#).
- 4.9 Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys yn gwrthod [camau gorfodi'r CMA yn erbyn Care UK](#) mewn perthynas â thaliadau gweinyddol ymlaen llaw, gwnaethom ddiweddarau ac ailgyhoeddi ein [cyngor ar gyfraith defnyddwyr i ddarparwyr cartrefi gofal](#). Am fod pwnc dyfarniad yr Uchel Lys yn gyfyngedig ei gwmpas, mae'r rhan fwyaf o'r cyngor yn dal i fod fel y'i nodwyd yn wreiddiol, er bod newidiadau wedi'u gwneud er mwyn adlewyrchu dull yr Uchel Lys o ymdrin â thaliadau gweinyddol.
- 4.10 Gwnaethom [lansio'r Uned Marchnadoedd Digidol gysgodol](#) ym mis Ebrill 2021, sydd wedi bod yn paratoi ar gyfer cyfundrefn reoleiddiol pro-gystadleuaeth newydd arfaethedig y Llywodraeth a deddfwriaeth sydd i'w phasio ganddi. Mae wedi cydgysylltu'r defnydd o'n pwerau presennol i fynd i'r afael ag arferion niweidiol mewn marchnadoedd digidol, er enghraifft, uno [Facebook/Giphy](#) a'r astudiaeth i'r farchnad mewn perthynas â [Mobile Ecosystems](#).
- 4.11 Yn ogystal â hyn, lanswyd [Swyddfa'r Farchnad Fewnol](#) (OIM), sydd wedi bod yn meithrin cydberthnasau ledled pedair gwlad y DU, gan wneud ymchwil i'r ffordd y mae'r farchnad fewnol yn gweithredu a chyhoeddi ein [trosolwg cyntaf o farchnad fewnol y DU](#).
- 4.12 Deddfwyd y Bil Rheoli Cymorthdaliadau ym mis Ebrill 2022. Rydym bellach yn paratoi ar gyfer lansio'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.
- 4.13 Rydym wedi cynyddu'r gwaith rydym yn ei wneud i roi cyngor i lywodraethau yn y DU ar lunio polisi a'i roi ar waith mewn ffordd sy'n manteisio ar gystadleuaeth, gan hyrwyddo twf ar ôl y pandemig a

diogelu buddiannau defnyddwyr. Gwnaethom barhau â'n gwaith allgymorth sylweddol ym mhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU. Rydym wedi gweithio gyda llywodraethau ym mhob un o wledydd y DU, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ac eraill gan roi cyngor mewn meysydd penodol, megis profion PCR, morgludiant, trafniadaeth, cynaliadwyedd a marchnadoedd digidol. Gall hyn gael effeithiau pellgyrhaeddol. Er enghraifft, derbyniodd y Llywodraeth ein hargymhelliad i ychwanegu 'hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol' fel un o amcanion statudol caffael cyhoeddus, sef sector sy'n werth £284 biliwn y flwyddyn.

- 4.14 Rydym wedi recriwtio a datblygu pobl dalentog sydd â'r sgiliau cywir i sicrhau bod gennym y wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol ar bob lefel er mwyn ateb yr heriau rydym yn eu hwynebu a darparu atebion cadarnhaol cadarn i ddefnyddwyr yn y DU. Mae gennym banel annibynnol ymroddedig hefyd, y mae ei aelodau yn chwarae rôl allweddol mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar achosion pwysig sy'n ymwneud â marchnadoedd ac uno cwmnïau ac apeliadau rheoleiddiol pwysig. Maent yn gwneud penderfyniadau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a ategir gan adroddiadau rhesymegol, gan gynnwys y safonau uchaf o ran gonestrwydd, didueddrwydd a gwrthrychedd bob amser. Mae gan lawer o aelodau'r panel gryn dipyn o brofiad ym maes cyfraith cystadleuaeth neu faes economeg cystadleuaeth neu'r ddau. Daw aelodau eraill o'r panel â phrofiadau a sgiliau eraill sy'n ymwneud ag eiddo deallusol neu gyfraith fasnachol, uno a chaffael a chyllid corfforaethol, systemau rheoleiddio eraill neu fuddiannau defnyddwyr ac sydd yr un mor werthfawr.
- 4.15 Yn yr adroddiad hwn byddaf yn tynnu sylw at y canlyniadau sylweddol rydym wedi'u cyflawni i ddefnyddwyr, busnesau ac economi'r DU yn erbyn pob un o'n blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2021/22: diogelu defnyddwyr a llywio adferiad yn ystod ac ar ôl pandemig y Coronafeirws; cymryd ein lle fel awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr byd-eang wrth inni ymgymryd â'n cyfrifoldebau newydd ar ôl y cyfnod pontio yn dilyn Ymadawiad y DU â'r UE; meithrin cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd digidol; cefnogi'r broses o newid i economi carbon isel.

Diogelu defnyddwyr a llywio adferiad yn ystod ac ar ôl pandemig y Coronafeirws

- 4.16 Wrth i'r DU barhau i ddod allan o bandemig y Coronafeirws (COVID-19) ac wynebu cynnydd sylweddol mewn costau byw, bydd diogelu

defnyddwyr a hyrwyddo cystadleuaeth yn bwysicach nag erioed o'r blaen.

- 4.17 Pan fydd costau byw yn cynyddu, yr aelwydydd tlotaf fydd yn dioddef fwyaf. Gyda llai o gyflenwyr i ddewis o'u plith, a llai o arloesi, mae'n bosibl y bydd gan ddefnyddwyr lai o ddewis hefyd.
- 4.18 Mae'r CMA yn chwarae rôl bwysig wrth hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr neu pan fydd yn credu y gall wella'r ffordd y mae'r farchnad yn gweithio. Mae hyn yn arbennig o bwysig i feithrin ymddiriedaeth a hyder pan fydd pobl yn prynu nwyddau a gwasanaethau, a fydd yn hanfodol i adferiad yr economi.
- 4.19 Rydym am sicrhau ein bod ni, fel defnyddwyr, yn cael mwy o'r hyn sydd ei eisiau arnom am y pris gorau posibl, gan wella cynhyrchiant a hwyluso twf cynaliadwy, creu swyddi a sicrhau safonau byw gwell yn yr economi yn gyffredinol ar yr un pryd. Mae hefyd yn bwysig bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth ddibynadwy ac y gallant chwilio am y bargeinion gorau. Mae hyn yn ysgogi cwmnïau i gystadlu â'i gilydd er mwyn ceisio ennill busnes, a hynny drwy gynnig amrywiaeth ehangach o gynhyrchion o ansawdd gwell ac am brisiau llai a thrwy arloesi.
- 4.20 Rydym hefyd am sicrhau ein bod yn ystyried anghenion y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, megis y rhai ar incwm isel; pobl heb fynediad at wasanaethau ar-lein neu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd eu defnyddio; neu bobl ag iechyd meddwl gwael a all osgoi newid neu y gall fod arnynt ofn newid.

Diogelu defnyddwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed, rhag achosion o dorri deddfau cystadleuaeth a deddfau diogelu defnyddwyr a marchnadoedd sy'n gweithredu'n wael.

- 4.21 Parhaodd effaith pandemig y Coronafeirws i lywio ein gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn benodol, o ganlyniad i bryderon a godwyd ynghylch pris, dibynadwyedd ac ansawdd profion PCR, gwnaethom anfon [llythyr agored at ddarparwyr profion PCR ynglŷn â chydymffurfio â chyfraith defnyddwyr](#). Rhoesom gyngor i [Lywodraeth y DU ar ffyrdd o sicrhau bod y farchnad profion PCR yn gweithio'n well](#) a chawsom ymrwymadau gan dri darparwr profion PCR blaenllaw, sef [Randox](#), [Dante Labs](#) ac [Expert Medicals](#), i wneud newidiadau. Newidiodd pob un o'r tri chwmni eu telerau ac amodau er mwyn gwella eu harferion.
- 4.22 Gwnaethom ragor o waith yn y sector teithio hefyd. Gwnaethom sicrhau ymrwymadau pellach gan TUI i roi gwybodaeth gliriach am ad-

daliadau ymlaen llaw i gwsmeriaid y cafodd eu gwyliau eu canslo oherwydd y pandemig. Gwnaethom hefyd lwyddo i gael gorchymyn llyso yn datgan bod Teletext wedi torri cyfraith defnyddwyr drwy fethu â rhoi ad-daliadau i gwsmeriaid o fewn y terfyn amser a oedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

- 4.23 Rydym wedi parhau i weithio'n galed i orfodi cyfraith diogelu defnyddwyr mewn nifer o sectorau pwysig eraill, gan ddiogelu defnyddwyr rhag ymddygiad annheg gan fusnesau, gan gynnwys mewn marchnadoedd megis eiddo lesddaliadol a gofal iechyd (IVF).
- 4.24 Yn 2021/22, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran ein hymchwiliad sy'n mynd rhagddo i'r sector lesddaliadol, gan fynd i'r afael â phryderon ynghylch cymalau sy'n dyblu rhenti tir ac arferion gwerthu camarweiniol.

Astudiaeth achos 1: Lesddaliadau

Ym mis Medi 2020, lansiodd y CMA gamau gorfodi yn erbyn 4 datblygwr tai mewn perthynas ag achosion posibl o dorri cyfraith diogelu defnyddwyr yn y sector lesddaliadau preswyl. Wedyn, gwnaethom ysgrifennu at nifer o fusnesau eraill yn nodi ein pryderon ac yn mynnu eu bod yn dileu telerau niweidiol o'u contractau.

Mewn ymateb i'r camau a gymerwyd gennym, ymrwymodd Taylor Wimpey, Countryside, Aviva, a 15 o rydd-ddeiliaid eraill i ddileu telerau sy'n achosi i gost rhenti tir ddyblu. Mae'r telerau hyn yn aml yn golygu bod pobl yn ei chael hi'n anodd gwerthu eu cartref lesddaliadol neu gael morgais ar ei gyfer.

At hynny, cytunodd Persimmon i gynnig cyfle i berchenogion cartrefi lesddaliadol brynu rhydd-ddaliad eu cartref am bris gostyngol, a oedd yn adlewyrchu'n well yr hyn roeddent yn ei ddisgwyl pan wnaethant brynu eu tŷ yn wreiddiol.

Byddwn yn parhau i weithio'n galed i ryddhau lesddeiliaid o'r telerau hyn sy'n achosi problemau ac yn rhoi datblygwyr tai eraill o dan y chwyddwydr.

- 4.25 Rydym wedi helpu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch tanysgrifiadau sy'n cael eu hadnewyddu'n awtomatig. Gwnaethom sicrhau hawliau i gael ad-daliadau i gwsmeriaid cyflenwyr meddalwedd gwrthfeirysau blaenllaw, sef [McAfee and Norton](#). Ar ôl i'r CMA gymryd camau yn eu

herbyn, ymestynnodd y ddau gwmni hawliau i gael ad-daliadau i bob cwsmer yr oedd ei danysgrifiad wedi cael ei adnewyddu'n awtomatig. Yn y sector gemau ar-lein, gwnaethom hefyd sicrhau gwelliannau gan [Microsoft ar gyfer chwaraewyr ar-lein Xbox](#) ar ôl i bryderon gael eu codi ynghylch defnydd Microsoft o danysgrifiadau sy'n cael eu hadnewyddu'n awtomatig.

- 4.26 Gwnaethom lansio ymchwiliad gorfodi o dan gyfraith diogelu defnyddwyr i [Groupon mewn perthynas â phryderon](#) nad yw'n rhoi ad-daliadau arian parod i rai cwsmeriaid nac yn danfon pob cynnyrch o fewn y terfynau amser a hysbyseb. Yn dilyn hynny, ymrwymodd Groupon i [gynnig ad-daliadau a gwella ei wasanaeth cwsmeriaid](#).
- 4.27 Ym mis Mehefin, gwnaethom gyhoeddi ein [canllawiau ar IVF](#) ar hawliau defnyddwyr er mwyn sicrhau bod clinigau ffrwythlondeb yn glir ynghylch eu rhwymedigaethau cyfreithiol i drin pobl yn deg a helpu cleifion i ddeall eu hawliau. Gwnaethom ymuno â Lorraine Kelly i gyhoeddi'r canllawiau a rhybuddio clinigau y gallent wynebu camau gorfodi os na fyddant yn dilyn y rheolau.
- 4.28 Ym maes gorfodi cystadleuaeth, rydym wedi parhau i flaenoriaethu achosion lle y gallwn gael yr effaith fwyaf er mwyn sicrhau y gall cwsmeriaid brynu cynhyrchion am y pris gorau, rhywbeth sy'n bwysicach fyth ar adeg pan fo costau byw yn cynyddu.
- 4.29 Rydym wedi parhau â'n gwaith pwysig yn ymchwilio i ymddygiad gwrthgystadleuol yn y sector fferyllol, er mwyn sicrhau na fydd y GIG ac, yn y pen draw, y trethdalwr, yn talu mwy nag y dylent am feddyginiaethau a thriniaethau hanfodol ac na fydd defnyddwyr sy'n dibynnu ar y cyffuriau a'r triniaethau hyn ar eu colled. Rydym wedi cynnal tri ymchwiliad arall o dan y Ddeddf Cystadleuaeth yn y sector fferyllol, sydd wedi arwain at osod dirwyon gwerth mwy na **£400 miliwn**, sef y lefel uchaf erioed, sy'n adlewyrchu difrifoldeb ac effaith yr ymddygiad. Roedd hyn yn cynnwys gosod dirwyon gwerth mwy na £260m am [dor-cyfraith cystadleuaeth mewn perthynas â chyflenwi tabledi hydrocortison](#); mwy na £100m am [chwyddo prisiau tabledi thyroid](#); a mwy na £35m am [drefniant anghyfreithlon i gyflenwi tabledi gwrthgyfog presgripsiwn pwysig y GIG](#).
- 4.30 Rydym hefyd wedi rhoi dirwy o £1.5 miliwn i Dar Lighting am dor-cyfraith cystadleuaeth drwy gyfyngu ar lefel y disgowntiau y gallai manwerthwyr eu cynnig ar-lein. Gan fod cynifer o fusnesau yn gweithredu ar-lein, mae'n hanfodol bod cystadleuaeth deg yn cael ei chynnal ym mhob sector er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael pris

teg. Fel rhan o'r broses o'i chyfrifo gwnaethom gynyddu swm y ddirwy 35%, am nad oedd y cyflenwr wedi cymryd camau digonol ar ôl cael 2 rybudd ysgrifenedig gan y CMA mewn perthynas â honiadau bod prisiau yn cael eu gosod yn anghyfreithlon, a elwir yn gynnal prisiau ailwerthu. Dylai'r penderfyniad hwn fod yn rhybudd i gwmnïau bod cynnal prisiau ailwerthu yn anghyfreithlon ac y dylid cymryd llythyrau rhybuddio a anfonir gan y CMA o ddifrif ac na ddylid eu hanwybyddu. Mae'r CMA wedi rhoi dirwyon gwerth miliynau o bunnau i gwmnïau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys yn y sector [goleuadau](#) a'r [sector offerynnau cerdd](#) am atal manwerthwyr rhag cynnig disgowntiau ar-lein.

- 4.31 Rydym wedi parhau i ddefnyddio ein pwerau i ymchwilio i farchnadoedd a all gael effaith wirioneddol ar fywydau pobl, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed neu sydd mewn caledi am sawl rheswm, gan gynnwys pan fyddant yn mynd drwy gyfnodau anodd yn eu bywydau.
- 4.32 Yn dilyn ein hymchwiliad manwl i'r farchnad yn y sector angladdau, rydym wedi rhoi rhwymedigaethau cyfreithiol ar waith er mwyn helpu trefnwyr angladdau a gweithredwyr amlogsfeydd i roi cefnogaeth well i'w cwsmeriaid wrth drefnu angladd sy'n diwallu eu hanghenion ac sydd o fewn eu cyllideb. Nodir y rhwymedigaethau newydd yng [Ngorchymyn Ymchwilio i'r Farchnad Angladdau 2021](#). Mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer trefnwyr angladdau yn cynnwys dangos [Rhestr Brisiau Safonedig](#) yn eu ffenestr ar y safle ac ar eu gwefan.
- 4.33 Gwnaethom hefyd gyhoeddi'r adroddiad terfynol ar ein hastudiaeth o'r farchnad ar gyfer darpariaeth gofal cymdeithasol plant. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn a byddwn yn parhau i weithio gyda nhw er mwyn eu helpu i weithredu ar yr argymhellion, os byddant yn penderfynu gwneud hynny.

Astudiaeth achos 2: Gofal plant cymdeithasol

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd y CMA yr adroddiad terfynol ar ein hastudiaeth o'r farchnad ar gyfer gofal cymdeithasol plant,

Mae mwy na 100,000 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ar hyn o bryd, mae cost flynyddol gwasanaethau gofal cymdeithasol plant tua £5.7 billiwn yn Lloegr, £680 milliwn yn yr Alban a £350 miliwn yng Nghymru. Gwnaeth yr astudiaeth o'r farchnad nodi ac adlewyrchu'r gwahaniaethau sylweddol rhwng y tair gwlad.

Gwnaethom godi pryderon bod awdurdodau lleol yn cael eu rhwystro rhag dod o hyd i leoliadau addas a fforddiadwy mewn cartrefi plant neu gyda gofalwyr maeth.

Nodwyd gennym fod angen cymryd camau i fynd i'r afael â phryderon, gan gynnwys prinder lleoedd priodol mewn cartrefi plant neu gyda gofalwyr maeth.

Gwnaethom argymhell y dylid datblygu cyrff cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddod o hyd i leoliadau addas i blant. Gwnaethom hefyd geisio mynd i'r afael â phryderon ynghylch sefydlogrwydd ariannol darparwyr cartrefi plant preifat ac elw mawr sy'n cael ei wneud yn y sector.

- 4.34 Mae hefyd yn hanfodol bod y CMA yn parhau i reoli achosion o uno yn effeithiol ar adeg pan rydym i gyd yn wynebu pwysau cynyddol ar brisiau. Gall achosion o uno a chaffaeliadau sy'n lleihau cystadleuaeth leihau'r cymhelliant i fusnesau gynnog prisiau is. Byddwn yn parhau i ymchwilio i achosion o uno er mwyn sicrhau na fydd defnyddwyr ledled y DU ar eu colled, o ganlyniad i strwythurau marchnad mwy crynodedig, a all arwain at brisiau uwch a llai o arloesi.
- 4.35 Ym mis Mehefin, gwnaethom dderbyn ymgymeriadau ar gyfer y [broses o gaffael Asda Group a gwblhawyd gan Bellis Acquisition Company 3](#) ar ôl i bryderon ynghylch cystadleuaeth gael eu codi. Roeddem yn pryderu y gallai prynu'r cwmni arwain at brisiau petrol uwch mewn rhai rhannau o'r DU.
- 4.36 Gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad terfynol yn achos uno JD Sports a Footasylum ar ôl i'r achos gael ei gyfeirio'n ôl atom gan y Tribiwnlys Apelaau Cystadlu. Gwnaethom barhau i arddel ein safbwynt cychwynnol fod y cytundeb yn codi pryderon ynghylch cystadleuaeth ac y gallai arwain at leihad sylweddol mewn cystadleuaeth a phrisiau uwch i gwsmeriaid Footasylum. Gwnaethom gyfarwyddo JD Sports i werthu Footasylum a bu'n rhaid inni hefyd osod dirwy o £5 miliwn ar y partïon am dorri gorchymyn a oedd yn gwahardd y cwmnïau rhag cyfnewid gwybodaeth fasnachol sensitif heb gael caniatâd ymlaen llaw.
- 4.37 Hefyd eleni, cliriodd y CMA y broses uno rhwng [Virgin Media ac O2](#). I ddechrau, roedd y CMA yn pryderu y gallai'r broses uno arwain at brisiau uwch neu leihad mewn ansawdd gwasanaethau. Fodd bynnag,

yn dilyn ymchwiliad cam 2 manwl, daeth y panel annibynnol i'r casgliad bod y cytundeb yn annhebygol o leihau cystadleuaeth yn sylweddol ac yn annhebygol o gynyddu prisiau.

- 4.38 Cyhoeddodd y CMA ei ailbenderfyniadau ar system rheoli prisiau Ofwat ar gyfer pedwar cwmni dŵr a rhoi ein [penderfyniadau terfynol ar apeliadau gan naw cwmni dŵr](#) yn erbyn newidiadau a wnaed i'w trwyddedau gan GEMA, sef corff llywodraethu Ofgem.
- 4.39 Rydym wedi parhau i ymgysylltu â sefydliadau yn y trydydd sector, gan glywed gan amrywiaeth eang o elusennau a sefydliadau yn y trydydd sector eleni a dysgu mwy am y materion sy'n effeithio ar y defnyddwyr y maent yn rhyngweithio â nhw, er mwyn llywio ein gwaith ar ddiogelu defnyddwyr a chystadleuaeth.

Cefnogi economi'r DU drwy feithrin cystadleuaeth er mwyn hyrwyddo arloesedd, cynhyrchiant a thwf.

- 4.40 Mae dyletswydd arnom i feithrin a hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr drwy barhau i weithredu system rheoli uno gadarn ac annibynnol. Mae system o'r fath yn hanfodol i hyrwyddo arloesedd, cynhyrchiant a thwf. Mae hefyd yn hollbwysig i ddiogelu buddiannau defnyddwyr, rhywbeth sy'n arbennig o bwysig wrth inni barhau i weld effaith costau byw cynyddol a'r gwrthdaro parhaus yn Wcráin.
- 4.41 Rydym wedi parhau i ymchwilio i achosion o uno yr ydym o'r farn y byddent yn debygol o niweidio cystadleuaeth a buddiannau defnyddwyr, gyda'r potensial ar gyfer prisiau uwch, llai o ddewis ac, yn y pen draw, lai o arloesedd a thwf.
- 4.42 Mewn rhai achosion, mae ein gwaith trylwyr yn dadansoddi effaith prosesau uno ar gystadleuaeth a defnyddwyr ar gam 1 wedi achosi i gwmnïau roi'r gorau i'w cynlluniau uno arfaethedig. Er enghraifft, rhoddwyd y gorau i gynllun uno [Imprivata ac Isosec](#), yn dilyn ein hymchwiliad cam 1 cychwynol. Darparodd Imprivata ac Isosec systemau rheoli awthentigeiddio diogel i ddarparwyr gofal iechyd yn Lloegr. Gall y technolegau hyn roi mynediad a ddiogelir i staff i ddata sensitif cleifion a gafwyd o un o systemau TG canolog y GIG. Gwelsom dystiolaeth fod y ddau gwmni yn gystadleuwyr pwysig yn y maes hwn, am fod y ddau yn darparu systemau rheoli awthentigeiddio diogel i ddarparwyr gofal iechyd yn Lloegr. Gwnaethom nodi bod disgwyl i gystadleuaeth rhwng y ddau gynyddu a, phetai'r broses uno yn mynd yn ei blaen yn unol â'r cynllun, y byddai'n effeithio ar y GIG a darparwyr

gofal iechyd eraill ledled Lloegr, a allai, yn ei dro, olygu bod trethdalwyr yn cael llai o werth am arian.

- 4.43 Gwnaethom dderbyn ymrwymadau cyfreithiol gyfrwymol mewn sawl proses uno er mwyn tawelu pryderon difrifol ynghylch cystadleuaeth a'r effaith bosibl ar ddefnyddwyr. Roedd y rhain yn cynnwys ymrwymadau gan Cellnex i werthu mwy na 1,000 o safleoedd tyrau telegyfathrebu er mwyn mynd i'r afael â phryderon difrifol ynghylch cystadleuaeth a oedd yn ymwneud â'i benderfyniad i brynu [tyrau CK Hutchinson yn y DU](#).
- 4.44 Gwnaethom gynnal ymchwiliad cam 2 manwl i gynllun arfaethedig CHC i brynu busnes gwasanaethau cludiant hofrenyddion olew a nwy ar y môr [Babcock](#). Roedd y grŵp annibynnol o aelodau'r panel yn pryderu y byddai'r broses uno yn lleihau cystadleuaeth rhwng yr hyn sydd eisoes yn nifer cyfyngedig o gyflenwyr mewn marchnad sy'n hanfodol i sicrhau bod diwydiant olew a nwy Môr y Gogledd yn gweithredu'n ddidrafferth ar adeg pan fo'r pwysau ar brisiau ynni eisoes yn sylweddol. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, rydym yn gofyn i CHC werthu'r busnes a brynodd gan Babcock.
- 4.45 Gwnaethom hefyd gyhoeddi ein penderfyniad terfynol yn dilyn ailasesiad o'r broses o brynu GBST gan FNZ, a oedd cystadlu ag ef, ar ôl i apêl gael ei chyflwyno i'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu yn erbyn ein penderfyniad cychwynnol i atal y broses uno. Yn ein hailasesiad, nododd y grŵp o aelodau'r panel y gallai prynu'r busnes leihau cystadleuaeth yn y farchnad cyflenwi llwyfannau buddsoddi manwerthol yn sylweddol a allai, yn ei dro, olygu bod defnyddwyr yn y DU sy'n dibynnu ar y llwyfannau hyn i weinyddu pensiynau a buddsoddiadau eraill yn gorfod talu costau uwch ac yn cael gwasanaethau o ansawdd is.
- 4.46 Mae ein hymchwiliad cam 2 manwl i'r broses o uno [Dye & Durham / TM Group yn dal i fynd rhagddo](#). Mae'r ddau fusnes yn darparu gwasanaeth chwilio am eiddo 'un stop' i gleientiaid yn y farchnad eiddo o dan amrywiaeth o frandiau. Rydym wedi rhoi dyfarniad dros dro bod y broses uno yn lleihau cystadleuaeth yn y farchnad cyflenwi gwasanaethau chwilio am eiddo yn sylweddol ac y gallai arwain at gostau uwch i drawsgludwyr, asiantiaid eiddo a broceriaid morgeisi, a allai gael eu trosglwyddo ymlaen fel ffioedd uwch i bobl a busnesau sy'n prynu neu'n gwerthu eiddo preswyl a masnachol.
- 4.47 Gwnaethom lwyddo i amddiffyn her gan Sabre yn y Tribiwnlys Apelau Cystadlu yn dilyn ein penderfyniad i atal ei gynllun uno arfaethedig â Farelogix. Mae'r ddau gwmni yn cyflenwi systemau meddalwedd sy'n

helpu cwmnïau awyrennau i werthu ehediadau drwy asiantaethau teithio gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu ar-lein. Roeddem yn pryderu y gallai'r broses uno arwain at lai o arloesi. Roedd y dyfarniad gan y Tribiwnlys Apelau Cystadlu yn cefnogi ein dull o asesu'r broses uno.

- 4.48 Ym maes gorfodi cystadleuaeth, gwnaethom agor ymchwiliad ym mis Mawrth i achos a amheuir o ymddygiad gwrthgystadleuol mewn cysylltiad â'r broses gaffael barhaus ar gyfer y contractau i gyflenwi gwasanaethau yng [Nghanolfannau Cadw Mewnfudwyr Heathrow a Derwentside](#).
- 4.49 Ym mis Hydref, gwnaethom agor ymchwiliad i farchnad i [rwydwaith 'Airwave' Motorola](#), sef y rhwydwaith radio symudol a ddefnyddir gan bob gwasanaeth brys ym Mhrydain Fawr. Cafodd penderfyniad y CMA i fynd ati'n syth i gynnal ymchwiliad i'r farchnad heb atgyfeiriad o gam 1 ei amddiffyn yn llwyddiannus yn y Tribiwnlys Apelau Cystadlu. Mae'r CMA yn pryderu ei bod yn bosibl nad yw'r farchnad ar gyfer cyflenwi'r rhwydwaith radio symudol a ddefnyddir gan bob gwasanaeth brys ym Mhrydain Fawr yn gweithio'n dda, sy'n arwain at wasanaeth drutach i gwsmeriaid ac, yn y pen draw, y trethdalwr.
- 4.50 Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein pwerau i ddatgymhwyso cyfarwyddwyr mewn achosion gorfodi cystadleuaeth er mwyn sicrhau atebolrwydd unigol dros gamymddwyn. Ers i'r pŵer gael ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn 2016, cafwyd 25 o achosion o ddatgymhwyso cyfarwyddwyr a gododd o ymchwiliadau o dan y Ddeddf Cystadleuaeth, a oedd yn cynnwys cyfarwyddwyr mewn amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys y sector adeiladu, y sector fferyllol a'r sector asiantaethau eiddo. O'r 25 o achosion hyn, mae'r CMA wedi llwyddo i sicrhau bod 24 o unigolion yn cael eu datgymhwyso drwy gytuno ar ymgymeriadau (gan gynnwys dau ddatgymhwysiad ar gyfer yr un unigolyn). Bu un achos lle y gorchynnodd y llys i unigolyn gael ei ddatgymhwyso. Yn fwy diweddar, ym mis Rhagfyr, gwnaethom ddatgymhwyso cyfarwyddwr am y rhan roedd wedi'i chwarae mewn achos o dorri rheolau cyfnewid gwybodaeth a gododd o ymchwiliad CMA i [Nortriptyline](#).
- 4.51 Rydym hefyd wedi parhau â'n gwaith ar Fancio Agored a ddechreuodd yn 2017 fel rhan o becyn o rwymedïau yn dilyn ymchwiliad CMA i'r farchnad bancio manwerthol. Gorchynnodd y CMA i'r naw banc a chymdeithas adeiladu fwyaf yn y DU greu Endid Gweithredu Bancio Agored (OBIE) a thalu amdano er mwyn datblygu a chyflwyno'r safonau bancio agored. Ym mis Ionawr 2022, roedd mwy na phum

miliwn o ddefnyddwyr gwasanaethau a bwerir gan dechnoleg Bancio Agored.

- 4.52 Ym mis Mawrth 2022, gwnaethom gyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad ar y trefniadau llywodraethu ar gyfer Bancio Agored yn y dyfodol. Ystyriodd yr ymateb hwn ganfyddiadau ymchwiliad annibynnol i honiadau ynglŷn ag ymddygiad yn yr OBIE ac, ers hynny, bu'r CMA yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i atgyfnerthu a gwella'r fframwaith llywodraethu ar gyfer yr OBIE.⁵ Ar yr un pryd ag y cyhoeddwyd ymateb y CMA i'r ymgynghoriad, cyhoeddodd rheoleiddwyr a'r Llywodraeth y byddai Cyd-bwyllgor Goruchwyliaeth Reoleiddiol yn cael ei greu er mwyn goruchwyllo'r gwaith o gynllunio a sefydlu endid yn y dyfodol a datblygu Bancio Agored y tu hwnt i gwmpas Gorchymyn y CMA.
- 4.53 Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd y CMA ganfyddiadau ac argymhellion adolygiad gan Kirstin Baker, un o Gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol y CMA, er mwyn nodi'r gwersi y gallai'r CMA eu dysgu o Fancio Agored er mwyn llywio ei ddull o ddylunio, gweithredu a monitro rhwymedïau yn ei ymchwiliadau i farchnadoedd Wrth gyhoeddi canfyddiadau Ms Baker, ymrwymodd y CMA i weithredu ei hargymhellion yn llawn a chyhoeddi adroddiad y flwyddyn nesaf ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran ei raglen waith ar rwymedïau.

Cymryd ein lle fel awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr byd-eang wrth i'r CMA ymgymryd â chyfrifoldebau newydd ar ôl y cyfnod pontio yn dilyn Ymadawiad y DU â'r UE

- 4.54 Rydym wedi cymryd ein lle fel awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr byd-eang Sicrhaodd ein paratodau helaeth fod gennym y bobl, y sgiliau a'r seilwaith angenrheidiol er mwyn inni allu cyflawni ein rôl ehangach y tu allan i'r UE. O ganlyniad, rydym wedi bwrw ymlaen ag achosion rhyngwladol cymhleth a fyddai wedi'u neilltuo i'r Comisiwn Ewropeaidd yn flaenorol ac wedi atgyfnerthu trefniadau cydweithio â'n cymheiriaid rhyngwladol ymhellach. Ar yr un pryd, rydym wedi dechrau gweithredu'r Uned Marchnadoedd Digidol gysgodol; rydym wedi lansio Swyddfa'r Farchnad Fewnol; ac rydym wedi aildechrau ar ein gwaith ar gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU ar gyfer y dyfodol drwy

⁵ Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd yr OBIE wedi'i reoli a bod diffyg llywodraethiant corfforaethol priodol wedi cyfrannu'n uniongyrchol at hynny. Roedd gwelliannau i lywodraethiant yn cynnwys trefniadau llywodraethu wedi'u diweddarau ar gyfer yr OBIE.

baratoi ar gyfer creu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

- 4.55 Ochr yn ochr â'r achosion gorfodi cystadleuaeth a nodir yn fanylach isod, rydym wedi cwblhau ymchwiliadau pwysig i brosesau uno a edrychodd ar fusnesau sy'n gweithredu ar farchnadoedd ledled y byd. Er enghraifft, yn yr ymchwiliad i broses uno [NVIDIA / Arm](#), gwnaethom gydweithio'n agos gydag awdurdodau cystadleuaeth mewn gwledydd eraill er mwyn ystyried effaith y cytundeb yn ofalus. Rhoddwyd y gorau i'r cynllun uno wedi hynny ym mis Chwefror 2022 ar ôl i'r achos gael ei gyfeirio i fod yn destun ymchwiliad cam 2 manwl ar ôl i'n hymchwiliad cam 1 nodi pryderon posibl ynghylch cystadleuaeth a diogelwch cenedlaethol.
- 4.56 Hefyd, ym mis Chwefror 2022, gwnaethom dderbyn ymrwymadau cyfreithiol gyfrwymol yn dilyn ymchwiliad cam 1 i gynllun arfaethedig [S&P Global Inc. i gaffael IHS Market, yr oedd disgwyl iddo fynd yn ei blaen](#). Gwnaethom gydweithio'n agos gydag asiantaethau rhyngwladol eraill yn ystod ein hymchwiliad cam 1 cychwynnol a nododd rai pryderon ynghylch cystadleuaeth a oedd yn ymwneud â chyflenwi asesiadau o brisiau nwyddau penodol yn y DU. Roeddem yn pryderu, i ddechrau, y gallai'r lleihad mewn cystadleuaeth arwain at ganlyniadau gwaeth i gwsmeriaid. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae'r gwarediadau a gynigiwyd yn ddigonol i ymdrin â'r pryderon hynny.
- 4.57 Gwnaethom hefyd [atal proses uno rhwng Cargotec a Konecranes](#) ym mis Mawrth ar ôl canfod y byddai'r broses uno wedi lleihau cystadleuaeth yn sylweddol, a allai fod wedi cynyddu prisiau i ddefnyddwyr. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn ar y cyd ag asiantaethau rhyngwladol eraill.

Astudiaeth achos 3: [Cargotec/Konecranes](#)

Ym mis Mawrth 2022, gwnaethom atal cynllun gwerth \$5 biliwn i uno [Cargotec a Konecranes](#) yn dilyn ymchwiliad cam 2 manwl.

Nodwyd gennym y byddai'r broses uno yn niweidio cystadleuaeth o ran cyflenwi amrywiaeth eang o gynhyrchion ar gyfer cyfarpar trin cynwysyddion, a fyddai golygu mai ychydig iawn o gyflenwyr amgen a fyddai ar gael i gwsmeriaid yn y DU. Gallai hyn fod wedi arwain at ganlyniadau difrifol i derfynfeydd porthladdoedd a chwsmeiriad eraill yn y DU, gan gynnwys prisiau uwch a chynhyrchion a gwasanaethau o ansawdd is.

Cyflwynodd Cargotec a Konecranes rwymediâu er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn ond nodwyd gennym nad oedd gan y rhain alluoedd pwysig ac, felly, na fyddent wedi galluogi cystadleuaeth gref.

Dywedodd Martin Coleman, cadeirydd grŵp ymchwilio'r CMA:

"These are global businesses that make significant sales to UK customers, which is why it is critical for us to ensure that competition in the UK is protected."

Cynhaliwyd yr ymchwiliad ar y cyd ag awdurdodau eraill, gan gynnwys y Comisiwn Ewropeaidd, yr Adran Gyfiawnder a Chomisiwn Cystadleuaeth a Defnyddwyr Awstralia.

- 4.58 Er mwyn sicrhau bod ein bod yn arfer ein swyddogaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl, rydym yn gweithio'n agos gyda'n cymheiriaid yn y DU a ledled y byd, gan gynnwys parhau â'n cydberthynas gref â'r Comisiwn Ewropeaidd ac awdurdodau cystadleuaeth cenedlaethol yn Aelod-wladwriaethau'r UE.
- 4.59 Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wrth iddi ddatblygu cynigion ar uwchraddio fframwaith diogelu defnyddwyr y DU yn sylweddol. Mae a wnelo hyn yn benodol â'n pwerau i ymchwilio a gorfodi cyfraith diogelu defnyddwyr a byddai'n cynnwys y pŵer i gosbi achosion o dor-cyfraith yn uniongyrchol. Bydd hyn yn cadarnhau ein lle fel awdurdod byd-eang ym maes diogelu defnyddwyr.
- 4.60 Rydym wedi parhau i ymgysylltu a chydweithio'n agos â phartneriaid rhyngwladol eraill ar amrywiaeth eang o faterion. Mae hyn yn cynnwys ein cyd-gyfranogwyr⁶ yn y Fframwaith Cydgynorthwyo a Chydweithio Amlochrog (MMAC), yn ogystal â'r Comisiwn Ewropeaidd ac asiantaethau cystadleuaeth a defnyddwyr cenedlaethol yn yr UE a ledled y byd. Yn ein barn ni, gallai'r math hwn o gydweithio gynyddu ein heffaith. Ym mis Ebrill, gwnaethom ymuno â'n cymheiriaid yn Awstralia a'r Almaen er mwyn nodi'r angen am drefniadau gorfodi uno cadarn er mwyn ysgogi twf economaidd ar ôl y pandemig.

⁶ Yn ogystal â'r CMA, mae cyfranogwyr yn cynnwys Comisiwn Cystadleuaeth a Defnyddwyr Awstralia, Comisiwn Masnach Seland Newydd, Bwro Cystadleuaeth Canada, Adran Gyfiawnder yr Unol Daleithiau a Chomisiwn Masnach Ffederal yr Unol Daleithiau.

- 4.61 Rydym wedi parhau i fod yn gyfranogwyr gweithredol ac ymrwymedig mewn fforymau pwysig fel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, y Rhwydwaith Cystadleuaeth Rhyngwladol, y Rhwydwaith Diogelu Defnyddwyr a Gorfodi Rhyngwladol a Chynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Fasnach a Datblygiad.
- 4.62 Gan weithio gydag awdurdodau cystadleuaeth o'r gwledydd 'Pum Llygad' – y CMA ynghyd ag Adran Gyfiawnder yr Unol Daleithiau, Comisiwn Cystadleuaeth a Defnyddwyr Awstralia, Biwro Cystadleuaeth Canada a Chomisiwn Masnach Seland Newydd – rydym wedi rhybuddio cadwyni cyflenwi y bydd y rhai sy'n ceisio defnyddio achosion o darfu ar gadwyn gyflenwi i guddio ymddygiad gwrthgystadleuol anghyfreithlon, gan gynnwys cydgynllwynio, yn wynebu holl rym y gyfraith. Lansiodd y gweithgor yn dilyn pryderon ynghylch prisiau uwch a oedd yn deillio o darfu ar gadwyni cyflenwi ym mhob rhan o'r economi. Mae llawer o fusnesau ac unigolion wedi gweithio'n galed i leihau effaith y tarfu hwn. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai rhai busnesau diegwyddor gymryd mantais ar y tarfu hwn i gydgynllwynio a gweithredu mewn ffordd wrthgystadleuol gan dwyllo busnesau eraill ac, yn y pen draw, ddefnyddwyr.
- 4.63 Lansiodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ym mis Medi 2021 er mwyn rhoi cyngor annibynnol, monitro ac adrodd er mwyn helpu i sicrhau bod marchnad fewnol y DU yn gweithredu'n effeithiol. Ym mis Ebrill 2022, cadarnhaodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol fod cadeirydd cyntaf Swyddfa'r Farchnad Fewnol, Murdoch MacLennan, a fydd hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd y CMA, wedi'i benodi. Ar hyn o bryd, mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn bwrw ymlaen â'r gwaith o recriwtio panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol.
- 4.64 Nod Swyddfa'r Farchnad Fewnol yw helpu i sicrhau bod masnach yn llifo'n ddirwystr ym marchnad fewnol y DU, gan alluogi pobl a busnesau i fasnachu ledled y DU heb rwystrau ychwanegol sy'n seiliedig ar y wlad y maent yn byw ynddi. Mae'n adrodd ar ba mor effeithiol y gall cwmnïau werthu eu cynhyrchion a'u gwasanaethau ym mhob un o'r pedair gwlad ac yn rhoi cyngor technegol ac economaidd annibynnol i bob un o'r pedair llywodraeth ar yr effaith y gallai darpariaethau rheoleiddiol penodol a gyflwynir ganddynt ei chael ar farchnad fewnol y DU. Bydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn sicrhau ei bod yn dangos tryloywder, annibyniaeth, gwaith dadansoddi trylwyr a didueddrwydd a'i bod yn gweithio i fod yn ganolfan arbenigedd o ran materion sy'n ymwneud â'r farchnad fewnol a all fod, yn unol â'i swyddogaethau

statudol, yn adnodd i fusnesau, llunwyr polisi a rhanddeiliaid eraill ym mhob rhan o'r DU.

- 4.65 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ei dadansoddiad cyntaf o farchnad fewnol y DU. Mae'r adroddiad 'cyntaf o'i fath' hwn yn dangos lefel a phwysigrwydd masnach rhwng y pedair gwlad, sy'n debygol o fod yn fwy na £190 y flwyddyn. Nododd fod Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gwneud mwy o fusnes â gweddill y DU nag â'r UE neu weddill y byd a nododd gyfyngiadau yn y data sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn parhau i gydweithio â phob un o'r pedair gwlad er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn mewn data masnach o fewn y DU.
- 4.66 Daeth y Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau i rym ym mis Ebrill 2022. Rydym bellach yn paratoi ar gyfer lansio'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Rydym wedi bod yn recriwtio i'r tîm newydd a fydd yn gweithredu'r Uned ac yn datblygu gwaith er mwyn sicrhau y bydd yr Uned yn barod i gael ei lansio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- 4.67 Rydym hefyd wedi gwneud argymhelliad i Lywodraeth y DU ynglŷn â deddfwriaeth 'esemptiad bloc' newydd i'r DU er mwyn rhoi esemptiad awtomatig rhag y gwaharddiad ar gytundebau gwrthgystadleuol i gytundebau 'fertigol' pro-gystadleuol rhwng cwmnïau (a fydd yn disodli rheoliadau presennol yr UE a ddargedwir ar hyn o bryd yng nghyfraith y DU). Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i fusnesau ynghylch a yw eu trefniadau dosbarthu yn cyd-fynd â chyfraith cystadleuaeth ac yn diogelu defnyddwyr rhag cytundebau niweidiol. Byddwn yn adolygu rheoliadau 'esemptiad bloc' eraill yr UE a ddargedwir yng nghyfraith y DU maes o law, er mwyn gwneud argymhellion pellach i Lywodraeth y DU, gan gynnwys mewn perthynas â rheoliadau sy'n ymwneud â chytundebau ymchwil a datblygu, dosbarthu cerbydau modur a llongau cynwysyddion.

Meithrin cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd digidol

- 4.68 Mae gwaith y CMA mewn marchnadoedd digidol wedi bod yn ddylanwadol wrth lywio trafodaethau a phrosesau llunio polisi yn y DU a thu hwnt. Yn dilyn cyhoeddi ein hastudiaeth o'r farchnad i lwyfannau ar-lein a hysbysebion digidol a chyngor dilynol y Tasglu Marchnadoedd Digidol yn 2020, a gyflwynodd gynigion ar gyfer cyfundrefn pro-gystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol, lansiwyd yr Uned Marchnadoedd Digidol gysgodol ym mis Ebrill 2021. Bydd yr Uned

Marchnadoedd Digidol yn goruchwyllo cyfundrefn reoleiddio newydd ar gyfer y cwmnïau digidol mwyaf pwerus, gan hyrwyddo mwy o gystadleuaeth ac arloesedd yn y marchnadoedd hyn a diogelu defnyddwyr a busnesau rhag arferion annheg. Mae ein sefydliadau rhyngwladol bellach wedi mabwysiadu dull gweithredu tebyg.

- 4.69 Bydd yr Uned Marchnadoedd Digidol yn edrych yn ofalus ar arferion y cwmnïau digidol mwyaf pwerus, gan gymryd camau yn erbyn arferion niweidiol yn ogystal â mynd ati i agor marchnadoedd er mwyn hyrwyddo mwy o gyfleoedd ar gyfer cystadleuwyr newydd ac arloesol. Wrth inni aros am ein pwerau ffurfiol, rydym yn datblygu ein harbenigedd ac yn parhau i ddelio ag achosion digidol gan ddefnyddio pwerau sy'n bodoli eisoes.
- 4.70 Gwnaethom fwrw ymlaen â sawl achos gorfodi cystadleuaeth allweddol mewn marchnadoedd digidol a fyddai wedi cael eu goruchwyllo'n flaenorol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Rydym bellach wedi ymchwilio, neu rydym yn ymchwilio, i bedwar achos gwrthgylmlaid digidol rhyngwladol, gan gydweithio'n aml â'r Comisiwn Ewropeaidd ac asiantaethau rhyngwladol eraill. Mae hyn yn cynnwys ein hymchwiliad i gynigion Google i ddisodli swyddogaeth cwcis trydydd parti ag offer ei Sandbox Privacy.

Astudiaeth achos 5: Privacy Sandbox Google

Derbyniodd y CMA ymrwymiadau gan Google ym mis Chwefror 2022 a oedd yn ymwneud â'i gynnig i ddileu cwcis trydydd parti o borwr Chrome (y cyfeirir atynt fel cynigion Sandbox Privacy).

Gwnaethom gynnal ymchwiliad manwl a gweithgarwch ymgysylltu helaeth â Google a chyfranogwyr yn y farchnad, gan gynnwys dau ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Roedd yn pryderu y byddai'r cynigion yn arwain at sefyllfa lle y byddai Google yn cael cyfran fwy byth o'r gwariant ar hysbysebion ar-lein. Gallai'r cynigion hefyd fod wedi tanseilio gallu cyhoeddwyr ar-lein, megis papurau newydd, i gynhyrchu refeniw a pharhau i lunio cynnwys gwerthfawr yn y dyfodol.

Mae'r ymrwymiadau hyn, a adolygwyd yn dilyn ein hymchwiliad cychwynol, yn mynd i'r afael â phryderon y CMA ynghylch cystadleuaeth ac mae Google hefyd wedi dweud y byddant yn cael eu cyflwyno'n fyd-eang Maent yn cynnwys:

- Bydd y CMA a'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cymryd rhan y broses o ddatblygu a phrofi cynigion Sandbox Privacy.
- Bydd Google yn cynnal proses fwy tryloyw na'r un a gynigiwyd i ddechrau.
- Ni fydd Google yn dileu cwcis trydydd parti nes y bydd y CMA yn fodlon bod ei phryderon ynghylch cystadleuaeth wedi'u hystyried.
- Ymrwymadau i gyfyngu ar rannu data o fewn ei ecosystem a pheidio â ffafrio ei wasanaethau hysbysebu ei hun.

Byddwn yn goruchwyllo Google er mwyn sicrhau y caiff Sandbox Privacy ei ddatblygu mewn ffordd sydd o fudd i ddefnyddwyr. Rydym yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i oruchwyllo'r gwaith o ddatblygu'r cynigion er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu preifatrwydd heb gyfyngu gormod ar gystadleuaeth na niweidio defnyddwyr.

- 4.71 Rydym hefyd yn ymchwilio i b'un a allai Facebook (Meta bellach) fod yn cam-fanteisio ar ei oruchafiaeth yn y marchnadoedd cyfryngau cymdeithasol neu hysbysebion digidol drwy'r ffordd y mae'n casglu ac yn defnyddio data hysbysebu. Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom lansio achos yn ymchwilio i Apple yn dilyn cwynion bod ei delerau ac amodau ar gyfer datblygwyr apiau yn annheg ac yn wrthgystadluol. Hefyd, yn ddiweddar, gwnaethom lansio ymchwiliad i Google a Facebook (Meta bellach) a edrychodd ar bryderon eu bod wedi rhwystro cystadleuaeth mewn marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau hysbysebu arddangos ar-lein.
- 4.72 Rydym hefyd wedi ymchwilio i sawl cynllun uno pwysig yn cynnwys cwmnïau digidol, gan gynnwys Nvidia/Arm, S&P Global/IHS Markit, Imprivata/Isocsec, FNZ/GBST (fel y nodwyd uchod), a'r broses a gwblhawyd o gaffael Giphy gan Facebook (Meta bellach).

Astudiaeth achos 4: Facebook/Giphy

Nododd y CMA y gallai'r broses a gwblhawyd o gaffael Giphy gan Facebook (Meta bellach) godi pryderon ynghylch cystadleuaeth wrth gyflenwi hysbysebion arddangos yn y DU ac wrth ddarparu gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol yn fyd-eang (gan gynnwys yn y DU). Felly, gwnaethom gyfarwyddo Facebook i werthu Giphy.

Daeth grŵp annibynnol y CMA o aelodau'r panel a adolygodd y broses uno i'r casgliad y gallai Facebook gynyddu ei bŵer yn y farchnad, a oedd eisoes yn sylweddol, mewn perthynas â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill drwy wneud y canlynol:

- atal llwyfannau eraill rhag defnyddio GIFs Giphy neu gyfyngu ar eu defnydd ohonynt, gyrru mwy o draffig i safleoedd sy'n eiddo i Facebook, sydd eisoes yn cyfrif am 73% o'r amser a dreulir dan ddefnyddwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn y DU, neu
- newid telerau mynediad e.e. drwy fynnu bod TikTok, Twitter a Snapchat yn darparu mwy o ddata ddefnyddwyr er mwyn defnyddio GIFs Giphy.

Mewn dyfarniad diweddar, cadarnhaodd y Tribiwnlys Apelaau Cystadlu ganfyddiad y CMA fod y broses uno rhwng Facebook a Giphy yn lleihau cystadleuaeth ddynamig yn sylweddol.

Yn ystod yr ymchwiliad i'r uno, cafodd Facebook ddirwy o £50.5 miliwn am dorri gorchymyn a osodwyd gan y CMA. Fel rhan o'r broses, roedd yn ofynnol i Facebook roi diweddariadau rheolaidd i'r CMA yn nodi ei gydymffurfiaeth â'r gorchymyn. Gwnaeth Facebook gyfyngu'n sylweddol ar gwmpas y diweddariadau hynny, er iddo dderbyn sawl rhybudd gan y CMA.

Drwy fynnu bod Facebook yn gwerthu Giphy, mae'r CMA yn diogelu miliynau o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol ac yn hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd ym maes hysbysebion digidol.

4.73 Yn ein gwaith diogelu defnyddwyr i fynd i'r afael â gwerthu adolygiadau ffug ar-lein, rydym wedi sicrhau [ymrwymïadau pellach gan Facebook](#) i'w gwneud yn anos i bobl ddod o hyd i grwpiau a phroffiliau sy'n prynu ac yn gwerthu adolygiadau ffug. Rydym hefyd wedi agor [ymchwiliad i Amazon a Google](#) mewn ymateb i bryderon nad ydynt yn gwneud digon i fynd i'r afael ag adolygiadau ffug ar eu gwefannau.

4.74 Ym mis Rhagfyr, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad interim yn dilyn ein hastudiaeth o'r farchnad i ecosystemau symudol Apple a Google. Ein canfyddiad dros dro oedd bod [Apple a Google](#) yn gallu manteisio ar eu pŵer yn y farchnad i greu ecosystemau hunangynhwysol, ar y cyfan, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i unrhyw gwmni arall ymuno â system newydd a chystadlu mewn modd ystyrlon â hi. Nododd ein

hadroddiad nifer o gamau a allai gael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mehefin 2022 ac rydym bellach yn ymgynghori ar atgyfeiriad arfaethedig ar gyfer ymchwiliad i'r farchnad.

- 4.75 Ym mis Ionawr, gwnaethom [lansio astudiaeth o'r farchnad i'r sector ffrydio cerddoriaeth](#) er mwyn nodi a yw cystadleuaeth yn y sector hwn yn gweithio'n dda neu a oes angen cymryd camau pellach. Bydd ein hymchwiliad yn edrych ar y farchnad o'r crëwr i'r defnyddiwr, gan roi sylw penodol i'r rolau a chwaraeir gan labeli record a gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth.
- 4.76 Mae'r uned Data, Technoleg a Dadansoddeg (DaTA) yn darparu'r sgiliau technegol pwysig sydd eu hangen ar gyfer ein gwaith ar farchnadoedd digidol. Mae'r uned wedi parhau i ddatblygu sawl adnodd pwrpasol er mwyn cribinio data a monitro marchnadoedd. Mae ei pheirianwyr a'i gwyddonwyr data eisoes yn casglu ac yn dadansoddi setiau data mawr, cymhleth a llawn ar gyfer achosion, megis ein hymchwiliadau i adolygiadau ffug ar-lein, ac yn dadansoddi'r algorithmau a'r systemau technegol a ddefnyddir gan gwmnïau technoleg mawr sy'n effeithio ar fywydau defnyddwyr bob dydd a'r ffordd y mae marchnadoedd digidol pwysig yn gweithredu (e.e. hysbysebion digidol). Mae ei 'Behavioural Hub' yn defnyddio dealltwriaeth o ddefnyddwyr a'u rhyngweithio â rhyngwynebau cwmnïau digidol. Mae'n cyfrannu at y gwaith o ddylunio rhwymedïau technegol, megis y gallu i ryngweithredu neu dechnegau ar gyfer rhannu data dienw. Yn gyffredinol, mae arbenigedd technolegol uned DaTA yn ein galluogi i herio cwmnïau a'u dwyn i gyfrif yn fwy effeithiol. Rydym hefyd wedi rhoi cyngor i awdurdodau cystadleuaeth a oedd yn awyddus i ddatblygu galluoedd tebyg i'n huned DaTA mewn model sy'n cael ei gopïo ledled y byd.
- 4.77 Mae ein 'Behaviourial Hub' wedi dechrau gwaith trawsbynciol pwysig â'n Timau Defnyddwyr ac Eiriolaeth ar ddefnyddio Saernïaeth Dewis Ar-lein. Mae wedi bod yn darparu gwybodaeth dechnolegol am farchnadoedd newydd a marchnadoedd sy'n datblygu y mae defnyddwyr yn dod ar eu traws, gan weithio'n agos gyda'r Uned Marchnadoedd Digidol. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi arwain at gyhoeddi papur trafod ac adolygiad mawr o dystiolaeth i'r ffordd y gall gwaith dylunio gwael ac ystrywgar niweidio defnyddwyr a marchnadoedd. Ym mis Mai, cynhaliodd y CMA gynhadledd ar Saernïaeth Dewis Ar-lein gyda siaradwyr o'r DU a thu hwnt o'r byd academiaidd, cwmnïau digidol mawr a sefydliadau defnyddwyr.

- 4.78 Rydym yn sicrhau mwy o eglurder a chysondeb mewn gweithgarwch rheoleiddio yn y maes digidol dwy'r Fforwm Cydweithio ar Reoleiddio'r Maes Digidol, y rheoleiddwyr digidol cyntaf mewn unrhyw wlad i wneud hynny. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid yn yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom er mwyn atgyfnerthu trefniadau cydweithio a hyrwyddo mwy o gydlyniant rhwng dulliau rheoleiddio. Mewn cydweithrediad â'n partneriaid, byddwn yn ei gwneud yn bosibl i economi ddigidol y DU gael ei rheoleiddio mewn ffordd gydlynus, wybodus ac ymatebol sy'n bodloni gofynion dinasyddion, defnyddwyr a busnesau ac yn gwella effaith a safle byd-eang y DU.
- 4.79 Ym mis Mai, gwnaethom [gyhoeddi datganiad ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#), yn nodi ein barn a rennir ar y gydberthynas rhwng cystadleuaeth a diogelu data yn yr economi ddigidol – sef y datganiad cyntaf o'i fath yn y byd. Mae'r porth ymchwil newydd ar gyfer rheoleiddio'r maes digidol, a lanswyd yn ddiweddar, yn dwyn ynghyd fwy nag 80 o ddarnau o ymchwil ddiweddar gan wyth corff rheoleiddio i ddatblygiadau digidol newydd a datblygiadau digidol yn y dyfodol, gan sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd er mwyn llywio'r drafodaeth bresennol.
- 4.80 Ym mis Tachwedd, cynhaliodd y CMA Uwchgynhadledd i Orfodwyr er mwyn arwain gwaith i atgyfnerthu trefniadau cydweithio rhwng awdurdodau cystadleuaeth yng ngwledydd y G7 mewn perthynas â marchnadoedd digidol, er mwyn meithrin dealltwriaeth o wahanol ddulliau o ymdrin â materion cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol a thrafod cydweithio a chydweithredu yn yr hirdymor. Yn dilyn yr uwchgynhadledd, gwnaethom gyhoeddi datganiad ar y cyd â'r Comisiwn Masnach Ffederal ac Is-adran Gwrthgylmbleidiau'r Adran Gyfiawnder gan dynnu sylw at y gydberthynas agos ymhlith ein hasiantaethau ac yn cadarnhau ein bod yn bwriadu atgyfnerthu trefniadau cydweithio a chydweithredu â'n gilydd.

Cefnogi'r broses o newid i economi carbon isel

- 4.81 Mae newid yn yr hinsawdd yn dal i fod yn fater pwysig iawn ledled y byd ac yn y DU. Bydd ei oblygiadau yn effeithio ar farchnadoedd rhyngwladol a domestig a thrwy hynny, ar ddefnyddwyr yn y DU.
- 4.82 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i darged cyfreithiol gyfrwymol i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050 ac mae twf economaidd glân yn hanfodol i

gyflawni'r nod hwn. Yn y CMA, mae cefnogi'r broses o newid i economi carbon isel yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol. Rydym yn cefnogi'r broses hon drwy'r achosion rydym yn ymgymryd â nhw a'r cyngor rydym yn ei roi i bob un o'r pedair llywodraeth yn y DU ac eraill.

- 4.83 Rydym wedi parhau i flaenoriaethu gwaith mewn marchnadoedd lle y gallai arferion presennol lesteirio'r broses o newid i economi carbon isel yn llwyddiannus yn y dyfodol. Er enghraifft, yr astudiaeth o'r farchnad gwefru cerbydau trydan lle rydym yn nodi, yn ein hadroddiad terfynol, fesurau i sicrhau y bydd rhwydwaith cenedlaethol o fannau gwefru cerbydau trydan ar waith cyn i'r gwaharddiad ar werthu ceir petrol a deisel newydd gael ei gyflwyno yn 2030. Bydd ein hargymhellion yn hyrwyddo cystadleuaeth gref, yn annog mwy o fuddsoddiad ac yn meithrin ymddiriedaeth pobl, nawr ac yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd ymchwilio i drefniadau cyfyngol hirdymor o ran darparu manau gwefru, a arweiniodd at ymrwymadau gan Gridserve, sef perchennog 'The Electric Highway', gweithredwr manau gwefru mawr ym Mhrydain Fawr, a fydd yn agor cystadleuaeth ac yn cynyddu'r dewis o fannau gwefru trydan yn ardaloedd gwasanaethau traffordd.
- 4.84 Gan ddefnyddio ein swyddogaethau diogelu defnyddwyr, rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o honiadau amgylcheddol neu 'wyrdd' gan fusnesau. Ym mis Medi, gwnaethom gyhoeddi canllawiau i fusnesau i'w helpu i ddeall eu rhwymedigaethau presennol o dan gyfraith defnyddwyr a chydymffurfio â nhw wrth wneud honiadau amgylcheddol am eu nwyddau a'u gwasanaethau. Yn ddiweddarach, ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi canllawiau i siopwyr ar yr hyn y dylent gadw llygad amdano. Wedyn, ym mis Ionawr, gwnaethom ddechrau ar ein hadolygiad cyntaf o gydymffurfiaeth, gan ddechrau ag adolygiad o honiadau amgylcheddol yn y sector manwerthu ffasiwn.

Astudiaeth achos 6: Cod Honiadau Gwyrdd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r CMA wedi cyhoeddi ei God Honiadau Gwyrdd er mwyn helpu busnesau i ddeall sut i gyfleu eu cymwysterau gwyrdd ac, ar yr un pryd, gydymffurfio â'u rhwymedigaethau presennol o dan gyfraith defnyddwyr a lleihau'r risg o gamarwain siopwyr.

Mae'r cod yn nodi bod yn RHAID i honiadau gwyrdd:

1. Fod yn wir ac yn gywir
2. Bod yn glir ac yn ddiamwys
3. Peidio â hepgor na chuddio gwybodaeth bwysig
4. Gwneud cymariaethau teg ac ystyrion yn unig
5. Ystyried cylch oes llawn y cynnyrch

6. Cael eu hategu â thystiolaeth

Wedyn, gwnaethom gyhoeddi ein Cod Honiadau Gwyrdd i siopwyr, gydag awgrymiadau i helpu defnyddwyr i adnabod cynhyrchion a gwasanaethau â chymwysterau amgylcheddol go iawn.

Mae ein gwaith yn ceisio ymdrin â phryderon bod gormod o fusnesau yn derbyn clod, drwy dwyll, am fod yn wyrdd ar adeg pan fo mwy o bobl nag erioed yn ystyried effaith amgylcheddol cynnyrch cyn ei brynu.

Ar ôl cyhoeddi ei god, mae'r CMA wedi dechrau adolygiad o honiadau gwyrdd yn y sector manwerthu ffasiwn. Mae'r CMA yn bwriadu edrych ar sectorau eraill maes o law.

Yn ôl rhai amcangyfrifon, mae ffasiwn yn gyfrif am rhwng 2% ac 8% o allyriadau carbon y byd ac mae llawer o ddefnyddwyr yn ceisio dewis opsiynau mwy amgylcheddol gynaliadwy wrth brynu dillad.

- 4.85 Mewn achosion o uno, ein canfyddiad dros dro oedd y byddai uno [Veolia Environnement S.A. a Suez S.A yn lleihau cystadleuaeth o ran darparu sawl gwasanaeth rheoli gwastaff a dŵr yn y DU](#). Mae'r ddau gwmni yn weithredol yng nghadwyn gyflenwi y sector rheoli gwastraff o gasglu gwastraff i weithredu cyfleusterau ar gyfer compostio a llosgi a safleoedd tirlenwi. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau rheoli dŵr a gwastraff i gwsmeriaid diwydiannol. Gwnaethom nodi y gallai colli cystadleuaeth arwain at wasanaethau mwy costus o ansawdd is ac, yn ei dro, at filiau treth gyngor uwch, oherwydd y byddai gan gynghorau lleol a rhai busnesau lai o ddewis wrth gaffael gwasanaethau rheoli gwastraff a dŵr allweddol. Mae hyn yn bwysicach fyth ar adeg pan fo cyllidebau awdurdodau lleol eisoes o dan bwysau ac mae'n rhaid i wasanaethau rheoli gwastraff ddatblygu er mwyn helpu i gyflawni targedau ar gyfer sero net.
- 4.86 Ym mis Mawrth eleni, gwnaethom gyhoeddi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar sut y gall cyfundrefnau cystadleuaeth a defnyddwyr helpu i gyflawni nodau'r DU o ran sero net a chynaliadwyedd mewn ffordd fwy effeithiol, gan ymdrin â'r dirwedd bresennol, ac unrhyw newidiadau posibl, a chamau y gall y CMA eu cymryd nawr. Bydd yn rhaid inni fod yn feiddgar er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd hwn.

- 4.87 Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn ymgymryd â gwaith newydd ym maes newid hinsawdd a chynaliadwyedd ac, yn ddiweddar, gwnaethom lansio ymchwiliad i achos a amheuir o ymddygiad gwrthgystadleuol sy'n effeithio ar y defnydd cynaliadwy o adnoddau yn y diwydiant modurol, gan gynnwys mewn perthynas ag ailgylchu, a'r gallu i ailgylchu, hen gerbydau a cherbydau sydd y tu hwnt i'w trwsio, yn benodol ceir a faniau.
- 4.88 Rydym yn ymwybodol o'r pwys y mae ein staff yn ei roi ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac rydym yn ymrwymedig i barhau i wella yn y maes hwn fel sefydliad.
- 4.89 Rydym yn ymrwymedig i gyflawni targedau'r Ymrwymiad Gwyrddu Llywodraeth, sy'n anelu at wneud y canlynol: lleihau'r defnydd o ddŵr; lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr; lleihau gwastraff; sicrhau y caiff cynhyrchion eu caffael mewn ffordd gynaliadwy. Nod y targedau hyn yw hyrwyddo ein cyfrifoldeb am yr amgylchedd o fewn y busnes ac annog darparu gwybodaeth am fentrau cynaliadwyedd a'u rhoi ar waith. Mae'r targedau hyn wedi'u gosod er mwyn gwella ein perfformiad amgylcheddol. Caiff pob ymrwymiad ei gynnwys yn yr Adroddiad ar yr Ymrwymadau Gwyrddu Llywodraeth/

CMA yn y 2020au: Ymgysylltu'n well â defnyddwyr

- 4.90 Mae gweithgareddau 'CMA yn y 2020au' yn seiliedig ar yr angen i wneud y canlynol: deall anghenion newidiol defnyddwyr a'u profiadau o farchnadoedd; esbonio ein rôl, ein penderfyniadau a'r rhesymau drostynt yn ein holl ohebiaeth allanol; eirioli er budd defnyddwyr mewn perthynas â materion rheoleiddiol, polisi a deddfwriaethol. Mae gweithgarwch o'r fath wedi dod yn bwysicach fyth, wrth inni geisio deall effaith costau byw cynyddol ar ddefnyddwyr, busnesau a'r economi.
- 4.91 Rydym yn parhau i ymestyn ein gwaith allgymorth i bobl a busnesau ym mhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU a defnyddio'r profiad hwnnw i lywio ein gwaith achos. Mae hyn yn adeiladu ar ein cylch gwaith ehangach a'n cynlluniau i agor rhagor o swyddfeydd, wrth inni gynyddu ein presenoldeb yng Ngogledd Lloegr. Ym mis Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi y byddwn yn sefydlu swyddfeydd ym Manceinion a Darlington. Bydd Manceinion yn gartref i'r Uned Marchnadoedd Digidol newydd a chaiff Uned Micro-economeg newydd y CMA ei chydaleoli â Champws Economaidd newydd y Llywodraeth yn Darlington. Bydd yr Uned Micro-economeg yn cyflawni swyddogaeth

ymchwil a gwerthuso economaidd bresennol y CMA ac yn gwneud ymchwil i ddiwygiadau i'r ochr gyflenwi er mwyn gwella cynhyrchiant.

- 4.92 [Rydym wedi cyhoeddi ail adroddiad ar y Sefyllfa o ran Cystadleuaeth.](#) Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys asesiad o ba mor dda y mae cystadleuaeth yn gweithio yn y DU a beth mae hynny'n ei olygu i bobl a busnesau. Mae'n dangos cyfuniad o dueddiadau sy'n peri pryder. Rydym yn gweld marchnadoedd yn ymganoli'n fwy, cwmnïau yn codi prisiau uwch ar gwmseriaid a'r cwmnïau mwyaf yn aros yn y safleoedd uchaf am fwy o amser. Mae hefyd yn nodi mai'r aelwydydd tlotaf fydd yn debygol o ddioddef effeithiau'r newidiadau hyn fwyaf. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan maent eisoes yn wynebu cynnydd sylweddol yng nghost eitemau hanfodol. Byddwn yn defnyddio ein canfyddiadau i lywio ein gwaith i sicrhau bod marchnadoedd yn parhau'n gystadleuol a diogelu defnyddwyr ar yr adeg hollbwysig hon.
- 4.93 Mae'r CMA yn aelod o'r Bartneriaeth Diogelu Defnyddwyr, a gadeirir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ac yn gyfrannwr allweddol at ei gwaith ac mae'n dwyn ynghyd lawer o'r asiantaethau gorfodi a'r cyrff defnyddwyr ar draws tirwedd defnyddwyr y DU. Eleni, gwnaethom helpu i ddatblygu'r arolwg a gomisiynwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar ran y Bartneriaeth Diogelu Defnyddwyr er mwyn gwrandao ar yr hyn y gallai defnyddwyr ei ddweud wrthym am eu profiadau o niwed i ddefnyddwyr. Cyhoeddwyd yr arolwg ym mis Ebrill 2022 fel rhan o'r Astudiaeth Diogelu Defnyddwyr.
- 4.94 Rydym yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â Cyngor ar Bopeth a Which? ar lefel strategol drwy gyfarfodydd a gynhelir bob chwarter. Rydym yn cynnal cyfarfodydd gweithredol â'r cyrff defnyddwyr perthnasol ledled y DU er mwyn rhannu gwybodaeth a sganio'r gorwel am feysydd newydd lle mae defnyddwyr yn cael eu niweidio. Mae'r sefydliadau yn gefnogwyr allweddol i amrywiaeth o waith y CMA ac yn gyfranwyr allweddol at y gwaith hwnnw, yn enwedig prosiectau gorfodi defnyddwyr. Rydym hefyd yn gweithio gyda Consumer Scotland wrth iddo ymsefydlu yn y dirwedd defnyddwyr ac yn edrych ymlaen at feithrin cydberthynas agos rhwng y sefydliadau.
- 4.95 Rydym hefyd wedi datblygu ein gwaith allgymorth gyda Cyngor ar Bopeth a gafodd ei ohirio am gryn dipyn o amser oherwydd y pandemig. Cynhaliwyd yr ymweliadau safle peilot cyntaf â Cyngor ar Bopeth ym mis Mai 2022 gyda nifer o aelodau o staff yn mynd i ganolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn dysgu mwy am waith Cyngor ar Bopeth a'r gwahanol faterion y mae'n ymdrin â nhw ac am sut y gallwn

weithio'n well fyth gyda'n gilydd yn y dyfodol. Bydd yr ymweliadau peilot hyn yn helpu i lywio unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud i'r rhaglen a nodi aelodau perthnasol o staff y CMA sydd fwyaf tebygol o gael budd o ymweliad o'r fath.

- 4.96 Gwnaethom gydweithio'n agos gyda Cyngor ar Bopeth ar gynllunio a chyflwyno ymgyrch 'Online Rip-Off Tip-Off' y CMA. Drwy ffurfio partneriaeth hefyd â Citizens Advice Scotland, Advice Direct Scotland, Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith 'Money Guiders' ar yr ymgyrch hon, gwnaethom gyrraedd defnyddwyr ym mhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU.
- 4.97 Rydym wedi cynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu â sefydliadau busnes ledled y DU, gan gynnwys amrywiaeth o gymdeithasau sector a masnach. Rydym hefyd wedi creu cydberthnasau cynhyrchiol â rhanddeiliaid yng Ngogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Lloegr yn unol â chanolfannau rhanbarthol newydd y CMA. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Chyddfederasiwn Busnes a Diwydiant Gogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Lloegr, Manchester Digital a Gŵyl Ddigidol Leeds. Gwnaethom gynnal cyfarfodydd bord gron â Rhwydweithiau Menter Lleol a changhennau rhanbarthol Ffederasiwn y Busnesau Bach a Sefydliad y Cyfarwyddwyr.
- 4.98 Rydym hefyd wedi parhau i ymgysylltu â sefydliadau yn y trydydd sector ledled y DU fel rhan o'n prosiect 'Getting Closer to the Third Sector', gan glywed gan amrywiaeth eang o sefydliadau yn y trydydd sector a, thrwyddynt, y defnyddwyr y maent yn rhyngweithio â nhw. Ymhlith y meysydd rydym yn canolbwyntio arynt mae hil, tlodi ac anghydraddoldeb, newid hinsawdd ac iechyd meddwl a llesiant. Eleni, rydym wedi ymestyn y prosiect ymhellach i gynnwys profiadau plant a phobl iau a phobl hŷn. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r cydberthnasau pwysig hyn â rhanddeiliaid a defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan y sefydliadau yn y trydydd sector rydym yn ymgysylltu â nhw er mwyn helpu i lywio'r broses o flaenoriaethu ein gwaith achos. Byddwn yn defnyddio'r rhwydwaith o gysylltiadau rydym wedi'i sefydlu drwy'r gwaith hwn yn y trydydd sector i ddeall mwy am y ffordd y mae costau byw cynyddol yn effeithio ar ddefnyddwyr a'r ffordd y gallai hynny lywio ein gwaith ym maes diogelu defnyddwyr a chystadleuaeth yn fwy cyffredinol.
- 4.99 Mae hyn yn ychwanegol at ein gweithgarwch ymgysylltu â chydweithwyr yn fewnol ynglŷn â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn sgil lansio ein pwyllgor cynghori (AdCo). Mae'r Pwyllgor Cynghori yn dîm amrywiol o unigolion o bob rhan o'r CMA sy'n

cydweithio i wella ffyrdd o feddwl ar lefel uwch yn y CMA. Mae'r Pwyllgor Cyngori hefyd yn rhoi gwybodaeth a chynghor i hysbysu, cefnogi a herio penderfyniadau a wneir ar lefel uwch.

4.100 Rydym hefyd wedi parhau â'n gwaith allgymorth sylweddol gyda deddfwriaethau ym mhob un o'r Gwledydd Datganoledig, yn dilyn etholiadau y llynedd yng Nghymru a'r Alban, a gyda Senedd y DU. Rydym wedi ymateb i ymchwiliadau ac ymgynghoriadau ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys twf ar ôl y pandemig, ac wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â Phwyllgorau Seneddol. Mae hyn wedi cynnwys ymddangos gerbron Pwyllgorau Tŷ'r Arglwyddi a Senedd yr Alban er mwyn trafod rôl Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus ar rôl yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

Edrych i'r dyfodol – cyfleoedd, heriau a risgiau

4.101 Byddwn yn parhau i wynebu cyfleoedd a heriau sylweddol yn y flwyddyn sydd i ddod wrth inni sefydlu ein gwaith ar y cyfrifoldebau a'r swyddogaethau newydd sylweddol a roddwyd inni, gyda chylch gwaith ehangach a sefydliad sy'n tyfu ym mhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU (yn enwedig yng Ngogledd Lloegr). Rydym yn parhau i wynebu cyfnod o ansicrwydd yn y dyfodol, hyd yn oed wrth inni ddod allan o'r gwaethaf o'r pandemig. Mae'r llwybr at adferiad yn ansicr, mae'r cynnydd mewn costau byw yn ddigynsail yn ystod y cyfnod diweddar ac mae'r rhyfel yn Wcráin yn effeithio ar gadwyni cyflenwi a marchnadoedd. Ar adeg fel hon, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn parhau i fod yn ystwyth ac yn hyblyg o ran y ffordd rydym yn gweithio a'r hyn rydym yn gweithio arno; ein bod yn arwain y ffordd o ran datblygu atebion wrth i broblemau godi; a'n bod yn parhau i weithredu er mwyn diogelu defnyddwyr yn y DU drwy gyfnod anodd.

4.102 Mae gan y CMA rôl bwysig i'w chwarae o ran meithrin ymddiriedaeth a hyder pan fydd pobl yn prynu nwyddau a gwasanaethau, a fydd yn hanfodol i adferiad yr economi. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar weithgarwch gorfodi cystadleuaeth a chyfraith defnyddwyr sy'n cael effaith fawr. Byddwn yn parhau'n effro i risg cynllwynio gwrthgystadleuol, i gynlluniau uno sy'n ceisio lleihau cystadleuaeth a manteisio ar anawsterau ariannol busnesau ac ymdrechion i gamfanteisio ar ddefnyddwyr, busnesau bach a chanolig (BBaChau) a microfusnesau.

4.103 Gallai newid yn yr hinsawdd hefyd arwain at fwy o ddigwyddiadau economaidd annisgwyl a phroses addasu, a allai darfu ar fusnesau,

mewn sawl sector, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio llawer o danwydd ffosil. Rydym yn cydnabod pa mor hanfodol bwysig i bob un ohonom yw mynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a chefnogi'r ymdrechion i gyflawni sero net. Mae cystadleuaeth effeithiol yn hanfodol i gefnogi adferiad a thwf cynaliadwy yn y dyfodol a sicrhau bod gan bobl ddewis ehangach o gynhyrchion a gwasanaethau gwell am brisiau is. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu gwaith a all helpu i ddatblygu marchnadoedd iach mewn nwyddau a gwasanaethau cynaliadwy.

- 4.104 Mae rhywfaint o waith y CMA, megis rheoli achosion o uno, yn orfodol: mae'n rhaid iddo gael ei wneud waeth beth fo'r cyd-destun ehangach y mae'r CMA yn gweithredu o'i fewn; ac mae terfynau amser statudol yn gymwys. Mae gennym fwy o ddisgresiwn o ran llawer o'n gwaith arall a byddwn yn blaenoriaethu'r meysydd hynny lle y gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a chael yr effaith fwyaf.

Edrych yn ôl

- 4.105 Fel Prif Weithredwr, hoffwn ategu'r hyn a ddywedodd y Cadeirydd a diolch i bob aelod o'n staff am bopeth rydym wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac, yn wir, y chwe blynedd diwethaf, ers imi gael fy mhenodi'n Brif Swyddog Gweithredol y CMA. Wrth imi baratoi i adael y sefydliad a throsglwyddo'r awenau i Sarah Cardell, ein Prif Swyddog Gweithredol dros dro, rwyf wedi ystyried y newidiadau rydym wedi'u gweld yn ystod fy nghyfnod yn y swydd. Yn ystod y blynyddoedd hynny, rydym wedi wynebu llawer o heriau ac mae'r sefydliad wedi newid gryn dipyn.
- 4.106 I ddechrau, rydym wedi tyfu 50%, wrth inni baratoi ar gyfer ein cyfrifoldebau a'n swyddogaethau newydd ac ymgymryd â nhw. Rydym wedi cynyddu ein presenoldeb y tu allan i Lundain ac rydym yn parhau ar hyd y llwybr hwnnw er mwyn sicrhau bod y problemau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu, ble bynnag y maent yn byw yn y DU, yn cael mwy o sylw a'u bod yn cael eu deall yn well. Gwnaethom symud swyddfeydd, a ddilynwyd, yn fuan ar ôl hynny, gan newid arall i sefydliad cyfan a oedd yn gweithio gartref, rhywbeth a wnaethom dros nos bron heb doriad yn y gwasanaeth, diolch i wydnwch ein staff, a chyda chymorth gwaith helaeth i gynllunio a diweddarau ein technoleg a ddigwyddodd ar yr un pryd ag y cyflwynwyd cyfyngiadau symud y pandemig.
- 4.107 Yn y gwaith rydym wedi'i wneud, rydym wedi gwneud gwahaniaeth amlwg i fywydau defnyddwyr ledled y DU. Yn ystod y pandemig, gan

ein bod yn gallu ymateb yn gyflym i'r argyfwng a oedd yn datblygu, gwnaethom lwyddo i sicrhau cannoedd o filiynau o bunnoedd mewn ad-daliadau ar gyfer digwyddiadau a gwyliau a ganslwydd oherwydd cyfyngiadau. Gwnaethom gyflawni canlyniadau cadarnhaol sylweddol i gleifion, y GIG ac, yn y pen draw, y DU gyfan drwy ein hachosion yn y sector fferyllol, gan atal arferion a allai fod wedi cynyddu prisiau am feddyginiaethau pwysig sy'n achub bywydau. Rydym wedi atal y rhai sy'n ceisio camddefnyddio eu safle a chyfyngu ar gystadleuaeth drwy ddatgymhwysu cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau atebolrwydd unigol am gamymddwyn.

- 4.108 Gwnaethom greu ein Huned DaTA sydd, dros y blynyddoedd, wedi meithrin amrywiaeth o alluoedd newydd er mwyn helpu'r CMA i gyflawni ei amcanion. Rydym wedi arwain asiantaethau cystadleuaeth ledled y byd drwy datblygu'r syniadaeth ynglŷn â sut i reoleiddio marchnadoedd digidol yn effeithiol a'r dulliau ymarferol ar gyfer gwneud hynny. Amlinellodd ein cyngor gyfundrefn reoleiddio pro-gystadleuaeth fodern ar gyfer marchnadoedd digidol er mwyn rheoli'r cwmnïau technoleg mwyaf pwerus – y rhai â 'statws marchnad strategol' – sy'n golygu'r rhai â phŵer sefydledig sylweddol yn y farchnad a lle mae effeithiau'r pŵer hwnnw yn y farchnad yn eang iawn neu'n sylweddol. Rydym wedi sefydlu Uned Marchnadoedd Digidol newydd, sydd eisoes yn gweithredu ar ffurf gysgodol, er mwyn sicrhau bod 'rheolau'r gêm' yn glir ymlaen llaw, ac rydym yn gweithio gyda chwmnïau technoleg pwerus er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â nhw. Rydym yn datblygu portffolio sylweddol o waith mewn marchnadoedd digidol er mwyn sicrhau'r manteision i ddefnyddwyr ac atal busnesau digidol pwerus rhag camfanteisio arnynt.
- 4.109 Mae'r CMA wedi monitro gweithgareddau'r farchnad a gweithgareddau uno yn gyson er mwyn sicrhau cystadleuaeth gref ac effeithio i gadw prisiau yn isel. Er enghraifft, rydym wedi cymryd camau cadarn i fynd i'r afael â'r cynlluniau uno hynny sy'n wrthgystadleuol ac yn debygol o arwain at brisiau uwch, cynhyrchion o ansawdd is a llai o ddewis i aelwydydd neu fusnesau. Roedd hyn yn cynnwys atal y cynllun uno arfaethedig rhwng Asda a Sainsbury's ym mis Ebrill 2019, yn rhannol oherwydd pryderon y byddai'n arwain at brisiau uwch yn y farchnad nwyddau groser bwysig.
- 4.110 Diolch i ymdrechion ein staff yn y CMA yn ystod fy nghyfnod yn y sefydliad, rydym wedi sicrhau gwelliannau sylweddol ym meysydd cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr er budd y cyhoedd.

5. Adegau allweddol eleni

Mis Ebrill

Ymyrraeth y CMA yn arwain at gymryd rhagor o gamau yn erbyn Facebook mewn perthynas ag adolygiadau ffug

Y CMA yn cynyddu'r ddirwy ar ôl i gwmni offerynnau cerdd dorri'r setliad y cytunwyd arno

Mis Mai

Honiadau 'gwyrdd': Y CMA yn nodi'r hyn y dylai busnesau ei wneud a'r hyn na ddylent ei wneud

Y Tribiwnlys Apelau Cystadlu yn cadarnhau'r penderfyniad tramgwyddo ar gyfer cytundebau 'talu am oedi' rhwng cwmnïau fferyllol

Y CMA yn cymeradwyo uno Virgin ac O2.

Mis Mehefin

Norton yn ymestyn hawliau i gael ad-daliadau ar ôl i'r CMA gymryd camau

Y CMA yn cyhoeddi canllawiau IVF ar hawliau defnyddwyr

Y CMA yn derbyn ymgymeriadau ar gyfer y broses o gaffael Asda a gwblhawyd gan Bellis er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch cystadleuaeth

Mis Gorffennaf

Y CMA yn argymhell cymryd camau pellach mewn perthynas â gwefru cerbydau trydan er mwyn cyflawni Sero Net

Y CMA yn dyfarnu bod cwmnïau cyffuriau wedi codi gormod ar y GIG am dabledi hydrocortison ac yn dirwyo cwmni fferyllol am orbrizio cyffur thyroid hanfodol

Mis Awst

Y CMA yn galw am ddeddfwriaeth gryfach i fynd i'r afael ag ailwerthu tocynnau yn anghyfreithlon

Llythyr agored at ddarparwyr PCR ynglŷn â chydymffurfio â chyfraith defnyddwyr

Mis Medi

Camau a gymerwyd gan y CMA yn sicrhau bod prisau angladdau yn glir i deuluoedd sy'n galaru

Ar ôl i'r CMA gymryd camau, mae lesddeiliaid gyda Countryside Properties yn cael eu rhyddhau o delerau contract costus

Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn agor i fusnes

Mis Hydref

Groupon yn ymrwmo i gynnig ad-daliadau a gwella ei wasanaeth cwsmeriaid

Y CMA yn agor ymchwiliad i rwydwaith 'Airwave' Motorola

Y CMA yn dirwyo Facebook am dorri gorchymyn gorfodi

Mis Tachwedd

Y CMA yn mynnu bod JD Sports yn gwerthu Footasylum

Y CMA yn agor cystadleuaeth o ran codi tâl am wefru cerbydau trydan ar briffyrdd

Y CMA yn cyfarwyddo Facebook i werthu Giphy

Mis Rhagfyr

Y CMA yn sicrhau newidiadau gan ddarparwyr profion PCR mawr

Y CMA yn pryderu bod deuopoli Apple a Google yn cyfyngu ar gystadleuaeth a dewis mewn marchnadoedd symudol

Y CMA yn dyfarnu bod uno Veolia / Suez yn codi pryderon ynghylch cystadleuaeth

Mis Ionawr

Y CMA yn datgymhwyso cyfarwyddwr cwmni fferyllol

Y CMA yn lansio ymchwiliad i'r farchnad ffrydio cerddoriaeth

Mis Chwefror

Y CMA yn rhoi dirwy o fwy na £35m i gwmnïau am drefniant anghyfreithlon i gyflenwi cyffur i'r GIG

NVIDIA yn rhoi'r gorau i'w gynllun i gymryd Arm drosodd yn ystod ymchwiliad gan y CMA

Y CMA i gadw 'llygad barcud' ar Google wrth iddo sicrhau ymrwymadau terfynol
ynghlŷn â Privacy Sandbox

Mis Mawrth

Canlyniad yr astudiaeth o'r farchnad gofal cymdeithasol plant

Y CMA yn cyhoeddi cyngor ar gynaliadwyedd amgylcheddol i'r Llywodraeth

Cyhoeddi'r dadansoddiad swyddogol cyntaf o farchnad fewnol y DU

6. Crynodeb o berfformiad

Lle y gwnaethom wario ein harian 2021/22

6.1 Gwariwyd £108.49 miliwn yn erbyn ein cyllidebau a roddwyd inni gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Ymhlith ein meysydd gwariant sylweddol a gofnodwyd mae'r canlynol:

- £95.17 miliwn ar ein gweithgareddau gweithredol craidd i ddiogelu defnyddwyr drwy weithgarwch gorfodi effeithiol, gweithredu cyfundrefn uno effeithlon ac effeithiol, sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n well a bod yn llais cryf o blaid cystadleuaeth;
 - £2.68 miliwn ar wariant cyfalaf wrth inni roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn prosiectau Technoleg Gwybodaeth (TG) er mwyn sicrhau cadernid ein seilwaith TG a dechrau gosod offer yn ein swyddfeydd ar ein safleoedd yng Nghaerdydd, Belfast a Chaeredin fel rhan o fentrau 'Places for Growth' a Ffyniant Bro ehangach y Llywodraeth.
 - £10.64 miliwn i ddarparu ar gyfer gwariant ar ddatblygu ac integreiddio swyddogaethau newydd fel rhan o gylich gwaith ehangach y CMA. O'r cyfanswm hwnnw, gwariwyd:
 - (i) £4.80 miliwn ar sefydlu'r Uned Marchnadoedd Digidol cyn i ddeddfwriaeth a fydd yn meithrin cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd digidol gael ei chyflwyno, wrth gynyddu ein gweithgarwch fel rheoleiddiwr marchnadoedd digidol;
 - (ii) £4.69 miliwn ar roi Swyddfa'r Farchnad Fewnol ar waith, ym mis Medi 2021, i roi cyngor a dadansoddiadau economaidd arbenigol, annibynnol a dibynadwy er mwyn helpu pedair gwlad y DU i fasnachu'n effeithiol ym marchnad fewnol y DU;
 - (iii) £1.15 miliwn ar baratodau parhaus i lansio'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, ar ôl i'r Bil Rheoli Cymorthdaliadau fynd drwy'r Senedd, a fydd yn rhoi cyngor i awdurdodau cyhoeddus ac yn adrodd ar weithrediad effeithiol y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau.
- 6.2 Nodir ac esbonnir y gwahaniaethau sylweddol rhwng ein cyllideb a'n gwariant gwirioneddol yn adroddiad y Cyfarwyddwyr: adolygiad ariannol ar dudalen 51.
- 6.3 Daeth blwyddyn ariannol 2021/22 â heriau sylweddol inni am fod yn rhaid inni reoli tarfu parhaus, i'n staff a chadwyni cyflenwi ledled y byd,

a achoswyd gan pandemig COVID-19. Yn ogystal â'r pandemig, gwnaethom ymrwymo i'n hadnoddau staff a seilwaith a pharhau i'w cynyddu er mwyn cyflawni ein hymrwymiaidau o ran ehangu rôl y CMA a chefnogi rhaglen ystadau ehangach y Llywodraeth. Mae datblygu ac ymgorffori swyddogaethau newydd yn ystod pandemig byd-eang wedi peri heriau sylweddol o ran recriwtio staff i rolau arbenigol iawn, yn enwedig am fod angen inni hefyd aros i ddeddfwriaeth berthnasol gael ei phasio.

Ein cylch gwaith a'n cyrhaeddiad ehangach

- 6.4 Mae'r CMA wedi ehangu ei gylch gwaith a'i gyrhaeddiad ledled pedair gwlad y DU eleni, wrth inni greu tair swyddogaeth newydd er mwyn cefnogi blaenoriaethau'r Llywodraeth ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Roedd pob un o'r swyddogaethau newydd hyn i'r CMA yn wynebu'r heriau o ran recriwtio a gwariant yng nghyd-destun y pandemig byd-eang parhaus, yn enwedig o'u cyfuno â dechrau ein rhaglen ehangu ledled gwledydd y DU.
- 6.5 Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol wedi'i sefydlu'n llwyddiannus. Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn rhoi cyngor technegol ac economaidd nad yw'n gyfrwymol i bob un o bedair llywodraeth y DU ar yr effaith y mae darpariaethau rheoleiddiol penodol a gyflwynir ganddynt yn ei chael ar farchnad fewnol y DU.
- 6.6 Mae'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau wedi bod yn gwneud paratodau, gan gynnwys recriwtio staff, er mwyn sefydlu'r swyddogaeth newydd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf cyn i'r Bil Rheoli Cymorthdaliadau gael ei ddeddfu gan y Senedd.
- 6.7 Sefydlwyd yr Uned Marchnadoedd Digidol ar sail anstatudol ym mis Ebrill 2021. gan weithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu polisi a chynlluniau'r Uned Marchnadoedd Digidol ar gyfer deddfwriaeth ar gyfer dyfodol yr Uned Marchnadoedd Digidol. Hyd yn oed ar y cam cynnar hwn, rydym wedi cyfrannu at gamau gweithredu mewn marchnadoedd digidol gan ddefnyddio ein pweiriau presennol, gan gynnwys: Ymchwiliadau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 i Google, Facebook ac Apple; ac astudiaethau o'r farchnad i ecosystemau symudol a ffrydio cerddoriaeth
- 6.8 Pan apelir yn erbyn penderfyniadau'r CMA, fel rhan o rôl y CMA i ddiogelu defnyddwyr, rhaid inni gyfrif am ganlyniadau achosion y penderfynir arnynt gan y llysoedd. Gan nad oes modd gwybod i sicrwydd beth fydd y canlyniadau hyn cyn i'r dyfarniadau gael eu rhoi,

rhaid inni lunio barn am ba mor debygol ydyw y byddwn yn llwyddo a darparu ar gyfer atebolrwydd posibl yn y dyfodol.

- 6.9 Mae'r CMA wedi gwneud cryn gynnydd o ran herio busnesau mawr er mwyn diogelu defnyddwyr a'r cyhoedd ac, o ganlyniad, rydym wedi rhoi rhai o'r dirwyon mwyaf ac wedi cymryd y camau mwyaf cymhleth yn hanes y CMA dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Wrth i'n hawydd i fentro gynyddu, rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn achosion ymglyfreitha mwy o faint a mwy cymhleth.
- 6.10 Yn ystod y flwyddyn, ac er mwyn rheoli unrhyw risg i gyllideb y CMA yn y dyfodol, gwnaethom ofyn am ganiatâd Trysorlys EM i gynyddu ein cyllideb nad yw'n arian parod £35.00 miliwn er mwyn rhoi hyblygrwydd inni gydnabod darpariaethau gwerth £7.88 miliwn yn y cyfrifon. Esbonnir hyn ymhellach yn adroddiad y Cyfarwyddwyr: adolygiad ariannol ar dudalen 51.

Incwm o ddirwyon a chosbau

- 6.11 Gwnaethom gasglu £13.58 miliwn o ddirwyon a chosbau o dan y Ddeddf Cystadleuaeth, a osodwyd ar gwmnïau mewn amrywiaeth o sectorau, sy'n dangos effaith amlwg y CMA o ran cwtogi ar arferion gwrthgystadleuol, gyda'r holl incwm yn mynd yn uniongyrchol i lywodraeth ganolog sydd o fudd uniongyrchol i gyllid cyhoeddus. Adroddir ar hyn ar wahân yn Natganiad Ymddiriedolaeth y CMA 152.

Pandemig COVID-19

- 6.12 Mae ein gwariant sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phandemig COVID-19 wedi lleihau'n sylweddol o £0.80 miliwn y llynedd i £0.13 miliwn yn 2021/22 am fod llawer o'r gwariant cyfalaf i wneud ein safleoedd yn ddiogel i'n staff wedi digwydd y llynedd. Mae ein costau'n ymwneud â'r pandemig sy'n gysylltiedig ag argraffu oddi ar y safle a rhai costau sy'n gysylltiedig â Rheoli Cyfleusterau wedi parhau ar lefel is ond mae ein buddsoddi parhaus mewn TG, yn ogystal â'r setiau sgiliau arbenigol sydd gennym yn y CMA, wedi'n galluogi i addasu i fodelau gweithio hybrid newydd a rhai sy'n datblygu, gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Trafodir ein hymateb i bandemig COVID-19 yn fanylach ar dudalen 74.

7. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Pwerau statudol

7.1 Mae'r CMA yn adran anweinidogol. Rydym yn cael ein pwerau o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

7.2 Mae ein swyddogaethau yn cynnwys:

- Ymchwilio i gynlluniau uno a gallai leihau cystadleuaeth yn sylweddol. Os bydd cynllun uno yn lleihau cystadleuaeth, gall y CMA ei atal neu osod rhwymedïau er mwyn mynd i'r afael â phryderon o'r fath;
- Cynnal astudiaethau neu ymchwiliadau neu wneud gwaith arall i farchnadoedd penodol lle yr amheuir bod problemau o ran cystadleuaeth a defnyddwyr. Gall y CMA gymryd camau – ac argymhell bod camau yn cael eu cymryd gan eraill – mewn marchnadoedd lle mae'n bosibl nad yw cystadleuaeth yn gweithio'n dda;
- Ymchwilio i fusnesau ac unigolion er mwyn nodi a ydynt wedi torri cyfraith cystadleuaeth y DU ac, os felly, roi terfyn ar y fath achosion o dor-cyfraith neu eu hatal rhag codi, gan gynnwys dirwyo busnesau a cheisio sicrhau bod cyfarwyddwyr y cwmnïau dan sylw yn cael eu datgymhwysu, yn ogystal ag erlid unigolion sy'n cyflawni trosedd y cartel anghyfreithlon;
- Gorfodi amrywiaeth o ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr, gan fynd i'r afael â materion sy'n awgrymu bod problem systemig yn y farchnad neu sy'n effeithio ar allu defnyddwyr i wneud dewisiadau;
- Hyrwyddo cystadleuaeth gref yn y diwydiannau a reoleiddir (nwy, trydan, dŵr, hedfanaeth, rheilffyrdd, cyfathrebu ac iechyd), gan weithio gyda rheoleiddwyr y sectorau;
- Cynnal apeliadau ac atgyfeiriadau rheoleiddiol mewn perthynas â systemau rheoli prisiau, telerau trwyddedau a threfniadau rheoleiddio eraill o dan ddeddfwriaeth sector-benodol;
- Rhoi gwybodaeth neu gyngor mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag unrhyw un o swyddogaethau'r CMA i'r cyhoedd, llunwyr polisi a Gweinidogion am sut y gallant lunio polisi a'i roi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau manteision cystadleuaeth ac sy'n diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr.

7.3 Yn ystod blwyddyn adrodd 2021/22, yn sgil newidiadau i ddeddfwriaeth cafodd y CMA y pwerau a'r cyfrifoldebau newydd canlynol:

- Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol, a lansiwyd ar 21 Medi 2021, yn rhoi cyngor technegol, yn llunio adroddiadau ac yn gwneud gwaith monitro mewn perthynas â marchnad fewnol y DU. Nodir ei swyddogaethau yn Neddf Marchnad Fewnol y DU 2020.
- Sefydlwyd yr Uned Marchnadoedd Digidol ar ffurf anstatudol ym mis Ebrill 2021. Bydd yr Uned yn goruchwyllo cyfundrefn reoleiddio newydd ar gyfer y cwmnïau digidol mwyaf pwerus, gan hyrwyddo mwy o gystadleuaeth ac arloesedd yn y marchnadoedd lle mae'r cwmnïau hyn yn gweithredu, ac yn diogelu defnyddwyr a busnesau rhag arferion annheg. Mae'r CMA yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, yn dilyn yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer cyfundrefn progystadleuaeth newydd. Bydd pwerau i'r Uned Marchnadoedd Digidol ac ar gyfer y gyfundrefn reoleiddio newydd yn gofyn am ddeddfwriaeth.
- At hynny, bydd Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 yn sefydlu Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau o fewn y CMA, a fydd yn rhoi cyngor, yn llunio adroddiadau ac yn gwneud gwaith monitro mewn perthynas â'r gyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau.

Archwilwyr

7.4 Mae Cyfrifon Adnoddau a Chyfrifon Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac wedi'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan statud ac sy'n atebol i'r Senedd. Nodir cost dybiannol yr archwiliad yn Nodyn 4 (tudalen 138) o Ddatganiadau Ariannol y CMA ac mae'n ymwneud â gwaith archwilio statudol yn unig. Ni wnaeth yr archwilwyr unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio yn ystod y flwyddyn 2021/22.

7.5 Mae Cyfarwyddwyr y CMA, gan gynnwys y Prif Weithredwr, wedi cymryd yr holl gamau sydd eu hangen i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y CMA hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, gyda chymorth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn ymwybodol ohoni.

Swyddog Cyfrifyddu

7.6 Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae Prif Weithredwr y CMA, Andrea Coscelli, yn parhau i fod yn gyfrifol, a gyda chynghor gan Fwrdd y CMA,

am sicrhau bod y CMA yn gweithredu'n effeithiol ac i safon uchel o uniondeb mewn perthynas â llywodraethu, gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol. Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA yn cyflawni rolau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am reoleidd-dra a phriodoldeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, a'r cyfrifoldeb am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r CMA, fel y nodir ym mhennod 3 o [Managing Public Money](#)⁷ a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

- 7.7 Ym mis Ebrill 2018, penodwyd y Prif Swyddog Gweithredu, Erik Wilson, yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol â chyfrifoldeb penodol am wasanaethau corfforaethol a chymorth.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr: adolygiad ariannol

Gwariant

Cyflwyno gwariant

- 7.8 Adroddir ar wariant y CMA ar ddwy sail wahanol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi Datganiad Cyflenwi Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE) (tudalen 123) yn nodi gwariant net cynhwysfawr y CMA, sef £105.89 miliwn o gymharu â £100.98 miliwn yn 2020/21. Cyfrifir y gwariant hwn yn unol â safonau cyfrifyddu (IFRS) a chanllawiau a esbonnir yn fanylach yn nodyn 1 (tudalen 126) ac ar sail debyg i'r rheolau hynny a ddefnyddir fel arfer gan fusnesau yn y sector preifat.
- 7.9 Mae'r Datganiad Cyflenwi Seneddol (tudalen 111) cyflwyno cyfanswm gwariant o £108.49 miliwn ac yn ei gymharu â'r gyllideb a gyflwynwyd i'r Senedd, sef £168.10 miliwn. Cyfrifir y ffigurau hyn yn unol â Chanllawiau Trysorlys EM ar Gyllidebu Cyfunol, sy'n wahanol i'r sail gyfrifyddu uchod mewn sawl ffordd.

7

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742188/Managing_Public_Money__MPM__2018.pdf

Trosolwg o'n gwariant

- 7.10 Cyfanswm ein Gwariant a Reolir oedd £108.49 miliwn, wedi'i ddadansoddi yn ôl categorïau gwario Trysorlys EM fel y nodir yn y tabl isod.

	Alldro 2021/22	Cyllideb 2021/22	Alldro 2020/21
	£000	£000	£000
Cyfanswm y Gwariant a Reolir	108,487	168,100	103,407
- DEL Adnoddau	97,937	115,600	93,055
- DEL Cyfalaf	2,675	7,500	2,657
Cyfanswm DEL⁸	100,612	123,100	95,712
- AME Adnoddau	7,875	45,000	7,695
Cyfanswm AME⁹	7,875	45,000	7,695

- 7.11 Rydym yn atebol i'r Senedd am ein gwariant. Ceisir cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer ein cynlluniau gwariant drwy'r Amcangyfrifon Cyflenwi¹⁰ a gyflwynir i Dŷ'r Cyffredin, gan nodi cyfansymiau rheoli cyllidebau dirprwyedig y CMA a gofyn am bleidlais ar y cyllid angenrheidiol. Rydym yn hawlio'r cyllid hwn gyda phleidlais yn ystod y flwyddyn o'r Gronfa Gyfunol yn ôl y gofyn
- 7.12 Mae'r Amcangyfrifon Cyflenwi yn cynnwys disgrifiad ffurfiol o'r gwasanaethau ('cwmpas') sydd i'w cyllido Ni ellir defnyddio cyllid gyda phleidlais i gyllido gwasanaethau nad ydynt o fewn y cwmpas. Cyllideb DEL Adnoddau'r CMA ar gyfer 2021/22 oedd £115.60 miliwn, y cafodd £6.00 miliwn o'r swm hwnnw ei glustnodi ar gyfer dibrisiant nad yw'n cynnwys arian parod.
- 7.13 Cyllideb DEL Cyfalaf y CMA ar gyfer 2021/22 oedd £7.50 miliwn ac roedd ein gwariant yn canolbwyntio ar brosiectau Technoleg Gwybodaeth (TG) er mwyn sicrhau cadernid ein seilwaith TG, datblygu systemau i gefnogi prosiectau rheng flaen a gwariant ar ein strategaeth

⁸ DEL yw cyfanswm y gyllideb y gellir ei rheoli, a roddir gan Drysorlys EM ar ran y Senedd, y mae'r adran yn ei defnyddio i ariannu'r gwaith o gyflawni ei hamcanion strategol.

⁹ Mae cyllidebau gwariant a reolir yn flynyddol (AME) yn anwadal neu'n seiliedig ar alw mewn ffordd na all yr adran ei rheoli. Nid yw Trysorlys EM yn pennu cyllidebau AME pendant mewn adolygiadau o wariant ond mae'r adran yn monitro rhagolygon AME yn ofalus a chânt eu diweddarau'n flynyddol.

¹⁰ Cyhoeddiadau'r Llywodraeth: <https://www.gov.uk/government/publications/main-supply-estimates-2021-to-22>

Trawsnewid Eiddo (a oedd yn cynnwys gosod offer mewn swyddfeydd ym mhob un o bedair gwlad y DU).

Aldro

- 7.14 Fel y nodir yn y Datganiad Cyflenwi Seneddol, alldro DEL Adnoddau'r CMA ar gyfer 2021/22 oedd £97.94 miliwn, o gymharu â chyllideb o £115.60 miliwn.
- 7.15 Cafwyd tanwariant sylweddol yn 2021/22, sef £17.66 miliwn, er gwaethaf y gwaith paratoi a oedd yn dal i fynd rhagddo ar gyfer rhoi tair swyddogaeth newydd ar waith yn y sefydliad. Mae'r tanwariant hwn yn fwy na'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, hyd yn oed gydag effeithiau parhaus pandemig COVID-19. Mae'r pandemig wedi parhau i amharu ar ein gallu i weithio gyda'n partneriaid rhyngwladol ar weithgarwch gorfodi trawsffiniol, wrth i bartneriaid gwahanol wynebu cyfyngiadau symud newydd ar wahanol adegau. Fodd bynnag, y prif ffactor a gyfrannodd at y tanwariant oedd y ffaith ein bod wedi cael cyllid ar gyfer blwyddyn lawn ar gyfer y swyddogaethau newydd er mwyn rhoi sicrwydd inni o ran yr adnoddau a oedd ar gael i gynyddu ein gweithgarwch i fod yn gwbl weithredol a chyflawni hyd eithaf ein gallu yn y meysydd newydd hyn. Gan fod y swyddogaethau hyn yn dechrau cynyddu a bod caniatâd i wario ond wedi cael ei roi yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ni allem wario'r swm llawn yn y gyllideb. Cafodd y gwariant gwirioneddol ar y swyddogaethau newydd ei broffilio hefyd i gyd-fynd â deddfwriaeth a dyddiadau gweithredol arfaethedig.
- 7.16 Gwnaethom sefydlu'r Uned Marchnadoedd Digidol, ar ffurf gysgodol, cyn i ddeddfwriaeth a fydd yn rhoi pwerau i'r gyfundrefn reoleiddio newydd weithredu a gorfodi cyfundrefn pro-gystadleuaeth newydd ar gyfer marchnadoedd digidol, gael ei chyflwyno. Mae cynyddu'r swyddogaeth yn dal i fod yn amodol ar ddeddfwriaeth arfaethedig yn mynd drwy'r Senedd yn y dyfodol.
- 7.17 Cafodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ei lansio a'i rhoi ar waith yn llwyddiannus ym mis Medi 2021, gan helpu Llywodraethau i ddeall pa mor effeithiol y gall cwmnïau werthu eu cynigion a'u gwasanaethau ym mhob un o bedair gwlad y DU ac effaith darpariaethau rheoleiddiol ar hyn, i'w hystyried ochr yn ochr â materion polsi ehangach. Ym mis Mawrth 2022, gwnaethom gyhoeddi adroddiad Trosolwg o Farchnad Fewnol y DU er mwyn meithrin dealltwriaeth o broblemau ym marchnad fewnol y DU, nawr ac yn y dyfodol, cyn i adroddiadau statudol

cyntaf Swyddfa'r Farchnad Fewnol gael eu cyhoeddi yn mis Mawrth 2023.

- 7.18 Ym mis Medi 2021, cawsom gadarnhad y byddai'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn dod yn un o swyddogaethau'r CMA a bod gennym yr awdurdod i ddechrau gwario o'r adeg honno. Mae setiau sgiliau arbenigol y CMA yn gryfder allweddol ond mae hyn yn golygu y gall gymryd amser i recriwtio'r staff cywir i'r rolau cywir. Gwnaeth y pandemig parhaus a digwyddiadau economaidd annisgwyl eraill gymhlethu'r mater hwn ymhellach yn ystod y flwyddyn.
- 7.19 Mae gan bob sector ei ddeddfwriaeth ei hun sy'n nodir rolau rheoleiddiwr y sector a gwnaethom wrando dwy Apêl Reoleiddiol yn ystod y flwyddyn yn rhinwedd ein rôl fel y corff apeliadol. O dan y ddeddfwriaeth honno, mae gan y CMA hawl i adennill ei gostau ac, yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd yn ystyried gwneud hynny. Ym mhob un o'r Apeliadau Rheoleiddiol, gwnaeth cwmni a oedd yn destun penderfyniad y CMA gais am Adolygiad Barnwrol. Mewn un apêl, caniatodd yr Uchel Lys gais y pleintydd am adolygiad barnwrol mewn perthynas ag un sail ond gwrthododd y ddwy sail herio arall. Yn y llall, mae'r Uchel Lys yn penderfynu a ddylai roi caniatâd i gynnal Adolygiad Barnwrol. Alldro DEL Cyfalaf y CMA ar gyfer 2021/22 oedd £2.68 miliwn, o gymharu â chyllideb o £7.50 miliwn Roedd y tanwariant o £4.82 miliwn i'w briodoli'n bennaf i brinder cerbydau nwyddau trwm (HGCs), oedi mewn cadwyni cyflenwi byd-eang a tharfu ar forgludiant a'n hataliodd rhag cyflawni ein prosiectau cyfalaf arfaethedig yn ystod y flwyddyn ariannol.
- 7.20 Alldro AME Adnoddau'r CMA ar gyfer 2021/22 oedd £7.88 miliwn, o gymharu â chyllideb o £45.00 miliwn. Mae'r alldro i'w briodoli i ddarpariaethau a gydnabuwyd yn y Cyfrifon mewn perthynas ag achosion ymglyfreitha parhaus, pensiynau etifeddol, dadfeiliadau a chostau eraill.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

7.21 Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA, wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol imi gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn arbennig:

- cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

7.22 O dan adran 5 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r CMA i baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan roi manylion yr adnoddau a gafaelwyd, a ddaliwyd, neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Paratwir y cyfrifon hyn ar sail cronïadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r CMA a'i alldro adnoddau net, y defnydd o adnoddau, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

7.23 Rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n berthnasol i'r cyfrifon a gyflwynir gyda'r Adroddiad Blynnyddol hwn a sicrhau bod fy archwilwyr yn cael eu hysbysu amdani. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw fy archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

7.24 Cadarnhaf fod yr Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Llofnodwyd dros ac ar ran y CMA


Andrea Coscelli CBE

Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
20 Gorffennaf 2022

Datganiad Llywodraethu'r CMA 2021/22

7.25 Yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM, mae'r Datganiad Llywodraethu yn nodi trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y CMA.

Bwrdd a Phwyllgorau Gweithredol y CMA



Mae trefniadau'r pwyllgorau yn y diagram yn gywir ar 31 Mawrth 2022. Rhoddir eglurhad pellach ar rôl pob pwyllgor a restrir isod.

Bwrdd y CMA

- 7.26 Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, Cyfarwyddwyr Anweithredol (y mae dau ohonynt hefyd yn aelodau o Banel y CMA)¹¹ a Chyfarwyddwyr Gweithredol (gan gynnwys y Prif Weithredwr).
- 7.27 Dan arweiniad y Cadeirydd, mae'r Bwrdd yn pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y CMA o fewn y fframwaith polisi a osodwyd o dan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (y Ddeddf). Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y CMA yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau statudol, yn cynnal ei annibyniaeth fel adran anweinidogol o'r Llywodraeth ac yn dilyn egwyddorion llywodraethu corfforaethol da. Bydd y Bwrdd yn ystyried barn ac adroddiadau Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ac mae'n sicrhau bod y CMA yn gwneud defnydd priodol o arian cyhoeddus.
- 7.28 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am nifer o faterion gwahanol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar faterion a gedwir yn ôl, fel y nodir yn y Ddeddf a Rheolau Gweithdrefnau'r CMA [a gyhoeddir](#)¹² ar wefan y CMA.
- 7.29 Mae'r Rheolau Gweithdrefnau yn nodi pwerau a swyddogaethau'r Bwrdd ac yn cynnwys Awdurdodiadau'r Bwrdd, y Polisi Gwrthdaro Buddiannau a Chylch Gorchwyl tri phwyllgor anweithredol y Bwrdd. Fe'u diweddarwyd ddiwethaf gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2022.
- 7.30 Rhaid i rai o swyddogaethau'r Bwrdd gael eu cyflawni gan aelodau o Banel y CMA. Mae gan aelodau'r Panel gyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir ac maent yn gweithredu fel gwneuthurwyr penderfyniadau newydd yn ystod ail gam ymchwiliadau i farchnadoedd ac achosion o uno, ac apeliadau rheoleiddiol mewn perthynas â systemau rheoli prisiau, telerau trwyddedau neu drefniadau rheoleiddio eraill.
- 7.31 Cyfarfu'r Bwrdd 17 o weithiau yn 2021/22. Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Bwrdd ym mhob mis heblaw ym mis Awst, gyda nifer o gyfarfodydd eithriadol yn cael eu cynnal yn ychwanegol at ei gyfarfodydd misol rheolaidd er mwyn ymdrin â materion sy'n codi mewn ffordd fwy amserol a hyblyg. [Cyhoeddir](#)¹³ cofnodion cyfarfodydd Bwrdd y CMA ar

¹¹ O dan baragraff 1(4) o Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013, mae'n ofynnol i o leiaf un o aelodau o Fwrdd y CMA hefyd fod yn aelod o Banel y CMA.

¹² <https://www.gov.uk/government/publications/cma-board-rules-of-procedure>

¹³ <https://www.gov.uk/government/collections/government-security>

wefan y CMA. Nodir presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn y tabl isod.

- 7.32 Yn unol â [pholisi Gwrthdaro Buddiannau'r CMA](#), cynhelir cofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd ac aelodau agos o'u teuluoedd ac [fe'i cyhoeddir](#)¹⁴ ar wefan y CMA. Caiff unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau a nodir, ac unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau, sy'n ymwneud ag aelodau'r Bwrdd, eu rheoli yn unol â'r polisi Gwrthdaro Buddiannau a chaiff unrhyw achosion lle mae'n ofynnol i aelod o'r Bwrdd adael cyfarfod eu nodi yn y cofnodion cyhoeddedig.
- 7.33 Mae'r Bwrdd yn cael data o nifer o ffynonellau o fewn y CMA, gan gynnwys asesiad o'r ffordd y mae'r CMA yn cyflawni ei flaenoriaethau strategol a'r ffordd y mae'n defnyddio ei adnoddau ariannol a'i adnoddau staff. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd am hynt achosion y CMA ac achosion ymglyfreitha diweddar drwy adroddiadau gwybodaeth reoli rheolaidd a byddant yn cael gwybodaeth am achosion arfaethedig sydd ar gam cynnar gan y Pwyllgor Gweithredol er mwyn i'r Bwrdd rannu ei farn ar gyfeiriad strategol y CMA.

Aelodau'r Bwrdd

Jonathan Scott (Cadeirydd)

- 7.34 Penodwyd Jonathan Scott yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Hydref 2016. Ym mis Hydref 2020, fe'i penodwyd yn Gadeirydd am gyfnod o hyd at flwyddyn neu nes y gellid penodi Cadeirydd parhaol. Gan fod y broses o benodi Cadeirydd parhaol yn dal i fynd rhagddi, ailbenodwyd Jonathan yn Gadeirydd ym mis Hydref 2021 am gyfnod o hyd at flwyddyn. Mae'n aelod o Bwyllgor Enwebiadau a Phwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA ac yn cadeirio Pwyllgor Bancio Agored y CMA.

Dr Andrea Coscelli CBE (Prif Weithredwr)

- 7.35 Penodwyd Andrea Coscelli yn Brif Weithredwr y CMA ym mis Gorffennaf 2017, ar ôl gwasanaethu fel y Prif Weithredwr Dros Dro ers mis Gorffennaf 2016. Ym mis Ionawr 2022, cadarnhaodd Andrea ei bod yn bwriadu ymddiswyddo pan ddaw ei chyfnod presennol yn y swydd i

¹⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/cma-register-of-interests>

ben ym mis Gorffennaf 2022.¹⁵ Andrea yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA ac mae'n aelod o Bwyllgor Enwebiadau'r CMA. Mae hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Bancio Agored.

Kirstin Baker CBE (Cadeirydd Ymchwiliadau ar y Panel, Cyfarwyddwr Anweithredol)

7.36 Penodwyd Kirstin Baker yn aelod o'r panel ac yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Bwrdd ym mis Medi 2018. Mae'n aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA. Mae hefyd yn gwasanaethu fel Cadeirydd Ymchwiliadau.

Martin Coleman (Cadeirydd y Panel, Cyfarwyddwr Anweithredol)

7.37 Penodwyd Martin Coleman ym mis Hydref 2017 ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd y Panel ym mis Medi 2018. Mae'n aelod o Bwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA. Mae hefyd yn gwasanaethu fel Cadeirydd Ymchwiliadau.

Cynthia Dubin (Cyfarwyddwr Anweithredol)

7.38 Penodwyd Cynthia Dubin ym mis Ionawr 2019. Daeth yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA ym mis Gorffennaf 2020 a daeth yn Gadeirydd Pwyllgor Enwebiadau'r CMA ym mis Mawrth 2021. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor Bancio Agored y CMA.

Yr Athro Amelia Fletcher CBE (Cyfarwyddwr Anweithredol)

7.39 Penodwyd Amelia Fletcher yn mis Hydref 2016 ac fe'i penodwyd yn Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Rhagfyr 2020. Mae'n cadeirio Pwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA a Grŵp Llywio Llesiant, Cynhwysiant, Amrywiaeth a Chydraddoldeb (WIDE). Mae hefyd yn aelod o Grŵp Llywio Digidol y CMA.

Yr Athro William Kovacic (Cyfarwyddwr Anweithredol)

7.40 Penodwyd William (Bill) Kovacic ym mis Gorffennaf 2013 a daeth ei gyfnod yn y swydd i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2022. Bu'n

¹⁵ Mater i'r Adran dros Fusnes, yr Amgylchedd a Strategaeth Ddiwydiannol yw penderfynu ar y broses benodi ar gyfer rôl Prif Weithredwr y CMA a chaiff y broses honno ei nodi maes o law.

gwasanaethu fel aelod o Bwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA ac fel aelod o Grŵp Llywio Digidol y CMA.

Andrea Gomes da Silva (Cyfarwyddwr Gweithredol, Marchnadoedd ac Uno)

7.41 Penodwyd Andrea Gomes da Silva yn Gyfarwyddwr Gweithredol y CMA, Marchnadoedd ac Uno, ym mis Mawrth 2018 a gadawodd y CMA ar ddiwedd mis Mai 2021.

David Stewart (Cyfarwyddwr Gweithredol, Marchnadoedd ac Uno)

7.42 Penodwyd David Stewart yn Gyfarwyddwr Gweithredol, Marchnadoedd ac Uno, ym mis Ionawr 2022, rôl lle mae'n arwain gweithgareddau'r CMA ym maes rheoli achosion o uno a chyfundrefnau marchnadoedd, gan gynnwys Swyddfa'r Farchnad Fewnol.

Dr Michael Grenfell (Cyfarwyddwr Gweithredol, Gorfodi)

7.43 Penodwyd Michael Grenfell yn Gyfarwyddwr Gweithredol, Gorfodi, ym mis Gorffennaf 2015, rôl lle mae'n arwain gweithgareddau'r CMA ym maes gorfodi cyfraith defnyddwyr a chyfraith diogelu defnyddwyr.

Erik Wilson CBE (Prif Swyddog Gweithredu)

7.44 Penodwyd Erik Wilson yn Brif Swyddog Gweithredu ym mis Mehefin 2020, sy'n estyniad i'w rôl flaenorol, sef Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaethau Corfforaethol, y bu ynddi ers ymuno â'r CMA ym mis Medi 2013. Fel Prif Swyddog Gweithredu, mae Erik yn arwain prosiectau sefydliadol trawsbynciol ac yn sicrhau bod gan y CMA swyddogaethau cymorth o'r radd flaenaf. Erik yw Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y CMA.

Sarah Cardell (Gwnsler Cyffredinol)

7.45 Penodwyd Sarah Cardell yn Gwnsler Cyffredinol ym mis Medi 2013. Mae Sarah yn sicrhau gwaith cyfreithiol sydd bob amser o ansawdd uchel yn y CMA, gan arwain Gwasanaeth Cyfreithiol y CMA, y Gyfarwyddiaeth Polisi a Rhyngwladol a'r Uned Marchnadoedd Digidol.

Dr Mike Walker (Prif Gyngorydd Economaidd)

7.46 Penodwyd Mike yn Brif Gyngorydd Economaidd ym mis Medi 2013. Mae Mike yn rhoi cyngor ar achosion cymhleth ac yn sicrhau cyngor

sydd bob amser o ansawdd uchel gan economegwyr y CMA ac Uned Data, Technoleg a Dadansoddeg y CMA.

Stuart Hudson (Uwch-Gyfarwyddwr Strategaeth, Cyfathrebu ac Eiriolaeth)

- 7.47 Penodwyd Stuart Hudson yn Uwch-Gyfarwyddwr Strategaeth, Cyfathrebu ac Eiriolaeth ym mis Tachwedd 2019. Mae ganddo gyfrifoldeb gweithredol am ddatblygu strategaeth y CMA, ei swyddogaeth eirioli statudol, ei gyfathrebu allanol, yn ogystal â'i waith yn y gwledydd datganoledig

Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd 2021/22

Aelod o'r Bwrdd	Presenoldeb mewn cyfarfodydd
Kirstin Baker	17/17
Martin Coleman	17/17
Andrea Coscelli	17/17
Cynthia Dubin	12/17
Amelia Fletcher	17/17
Andrea Gomes da Silva	3/3
Michael Grenfell	17/17
Bill Kovacic	15/17
Jonathan Scott	17/17
David Stewart	5/5
Erik Wilson	15/17

Pwyllgorau'r Bwrdd

- 7.48 Mae gan y Bwrdd bedwar pwyllgor anweithredol, sef: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, y Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Bancio Agored. Mae Cadeiryddion y pwyllgorau hyn yn cyflwyno diweddariadau ar faterion allweddol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a rhennir cofnodion y pwyllgorau hyn â'r Bwrdd. Ym mis Mehefin 2021, cytunodd y Bwrdd hefyd i sefydlu Pwyllgor Bancio Agored.
- 7.49 Ym mis Rhagfyr 2021, cynhaliodd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) werthusiad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, strwythur Bwrdd ac effeithiolrwydd

pwyllgorau'r CMA, er mwyn rhoi barn ar y graddau y rheolir risgiau yn y maes hwn.

- 7.50 Mae'r GIAA yn cymedroli barn sicrwydd gan adlewyrchu y gallai strwythurau llywodraethu corfforaethol, er eu bod wedi'u cynllunio'n ddigonol gydag atebolrwydd a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n dda rhwng gwahanol gyrff llywodraethu, ochr yn ochr â phrosesau adrodd clir a llwybrau uwchgyfeirio risg, gael eu gwella gan adolygiadau ffurfiol o effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgorau o fewn y strwythur llywodraethu er mwyn rhoi sicrwydd eu bod yn gweithredu yn ôl y bwriad. Disgwylir i'r adolygiad presennol o effeithiolrwydd y Bwrdd ar gyfer 2021/22 gael ei gyflwyno i gyfarfodydd y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022. Ceir manylion am y ffordd y cafodd argymhellion eraill y GIAAA eu gweithredu yn yr adroddiad hwn.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

- 7.51 Cadeirir y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gan y Cyfarwyddwr Anweithredol, Cynthia Dubin, ac mae ganddo ddau aelod anweithredol arall, sef: Kirstin Baker (sy'n gyfrifydd cymwysedig, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Ymchwiliadau ar y Panel) a Frances McLeman, (aelod o banel y CMA). Mae cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cwmpasu pob agwedd ar lywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol o fewn y CMA.
- 7.52 Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a/neu'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol (sef y Prif Weithredwr a/neu'r Prif Swyddog Gweithredu) yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae Cadeirydd y CMA, y Cyfarwyddwr Cyllid, Pennaeth Risg ac aelod o'r uwch-dîm arwain yn y Gwasanaeth Cyfreithiol hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cafodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) ac Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) eu cynrychioli ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn. Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bedwar cyfarfod yn 2021/22.
- 7.53 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn rhoi cyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a Bwrdd y CMA ar briodoldeb y datganiadau ariannol, a ydynt yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a digonolrwydd trefniadau archwilio (mewnol ac allanol). Mae ganddo rôl allweddol i'w chwarae hefyd o ran goblygiadau sicrwydd a roddir mewn perthynas â risg a rheoli, er mwyn galluogi'r Bwrdd i sicrhau ei hun fod system a gweithdrefnau rheoli risg y CMA a'i reolaethau mewnol, gan gynnwys

parhad busnes a thechnoleg gwybodaeth, yn effeithiol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn canolbwyntio ar risg drwy gydol pob cyfarfod, yn aml gan ystyried yn fanylach faterion a allai beri risgiau penodol i'r CMA.

- 7.54 Yn 2021/22, cydweithiodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn agos gyda Chyfarwyddwr Cyfreithiol, Llywodraethu, Cydymffurfiaeth a Risg a Phennaeth Risg y CMA er mwyn sicrhau yr asesis risgiau ac yr ymdrinnir â nhw yn briodol am fod hyn yn parhau i fod yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu'r CMA. Arweiniodd y gwaith penodol hwn yn ystod y flwyddyn at wella prosesau adrodd ar risgiau i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a thrafodir risgiau corfforaethol a strategol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Ym mis Chwefror 2022, cytunodd y Bwrdd ar ddiweddariad i awydd CMA i fentro a chymeradwyodd ddiwygiad i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (er mwyn sicrhau mwy o gysondeb â Llawlyfr Trysorlys EM i Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg yn dilyn argymhelliad gan y GIAA).

Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2021/22

Aelod o'r Bwrdd	Presenoldeb mewn cyfarfodydd
Kirstin Baker	3/4
Cynthia Dubin	4/4
Frances McLeman	4/4

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

- 7.55 Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gan y Cyfarwyddwr Anweithredol, Amelia Fletcher ac mae ganddo dri aelod anweithredol arall, sef: Martin Coleman, sydd hefyd yn Cadeirio'r Panel, Bill Kovacic a Jonathan Scott, Cadeirydd y CMA. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn adolygu perfformiad pob aelod o staff SCS, gan gynnwys goruchwyllo pob elfen o reoli perfformiad SET ac mae hefyd yn gyfrifol am bolisi cyflog y CMA ar gyfer pob aelod o staff AO-G6, gan roi arweiniad strategol ar bob mater dirprwyedig sy'n ymwneud â chyflog. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo dyfarniadau cyflog a bonysau yn unol â rheolau Swyddfa'r Cabinet.
- 7.56 Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, bu Andrea Coscelli yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ynghyd â'r

Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, Erik Wilson. Gall yr Uwch-Gyfarwyddwr, Pobl, Gallu a Newid a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol hefyd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth bum gwaith yn ystod 2021/22.

Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth 2021/22

Aelod o'r Bwrdd	Presenoldeb mewn cyfarfodydd
Martin Coleman	4/5
Amelia Fletcher	5/5
Bill Kovacic	4/5
Jonathan Scott	4/5

Y Pwyllgor Enwebiadau

- 7.57 Cadeirir y Pwyllgor Enwebiadau gan y Cyfarwyddwr Anweithredol, Cynthia Dubin. Mae Jonathan Scott, Cadeirydd y CMA Chair ac Andrea Coscelli, y Prif Swyddog Gweithredol, hefyd yn aelodau. Diben y Pwyllgor Enwebiadau yw rhoi cyngor i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar gynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer aelodau gweithredol ac anweithredol o'r Bwrdd a rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar benodiadau i Fwrdd y CMA yn y dyfodol.
- 7.58 Gall yr Uwch-Gyfarwyddwr, Pobl, Gallu a Newid a Chyfarwyddwr y Swyddfa Weithredol a Pherfformiad a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol hefyd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Enwebiadau. Cyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau ddwywaith yn 2021/22 gan ganolbwyntio ar gynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer Uwch-dîm Gweithredol y CMA ac unrhyw gyngor a fyddai'n cael ei roi i'r Llywodraeth mewn partneriaeth ag ymgyrchoedd recriwtio parhaus ac arfaethedig ar gyfer rolau yn y CMA sy'n cael eu cynnal gan yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Enwebiadau 2021/22

Aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau	Presenoldeb mewn cyfarfodydd ¹⁶
Andrea Coscelli	2/2
Cynthia Dubin	2/2
Jonathan Scott	2/2

Y Pwyllgor Bancio Agored

- 7.59 Cadeirir y Pwyllgor Bancio Agored gan Gadeirydd y CMA, Jonathan Scott. Penodwyd Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, Cynthia Dubin, ac Andrea Coscelli, y Prif Weithredwr, yn aelodau o'r pwyllgor ym mis Gorffennaf 2021.
- 7.60 Sefydlwyd y Pwyllgor Bancio Agored ym mis Mehefin 2021 er mwyn rhoi arweiniad a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ymchwiliad i honiadau o gamymddwyn yn yr Endid Gweithredu Bancio Agored a'r broses o newid i endid yn y dyfodol. Cyfarfu 35 o weithiau yn 2021/22.

Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Bancio Agored 2021/22

Aelod o'r Pwyllgor Bancio Agored	Presenoldeb mewn cyfarfodydd
Andrea Coscelli	28/35
Cynthia Dubin	30/35
Jonathan Scott	35/35

Pwyllgorau gweithredol

- 7.61 Drwy Awdurdodiadau'r Bwrdd, mae Cadeirydd y CMA, gan weithredu ar ran y Bwrdd, yn awdurdodi staff i arfer swyddogaethau'r CMA. Caiff y swyddogaethau hyn eu goruchwylio gan y Bwrdd a dau bwyllgor gweithredol, sef y Pwyllgor Gweithredol (yn ogystal â'i is-bwyllgorau, y Pwyllgor Gweithrediadau a'r Grŵp Llywio Prosiectau Arfaethedig) a'r Pwyllgor Achosion a Pholisi.

¹⁶ Ar gyfer y cyfarfod o Bwyllgor Enwebiadau'r CMA a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2021, gwahoddwyd pob Cyfarwyddwr Anweithredol ac roeddent yn bresennol yn y cyfarfod.

Y Pwyllgor Gweithredol

7.62 O dan awdurdodiadau dirprwyedig gan y Bwrdd, y Pwyllgor Gweithredol yw'r corff gwneud penderfyniadau cyffredinol ar gyfer perfformiad a chyflawni. Fel y nodir yn ei gylch gwaith, mae'r Pwyllgor Gweithredol yn goruchwyllo ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch strategaeth, cyflawni a pherfformiad, portffolio a phrosiectau arfaethedig, cyllid a risg, staffio, trawsnewid sefydliadol, materion sy'n ymwneud â chyfundrefnau ac enw da. Mae hefyd yn gwneud penderfyniadau ynghylch materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd, gan gynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'u hadolygu. Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredol gan y Prif Weithredwr, Andrea Coscelli.

7.63 Mae'r Pwyllgor Gweithredol hefyd yn ystyried ac yn cymeradwyo argymhellion gan ei is-bwyllgorau.

- Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau yn sicrhau bod gan y CMA gweithdrefnau a phrosesau busnes priodol a chadarn, gan gynnwys mewn perthynas â pharhad busnes, diogelwch gwybodaeth, cyllid a materion staff, a'i fod yn eu gweithredu'n effeithiol. Ers mis Mawrth 2022, gyda rhai aelodau ychwanegol, y Pwyllgor Gweithrediadau yw Bwrdd y Rhaglen ar gyfer rhaglen 'Future' y CMA, sef prosiect corfforaethol a fydd yn cyflawni uchelgeisiau'r CMA ar gyfer twf, sicrhau presenoldeb ledled y DU a mwy o gyfrifoldebau a galluoedd cysylltiedig o ran marchnadoedd digidol. Cadeirir y Pwyllgor Gweithrediadau gan y Prif Swyddog Gweithredu, Erik Wilson. Ym mis Ionawr 2022, adolygodd y Pwyllgor Gweithrediadau ei Gylch Gorchwyl er mwyn adlewyrchu ei gylch gorchwyl ehangach i oruchwyllo Rhaglen 'Future' y CMA, gynyddu nifer ei aelodau er mwyn sicrhau cydnherthedd Gwasanaethau Corfforaethol a'r gallu i wneud penderfyniadau cadarn yn y Pwyllgor Gweithrediadau a sicrhau mwy o eglurder o ran y ffordd y cymhwysir polisi'r CMA ar wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'i aelodau; ac
- Mae'r Pwyllgor Llywio Prosiectau Arfaethedig yn ystyried cynigion ar gyfer dechrau ymchwiliadau neu ar gyfer gwaith rhagarweiniol ar ymchwiliadau o'r fath o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998, mewn cysylltiad â throedd cartel yn Neddf Menter 2002, o gan bwerau gorfodi cyfraith diogelu defnyddwyr y CMA ac ar gyfer dechrau prosiectau o dan bwerau eirioli'r CMA. Cydgadeirir y Pwyllgor Llywio Prosiectau Arfaethedig gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gorfodi, Michael Grenfell a Chyfarwyddwr Gweithredol Marchnadoedd ac Uno, David Stewart.

Pwyllgor Achosion a Pholisi

- 7.64 Mae'r Pwyllgor Achosion a Pholisi yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi'r CMA mewn perthynas â phob dull cyflawni ac yn goruchwylio achosion a phrosiectau, gan sicrhau dull gweithredu cyson, ac yn rhoi cyngor ar faterion cyfreithiol, economaidd neu bolisi lefel uchel wrth iddynt godi.
- 7.65 Mae'r Pwyllgor Achosion a Pholisi wedi'i awdurdodi i wneud penderfyniadau ynghylch polisiâu, achosion a phrosiectau parhaus fel y bo'n briodol o dan awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd. Cadeirir y Pwyllgor Achosion a Pholisi gan y Prif Weithredwr, Andrea Coscelli ac mae ei aelodau yn cynnwys dau Gadeirydd Ymchwiliadau.

Y Pwyllgor Cyngori

- 7.66 Ym mis Medi 2021, lansiodd y CMA Bwyllgor Cyngori fel rhan o'i waith ehangach ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a Chynllun Gweithredu ar Hil 2020¹⁷. Mae'r Pwyllgor Cyngori yn dîm amrywiol o unigolion o bob rhan o'r CMA sy'n cydweithio i wella amrywiaeth a ffyrdd o feddwl ar lefel uwch yn y CMA. Mae'r Pwyllgor Cyngori hefyd yn rhoi gwybodaeth a chyngor i hysbysu, cefnogi a herio penderfyniadau a wneir ar lefel uwch. Mae gan y Pwyllgor Cyngori Gadeirydd allanol ac Annibynnol o un o adrannau anweinidogol y Llywodraeth. Penodwyd y Cadeirydd hwn ym mis Medi 2021 ar yr un pryd ag y lansiwyd y Pwyllgor Cyngori.
- 7.67 Mae'r Pwyllgor Cyngori yn rhoi cyngor ar faterion strategol allweddol penodol a ystyrir gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Gweithrediadau cyn iddynt gael eu hystyried gan y Bwrdd, megis datblygu Cynllun Blynyddol y CMA. Mae'r Pwyllgor Cyngori hefyd yn rhoi cyngor ar ddewis a blaenoriaethu achosion a phrosiectau a ystyrir gan y Grŵp Llywio Prosiectau Arfaethedig. Rhaid i'r pwyllgorau perthnasol hyn ystyried cyngor ac argymhellion y Pwyllgor Cyngori. Daw aelodau'r Pwyllgor Cyngori o wahanol swyddogaethau a phroffesiynau ym mhob rhan o'r CMA o grwpiau a chefnidiroedd a dangynrychiolir ar lefel uwch.

¹⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/cma-diversity-and-inclusion-strategy-2020-to-2024/action-plan-2020-to-2022>

Panel y CMA

- 7.68 Fel y nodir yn y Ddeddf,¹⁸ gwneir penderfyniadau ynghylch ymchwiliadau uno cam 2, ymchwiliadau i farchnadoedd ac apeliadau rheoleiddiol gan grwpiau annibynnol sy'n cynnwys aelodau o Banel y CMA. Mae gan bob grŵp o leiaf dri aelod ac fe'i harweinir gan Gadeirydd Ymchwiliadau. Gall aelodau'r panel hefyd gael eu penodi i grwpiau penderfynu ar achosion gwrthglymblaid (Deddf Cystadleuaeth 1998).
- 7.69 Mae'r grwpiau yn gwneud eu penderfyniadau yn annibynnol ar Fwrdd y CMA. Nid yw'r gofyniad i'r Grŵp weithredu'n annibynnol yn atal Bwrdd y CMA rhag rhoi gwybodaeth briodol yn ei feddiant i Grŵp ac fel arall.¹⁹ Caiff y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am adnoddau, effeithlonrwydd, y ffordd y cymhwysir polisi'r CMA a'r prosesau staff sy'n cefnogi gwaith y Panel.
- 7.70 Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i o leiaf un aelod o'r panel fod yn aelod o Banel y CMA. Ar hyn o bryd, mae Cadeirydd y Panel²⁰ ac un o'r Cadeiryddion Ymchwiliadau yn aelodau o'r Bwrdd. Nid yw aelodau'r panel sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr Anweithredol yn cymryd unrhyw ran yn yr ystyriaeth a roddir gan y Bwrdd i b'un a ddylid cyfeirio at ymchwiliadau i farchnadoedd ar gyfer unrhyw ymchwiliad lle y rhagwelir y gallent ffurfio rhan o grŵp cam 2.
- 7.71 Penodir Cadeirydd y Panel ac aelodau'r panel drwy gystadleuaeth agored oherwydd eu profiad, eu gallu a'u sgiliau amrywiol ym meysydd economeg cystadleuaeth, y gyfraith, cyllid a busnes, a pholisi cyhoeddus. Fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith, penodir unigolion i Banel y CMA gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol am hyd at wyth mlynedd. Mae Cadeirydd Ymchwiliadau yn dibynnu ar fod yn aelod o Banel y CMA.
- 7.72 Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o aelodau'r panel ar ein [gwefan](#).²¹ Datgelir buddiannau aelodau'r panel fel rhan o'r broses benodi. Cynhelir gwiriad gwrthdaro, fesul achos, pan bennir aelodau o'r panel i

¹⁸ Rhan 3, Atodlen 4 i'r Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio

¹⁹ Gweler 49(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013

²⁰ Mae'r CMA yn penodi aelod o'r panel i fod yn Gadeirydd ar y Panel a chyflawni swyddogaethau penodol ar ran Cadeirydd y CMA (sy'n cynnwys sefydlu un o grwpiau'r CMA) drwy bŵer dirprwyedig o dan baragraff 48(4) o Atodlen 4 i'r Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio.

²¹ <https://www.gov.uk/government/organisations/competition-and-markets-authority/about/our-governance#cma-panel>

ymchwiliadau ac, os oes angen, byddai'r datganiad o fuddiant yn cael ei gyhoeddi ar dudalen yr achos perthnasol.

Aelodau panel y CMA

Cadeiryddion Ymchwiliadau

Martin Coleman (Cadeirydd y Panel, Cadeirydd Ymchwiliadau, Cyfarwyddwr Anweithredol)

7.73 Gweler bywgraffiad Martin **Error! Bookmark not defined..**

Kirstin Baker CBE (Cadeirydd Ymchwiliadau a Chyfarwyddwr Anweithredol)

7.74 Gweler bywgraffiad Kirstin ar dudalen 60.

Margot Daly (Cadeirydd Ymchwiliadau)

7.75 Penodwyd Margot yn un o Gadeiryddion Ymchwiliadau'r CMA ym mis Medi 2021, ar ôl gwasanaethu fel aelod o'r panel ers mis Mai 2020.

Richard Feasey (Cadeirydd Ymchwiliadau)

7.76 Penodwyd Richard yn Gadeirydd Ymchwiliadau ym mis Ebrill 2021, ar ôl gwasanaethu fel aelod o'r panel ers mis Hydref 2017. Mae'n aelod o banel cyfleustodau arbenigol y CMA.

Stuart McIntosh (Cadeirydd Ymchwiliadau)

7.77 Penodwyd Stuart yn Gadeirydd Ymchwiliadau ym mis Ebrill 2018, ar ôl gwasanaethu fel aelod o'r panel ers mis Hydref 2017. Mae'n aelod o banel cyfleustodau arbenigol y CMA.

Kip Meek (Cadeirydd Ymchwiliadau)

7.78 Penodwyd Kip yn Gadeirydd Ymchwiliadau ym mis Tachwedd 2018.

Aelodau'r panel

7.79 Ar gyfer y cyfnod 2021/22, aelodau'r panel oedd:

Jo Armstrong	Humphrey Battcock	Robin Cohen
Maria da Cunha	Anne Fletcher	Robin Foster

Roland Green	Ashleye Gunn	Susan Hankey
Shrinivas Honap ²²	Dr Ulrike Hotopp	Paul Hughes
Colleen Keck	Juliet Lazarus	Sheila McClelland
Frances McLeman	Cyrus Mehta	Paul Muysert
Jeremy Newman	Syr Kenneth Parker	Keith Richards
Stephen Rose	Karthik Subramanya	Yr Athro John Thanassoulis
Yr Athro Mark Thatcher	David Thomas	Claire Whyley
Crispin Wright		

Rheoli risg

- 7.80 Mae trefniadau rheoli risg cadarn yn helpu'r CMA i wneud penderfyniadau gwell. Mae dull y CMA o reoli risg yn gadarnhaol ac yn ei helpu i gyflawni ei nodau a'i amcanion heriol i hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr. Trafodir risgiau mewn ffordd agored a thryloyw. Mae hyn yn galluogi'r CMA i nodi risgiau ac ymdrin â nhw yn gyflym ac yn creu diwylliant o berchenogaeth o faterion risg ar bob lefel yn y sefydliad, lle y caiff risgiau eu nodi a'u huwchgyfeirio'n gyflym.
- 7.81 Rhwng 2021 a 2022, adeiladodd y CMA ar y gwaith a oedd wedi'i wneud yn y flwyddyn flaenorol i roi'r fframwaith rheol risg newydd ar waith, er mwyn sicrhau yr asesir risgiau ac yr ymdrinnir â nhw yn briodol am fod hyn yn parhau i fod yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu'r CMA. Mae'r fframwaith risg hyblyg hwn hefyd yn sicrhau cysondeb o ran y ffordd y caiff risgiau eu nodi, eu rheoli a'u cofnodi ac yn ymateb i ansicrwydd a allai danseilio gallu'r CMA i gyflawni ei nodau strategol.
- 7.82 Cytunodd y Bwrdd ar yr Awydd i Fentro diwygiedig ym mis Chwefror 2022. Yr Awydd i Fentro yw lefel y risg y mae'r CMA yn barod i'w derbyn. Mae'n nodi'r lefel dderbyniol argymelledig/targed o risg weddilliol ar gyfer pob un o'i chwe thema allweddol gan gynnwys strategol, ymglyfreitha, cyllid/gwerth am arian, gweithredol, cydymffurfiaeth gyfreithiol ac enw da. Mae perchenogion risg yn trin yr Awydd i Fentro fel fframwaith, er mwyn eu helpu pan fyddant yn gwneud penderfyniadau yn ogystal â chefnogi'r broses o liniaru a rheoli risgiau yn barhaus. Er enghraifft, mae'n nodi'n glir pa opsiwn lliniaru

²² Ymddiswyddodd o Banel y CMA ar 1 Hydref 2021.

sy'n briodol ymhlith y categorïau ymdrin, goddef, trosglwyddo neu derfynu. Os bydd risg weddilliol o fewn yr Awydd i Fentro, gall perchenogion risg ddewis ei goddef er mwyn inni ganolbwyntio ein hymdrechion lliniaru ar ymdrin â risgiau eraill a allai fod y tu allan i'r Awydd i Fentro.

- 7.83 At hynny, mae cofrestr risgiau corfforaethol y CMA yn rhoi asesiad strwythuredig o effaith, tebygolrwydd a chyflymder ac mae Pennaeth Risg yn gweithio gyda'r Cyfarwyddiaethau i reoli cofrestrau risgiau lleol, sy'n bwydo i mewn i'r gofrestr risgiau corfforaethol ganolog. Mae'r gofrestr risgiau wedi'i rhannu'n ddwy haen o risgiau corfforaethol a strategol, gyda haenau 1 a 2 yn cael eu hystyried bob mis gan y Pwyllgor Gweithredol a bob chwarter gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu risgiau haen 1 bob mis, yn trafod uwchgyfeirio risgiau ac yn herio'r camau lliniaru, lle y bo'n briodol. O'i chyflwyno fel hyn, gall y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd hefyd adolygu ac asesu'r portffolio risgiau cyffredinol.
- 7.84 Hyrwyddir y dull o ymdrin â risg i'r staff ym mhob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys drwy dudalennau mewnwyd y CMA. Mae'r gwaith penodol hwn ar risg wedi sicrhau bod risgiau yn cael eu cofnodi a'u rheoli'n well ym mhob rhan o'r CMA.

Prosiect 'Future' y CMA

- 7.85 Ym mis Rhagfyr 2021, sefydlwyd prosiect 'Future' y CMA er mwyn dwyn ynghyd yr elfennau gweithredol mawr sydd eu hangen i gyflawni uchelgais y CMA ar gyfer twf, sicrhau presenoldeb ledled y DU a mwy o gyfrifoldebau a galluoedd cysylltiedig o ran marchnadoedd digidol.
- 7.86 Mae cwmpas y prosiect yn cynnwys sefydlu swyddfeydd newydd ym Manceinion a Darlington²³, parhau i ehangu ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast, darparu cymorth gweithredol i'r Uned Marchnadoedd Digidol newydd, yr Uned Micro-economeg a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau; sicrhau bod y CMA yn cyflawni ei dargedau yn 'Places for Growth' hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025, gan feithrin gallu digidol ym mhob rhan o'r CMA, gan gynnwys meithrin cysylltiadau â'r Fforwm Cydweithio ar Reoli'r Maes Digidol er mwyn i sgiliau a gallu digidol allu cael eu meithrin a'u datblygu ym mhob rhan

²³ <https://www.gov.uk/government/news/cma-to-open-offices-in-manchester-and-darlington>

o'r CMA ac mewn sefydliadau partner ac atgyfnerthu model gweithio hybrid effeithiol a pharhau i'w ddatblygu.

7.87 Bydd y rhaglen waith yn cynnwys wyth ffrwd waith benodol, sef:

- y Rhaglen Trawsnewid Eiddo
- Masnachol
- Technoleg
- Pobl
- Recriwtio
- Gallu digidol ym mhob rhan o'r CMA
- Diwylliant a ffyrdd o weithio
- Cyfathrebu ac ymgysylltu

7.88 Mae'r Prif Swyddog Gweithredu wedi'i benodi i weithredu fel yr Uwch-Swyddog Cyfrifol, gyda'r Uwch-Gyfarwyddwr Pobl, Gallu a Newid yn gweithredu fel y dirprwy Uwch-Swyddog Cyfrifol. Caiff y rhaglen ei chyflawni drwy Fwrdd Rhaglen 'Future' y CMA, sy'n defnyddio aelodau o'r Pwyllgor Gweithrediadau ac aelodau allweddol o Fwrdd y Rhaglen sy'n arwain ffrydiau gwaith unigol a rhanddeiliaid allweddol eraill megis y Pwyllgor Cynghori a Swyddog Gweithredol Cynrychioladol Staff ac Undeb y CMA.

7.89 Mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Gweithredol am faterion allweddol yn dilyn cyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen fel y bo'n briodol ac mae'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y prosiect drwy ddiweddariadau misol gan y Pwyllgor Gweithredol a thrwy drafodaethau ystyrlon lle y bo'n briodol.

Rhoi Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth ar Waith

7.90 Yn ystod blwyddyn adrodd 2021/22, mae'r CMA wedi mynd ati i roi Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth aeth²⁴, sy'n berthnasol i waith a swyddogaethau'r CMA, ar waith. Mae'r Safonau Swyddogaethol hyn yn nodi ffordd gydlynol o weithio a safonau rheoli effeithiol sy'n ymwneud â mathau penodol o waith swyddogaethol, megis cyflawni prosiectau, Adnoddau Dynol a Masnachol, ym mhob rhan o'r Llywodraeth. Bydd y gwaith hwn yn helpu'r CMA i greu ffyrdd cydlynol ac effeithiol a ddeïllir gan bawb o wneud ei waith, o fewn y CMA a'r tu allan iddo.

7.91 Mae'r CMA wedi rhoi cynlluniau ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phob Safon Swyddogaethol mewn ffordd sy'n diwallu

²⁴ <https://www.gov.uk/government/collections/functional-standards>

anghenion ac yn cyflawni blaenoriaethau'r sefydliad. Mae gan y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol gylch gwaith i sicrhau y caiff y defnydd o bob Safon Swyddogaethol ei ymgorffori yng nghynlluniau busnes y CMA o 2022/23 ymlaen. Caiff y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol ei goruchwyllo gan ddau o Gyfarwyddwyr y Rhaglen Gwasanaethau Corfforaethol sy'n atebol i'r Prif Swyddog Gweithredu sy'n gweithredu fel yr Uwch-Swyddog Cyfrifol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac mae'n cyd-fynd yn agos â chynghor a gafwyd gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth ar roi arferion gorau ar waith.

- 7.92 Mae'r Uwch-Swyddog Cyfrifol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Gweithrediadau a'r Bwrdd, fel y bo'n briodol, am waith ehangach y rhaglen, gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael ei hysbysu am risgiau allweddol fel rhan o broses rheoli risg sefydledig y CMA.

Ymateb y CMA i bandemig y Coronafeirws (COVID-19)

- 7.93 Mae'r datganiad canlynol yn ymhelaethu ar y crynodeb o ymateb y CMA i bandemig COVID-19 (y pandemig) a ddarparwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon [2019/20](#) a [2020/21](#).

Llywodraethu a goruchwyllo

- 7.94 Mae Bwrdd ac Uwch-dîm Gweithredol y CMA²⁵ wedi parhau i roi'r flaenoriaeth, mewn perthynas â'r pandemig, i iechyd a llesiant (corfforol a meddyliol) y staff. Ers dechrau'r pandemig, mae'r CMA wedi cydymffurfio â'r holl gynghor gan lywodraeth ganolog, gan barhau i wneud penderfyniadau annibynnol, lle y bo'n briodol.
- 7.95 Mae'r Uwch-dîm Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried materion mewnol ac allanol sy'n ymwneud â'r pandemig a gwneud unrhyw benderfyniadau brys ynghylch materion gweithredol neu adnoddau. O fis Mai 2021 ymlaen, lleihaodd yr Uwch-dîm Gweithredol amllder ei gyfarfodydd o deirgwaith yr wythnos i ddwywaith yr wythnos,

²⁵ Mae'r Uwch-Dîm Gweithredol yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gorfodi, Cyfarwyddwr Gweithredol Marchnadoedd ac Uno, y Prif Swyddog Gweithredu, y Cwnsler Cyffredinol, y Prif Gyngorydd Economaidd, yr Uwch-Gyfarwyddwr Pobl, Gallu a Diwylliant a'r Uwch-Gyfarwyddwr Strategaeth, Cyfathrebu ac Eirioli. Mae Cyfarwyddwr y Swyddfa Weithredol, Diogelwch a Pherfformiad hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd yr Uwch-dîm Gweithredol.

cyn dychwelyd i'r sefyllfa a fodolai cyn y pandemig a dechrau cynnal cyfarfodydd unwaith yr wythnos o fis Chwefror 2022 ymlaen.

- 7.96 Yn unol â'i ddull gweithredu mewn blynyddoedd adrodd blaenorol, parhaodd yr Uwch-dîm Gweithredol i gyfeirio unrhyw benderfyniadau pwysig at y Pwyllgor Gweithredol, gan gynnwys y rhai a fyddai'n cael effaith sylweddol ar gyllideb y CMA, iechyd, diogelwch neu lesiant staff neu enw da'r CMA. Mae log canolog o'r penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfodydd yr Uwch-dîm Gweithredol wedi'i gynnal yn ystod y pandemig.
- 7.97 Mae'r Bwrdd wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ymateb gweithredol y CMA i'r pandemig drwy ddiweddariadau ysgrifenedig a llafar a roddwyd yn ei gyfarfodydd. Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn adrodd am effaith y pandemig ar argaeledd a llesiant staff a gwaith y CMA i ailfeddiannu ei swyddfeydd yn ddiogel wrth i gyngor y Llywodraeth annog staff i ddychwelyd i weithleoedd.
- 7.98 Ers dechrau'r pandemig, mae'r CMA wedi rhoi gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn rheoli salwch sy'n gysylltiedig â COVID-19 ymhlith ei staff. Lluniwyd adroddiadau mewnol ac allanol rheolaidd ar effaith y pandemig ar staff dros y flwyddyn adrodd, yn enwedig wrth i nifer yr achosion o amrywiolyn Omicron ddechrau cynyddu.

Cadernid prosesau gwneud penderfyniadau

- 7.99 Roedd y CMA wedi rhoi mesurau ar waith er mwyn gwella cadernid prosesau gwneud penderfyniadau gan uwch-swyddogion, a nodir yn yr adroddiad llywodraethu a gyhoeddwyd yn flaenorol yn [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y CMA 2020/21](#).²⁶ Roedd y mesurau hyn yn cynnwys y diwygiadau dros dro i awdurdodiadau'r Bwrdd a dynodiadau Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 er mwyn i'r CMA allu gweithredu'n effeithiol yn ystod y pandemig.
- 7.100 Ym mis Chwefror 2022, penderfynodd y Bwrdd ddileu'r terfynau amser ar gyfer y diwygiadau hyn (sy'n golygu bod y diwygiadau yn parhau i

²⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/cma-annual-report-and-accounts-2020-to-2021/annual-report-and-accounts-2020-to-2021#corporate-governance-report>

fod mewn grym heb unrhyw estyniadau pellach). [Cyhoeddir](#) yr awdurdodiadau hyn ar wefan y CMA.²⁷

- 7.101 Nid yw'r diwygiadau hyn wedi newid lefel gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd yn y CMA ac fe'u cadwyd er mwyn sicrhau cadernid y CMA os bydd unrhyw achosion pellach o COVID-19, neu unrhyw ddigwyddiad arall na ellir ei ragweld a allai effeithio ar uwchswyddogion sy'n gwneud penderfyniadau yn y CMA yn y dyfodol.

Llesiant staff a gohebiaeth

- 7.102 Anfonodd y CMA amrywiaeth o ohebiaeth uniongyrchol at ei staff gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac aelodau eraill o'r Uwch Dîm Gweithredol drwy gydol y sefyllfa a oedd yn datblygu yn ystod y flwyddyn adrodd. Anogwyd cynrychiolwyr staff i drafod unrhyw newidiadau i ymateb gweithredol y CMA i'r pandemig yn rheolaidd, gan gynnwys y gwaith i ailfeddiannu ei swyddfeydd yn ddiogel.
- 7.103 Parhaodd Bwrdd y CMA a'r Uwch-dîm Gweithredol i fod yn ymwybodol o'r effaith y gallai'r pandemig fod wedi'i chael ar iechyd meddwl a llesiant ei aelodau o staff. Felly, cynyddodd y CMA ei ymdrechion i hyrwyddo iechyd a llesiant staff ar adegau priodol yn ystod y flwyddyn adrodd.

Cau ac ailfeddiannu swyddfeydd y CMA

- 7.104 O 1 Ebrill 2020, parhaodd holl swyddfeydd y CMA i fod ar gau yn unol â'r cyfyngiadau symud a oedd ar waith ar y pryd. Rhoddwyd mynediad i Ganolfan y Llywodraeth yn 10 South Colonnade i nifer bach o unigolion yn swyddfa'r CMA yn Llundain na allent weithio gartref oherwydd amgylchiadau eithriadol (lles meddyliol neu sefyllfaoedd domestig). Parhaodd Canolfan Ymglyfreitha'r CMA yn Llysoedd Llundain i fod ar agor i nifer cyfyngedig o staff mewn ffordd a reolid yn ofalus er mwyn cefnogi gwaith ymglyfreitha hanfodol y CMA.
- 7.105 Gwnaeth y CMA gysoni ei gynlluniau ar gyfer ailfeddiannu ei swyddfeydd â mapiau ffordd y llywodraethau ym mhob un o bedair gwlad y DU, gan fonitro cyngor y Llywodraeth yn ofalus ac yn barhaus.

²⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/cma-board-authorisation-of-staff-at-the-cma/authorisation-of-staff-of-the-cma-and-named-cma-inquiry-chairs--2>

Ailagorodd swyddfeydd y CMA yn Llundain a Chaeredin yng nghanol mis Ebrill 2021, gydag aelodau o staff yn gwneud cais i ddychwelyd pan fyddai gwneud hynny yn helpu eu hiechyd a'u llesiant. Ar adeg ailagor y swyddfeydd, roedd mesurau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau ar nifer y staff yn y swyddfeydd ar waith gan gynnwys system rheoli desgiau er mwyn rheoli nifer y staff mewn swyddfeydd yn ddiogel. Hefyd, dechreuodd gwaith i alluogi staff i ddefnyddio swyddfeydd newydd y CMA yng Nghanolfan CThEM yn Belfast (Erskine House) a Thŷ Morgan yng Nghaerdydd

- 7.106 Parhaodd y CMA i gynnig hyblygrwydd ac opsiynau o ran y ffordd roedd staff yn gweithio ac ymgynghorodd ac ymgysylltodd yn eang â staff er mwyn datblygu ei fodel gweithio hybrid newydd. O ganol mis Mai 2021 ymlaen, roedd y CMA wedi galluogi mwy o staff i ddychwelyd i'r swyddfa yn Llundain yn seiliedig ar unigolion yn asesu'r risgiau yn seiliedig ar eu sefyllfa bersonol, gan wneud dewisiadau personol ar sail gwybodaeth ac yn unol ag unrhyw gyngor a roddwyd gan y Llywodraeth neu unrhyw gyfyngiadau a gyflwynwyd ganddi. Parhaodd yr holl fesurau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau ar nifer yn staff yn y swyddfeydd, gan gynnwys system rheoli desgiau, yn ystod y cyfnod hwn.
- 7.107 Yn dilyn adolygiad o asesiadau risg y CMA ac yn unol â chyngor wedi'i ddiweddarau'r Llywodraeth a mapiau ffordd ar gyfer cynlluniau i ddod allan o'r cyfyngiadau symud, llaciwyd rhai mesurau cadw pellter cymdeithasol yn swyddfeydd y CMA yn ystod yr Hydref, yn arbennig dileu systemau unffordd a chynyddu nifer y desgiau a'r ystafelloedd cyfarfod a oedd ar gael i'w defnyddio, gyda'r system archebu desgiau yn cael ei dirwyn i ben. Dim ond nifer bach iawn o gyfyngiadau a oedd yn dal i fod ar waith, megis system unffordd mewn derbynfeydd ac annog unigolion i wisgo gorchuddion wyneb yn rhannau'r landlord o'r adeilad yn ei swyddfa yn Llundain.
- 7.108 O 18 Hydref 2021 ymlaen, newidiodd y CMA i'w fodel gweithio hybrid, lle roedd disgwyl i staff wedi'u lleoli yn Llundain a Chaeredin, i ddechrau, dreulio o leiaf 40% o'u hamser yn gweithio yn un o swyddfeydd y CMA. Dychwelodd yr holl wasanaethau a chyfleusterau yn swyddfa'r CMA yn Llundain gyda mesurau glanhau mwy trylwyr ar waith. Roedd landlordiaid ein swyddfeydd eraill wedi rhoi cyfundrefnau tebyg ar waith. Cyflwynwyd rhaglen lawn o weithgareddau "croeso'n ôl" i staff a oedd yn dychwelwyd i'r swyddfa.
- 7.109 Dilëwyd y cyfyngiadau ar gyfarfodydd allanol, ymweliadau safle a oedd yn ymwneud â gwaith y CMA ar farchnadoedd a chynlluniau uno,

ynghyd ag ymgyrchoedd ben bore a cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn ymwneud â chartelau mewn cynllun tri cham dros y deufis canlynol. Gofynnwyd i dimau lunio barn synhwyrol ar sail gwybodaeth wrth gynllunio a chynnal y gweithgareddau hyn. Cyfyngwyd ar nifer y cyfarfodydd ag ymwelwyr allanol yn adeiladau'r CMA a chyfarfodydd wyneb yn wyneb â phartïon tan fis Rhagfyr 2021.

- 7.110 Ym mis Tachwedd 2021, dechreuodd nifer yr achosion o amrywiolyn Omicron gynyddu ledled y DU a gwnaeth y CMA fonitro cyngor y Llywodraeth yn ofalus ac ymateb yn gyflym er mwyn sicrhau diogelwch ei staff. Ar 1 Rhagfyr, cyfarwyddodd y CMA bob aelod o'i staff i barhau i weithio gartref, er i'w swyddfeydd yn Llundain aros ar agor rhag ofn bod angen eu defnyddio.
- 7.111 Ar 8 Rhagfyr 2021, yn unol â mesurau Cynllun B y Llywodraeth, cyfarwyddodd y CMA bob aelod o staff yng Nghaerdydd a Llundain i weithio gartref ar unwaith gan atal dros dro y gofyniad i aelodau o staff dreulio 40% o'u hamser yn gweithio yn y swyddfa. Roedd staff ag anghenion o ran llesiant yn cael gweithio yn swyddfa'r CMA os oeddent yn dymuno gwneud hynny, gyda'r CMA yn cyfarwyddo'r aelodau hyn o staff i beidio â dod i mewn i'r swyddfa os oeddent yn teimlo'n sâl ac yn gofyn iddynt gael prawf llif unffordd cyn teithio. O 13 Rhagfyr ymlaen, cyfyngwyd y desgiau a oedd ar gael i rannau penodol o swyddfa'r CMA yn Llundain ac fe'i gwnaed yn ofynnol i unigolion wisgo gorchudd wyneb wrth symud o amgylch y swyddfa. Mewn ymateb i'r tebygolrwydd cynyddol y byddai mwy o gyfyngiadau yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig, penderfynodd y CMA gau ei swyddfeydd i bob aelod o staff ddydd Gwener 24 Rhagfyr tan ddydd Mawrth 4 Ionawr 2022. Roedd hyn hefyd yn unol â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i wneud gweithio gartref yn ofyniad cyfreithiol. Parhaodd Canolfan Ymgyfreitha'r CMA yn Llysoedd Llundain i fod ar agor i staff a oedd yn cymryd rhan mewn gwaith ymgyfreitha hanfodol yn ystod y cyfnod hwn.
- 7.112 Lle roedd swyddfeydd y CMA ar agor, cafodd mwy o weithdrefnau rheoli haint eu rhoi ar waith. Anfonwyd gohebiaeth at bob aelod o staff er mwyn atgoffa'r aelodau hynny o staff a gafodd ganlyniad positif i brawf am unrhyw amrywiolyn o COVID-19 i hunanynysu am o leiaf 10 diwrnod, cael prawf PCR a hysbysu'r Adran Adnoddau Dynol cyn gynted â phosibl. Dilynwyd canllawiau'r Llywodraeth pan fyddai aelod o staff a oedd wedi bod mewn cysylltiad agos ag aelod arall o staff yn Swyddfeydd y CMA yn cael canlyniad positif, gyda chysylltiadau agos yn cael eu cyfarwyddo i hunanynysu am 10 diwrnod.

- 7.113 Cafodd mesurau ychwanegol i gyfyngu ar ledaeniad amrywiolyn Omicron eu rhoi ar waith hefyd, gyda staff yn cael eu hannog i wisgo masgiau yn yr adeilad mewn lleoliadau penodol a gweithio gartref os oeddent yn teimlo'n sâl am ba reswm bynnag. Cafodd y staff eu hannog yn gryf i gymryd profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos. Hefyd, anogwyd ymwelwyr allanol â Swyddfeydd y CMA i gymryd Llif Prawf Unffordd cyn mynd i gyfarfod a rhoddwyd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith lle roedd hynny'n bosibl.
- 7.114 Gan adlewyrchu cyhoeddiadau'r Llywodraeth ar ddiwedd mis Ionawr 2022 y byddai cyfyngiadau symud yn cael eu llacio ym mhob un o bedair gwlad y DU, unwaith eto mabwysiadodd y CMA ddull hyblyg a gofalus o ailagor ei swyddfeydd yn raddol. Roedd ei swyddfeydd ar gael yn llawn i'w defnyddio gan staff o ddydd Llun 24 Ionawr 2022 ymlaen. Yn unol â dull y Llywodraethau Datganoledig o annog unigolion i weithio gartref lle roedd hynny'n bosibl, daeth swyddfeydd y CMA ym mhedair gwlad y DU ar gael i'w defnyddio gan staff a ddewisodd ddychwelyd i'r swyddfa. Yn ystod y cyfnod hwn, dim ond os oedd angen busnes hanfodol y caniatwyd cynnal cyfarfodydd â phartïon allanol a rhanddeiliaid eraill, ynghyd â theithio rhwng swyddfeydd y CMA ledled y DU.

Byw gyda COVID-19

- 7.115 Wrth i flwyddyn adrodd 2021/22 dynnu at ei therfyn, dechreuodd llywodraethau ledled y DU nodi eu cynlluniau ar gyfer byw gyda COVID-19 a'i amrywiolion. Rhoddodd y CMA ei fodel gweithio hybrid ar waith yn llawn, gan gyfuno'r gwersi a ddysgwyd o weithio o bell â'r manteision gweithredol a chymdeithasol sylweddol a'r manteision sylweddol o ran datblygiad proffesiynol a llesiant sy'n deillio o weithio ochr yn ochr â chryn nifer o bobl eraill mewn swyddfa.
- 7.116 O 1 Mawrth 2022 ymlaen, dechreuodd cydweithwyr yn Llundain a Chaeredin weithio o leiaf 40% o'u hamser yn un o swyddfeydd y CMA bob mis, sy'n rhoi hyblygrwydd i unigolion benderfynu beth sy'n gweithio orau er mwyn cyflawni amcanion eu tîm nhw ac amcanion y CMA. Ar 7 Mawrth, agorodd swyddfa'r CMA yng Nghaerdydd i'w defnyddio gan staff.
- 7.117 Wrth adolygu a llacio unrhyw gyfyngiadau a oedd yn dal i fod ar waith, canolbwyntiodd y CMA ar sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng adfer ei rythm gweithredol, sicrhau cydnerthedd y sefydliad a pharhau â'i ymrwymiad i lesiant a diogelwch ei staff. Gallai staff y CMA bellach

deithio'n rhydd rhwng swyddfeydd y CMA ond roedd angen i deithiau busnes rhyngwladol gael eu cymeradwyo gan yr Uwch-dîm Gweithredol o hyd. Dywedwyd wrth ei staff am ddilyn y rheolau sy'n gymwys yn y wlad y maent yn byw ynnddi neu'n ymweld â hi, gan gynnwys rheolau ynglŷn â hunanynysu a oedd yn dal i fod yn ofyniad yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Agorwyd swyddfeydd y CMA ar gyfer cyfarfodydd â rhanddeiliaid hefyd.

7.118 O 19 Ebrill 2022 ymlaen, cynyddodd canran yr amser roedd disgwyl i staff ei dreulio yn y swyddfa, ac roedd disgwyl i staff yn Llundain a Chaeredin weithio o leiaf 50% o'u hamser yn un o swyddfeydd y CMA bob mis.

7.119 Ym mis Mai 2022, ehangodd Llywodraeth y DU y rhestr o symptomau COVID-19 yn sylweddol, y cydnabu eu bod yn debyg i symptomau afiechydon eraill fel y ffliw ac annwyd. Mewn ymateb, rhoddodd y CMA ganllawiau wedi'u diweddarau i'w staff yn cynghori'r rhai a oedd yn dangos y symptomau hyn i aros gartref nes eu bod yn ddigon iach i ddychwelyd i'r swyddfa a hysbysu'r Adran Adnoddau Dynol am absenoldebau oherwydd salwch drwy'r prosesau arferol. Gofynnwyd i'r staff weithio gartref dim ond os oeddent yn teimlo y gallent wneud hynny.

7.120 Mae ymagwedd y CMA at fyw gyda COVID-19 yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd ac mae'n canolbwyntio ar ymddiried yn ei staff i wneud penderfyniadau synhwyrol er mwyn osgoi lledaenu salwch ac, ar yr un pryd, wneud pob ymdrech i fodloni'r disgwyliadau o ran presenoldeb yn y swyddfa a sicrhau'r manteision sy'n deillio o weithio mewn swyddfa.

Cydymffurfiaeth

Cod Llywodraethu Corfforaethol²⁸

7.121 Mae'r CMA wedi cydymffurfio ag egwyddorion a darpariaethau'r Cod Arferion Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau Llywodraeth Ganolog, i'r graddau sy'n briodol ac yn unol â'i ddyletswyddau statudol.

²⁸ Corporate governance in central government departments: code of good practice, Ebrill 2017 (Cod Arferion Da), a luniwyd ar y cyd gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet.

Nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau

- 7.122 Mae polisi Gwrthdaro Buddiannau²⁹ y CMA yn nodi'r broses ar gyfer datgan a rheoli unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau a allai godi ar gyfer y Bwrdd, y Panel ac aelodau o staff. Yn unol â'r polisi hwn, mae aelodau o staff yn codi achosion posibl o wrthdaro buddiannau â'u rheolwyr a'r Swyddog Cydymffurfiaeth er mwyn iddynt asesu a oes unrhyw wrthdaro buddiannau ac, os felly, sut y dylid ei reoli.
- 7.123 Ym mis Mai/Mehefin 2022, cynhaliwyd ymarfer rhoi sicrwydd gyda'r holl Uwch Weision Sifil yn y CMA³⁰ er mwyn cadarnhau a) manylion unrhyw gyflogaeth am dâl y tu allan i'r CMA; b) unrhyw wrthdaro ehangach a fyddai'n effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau swyddogol mewn modd cyfrifol; ac c) darparu manylion unrhyw wrthdaro posibl, os nad yw wedi'i ddatgan a bod polisi'r CMA yn mynnu ei fod yn cael ei ddatgan. Nododd yr ymarfer hwn nad oedd yr un o Uwch Weision Sifil y CMA yn dal swyddi â thâl na buddiannau ehanach a allai wrthdaro â'u rhwymedigaethau o dan God Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.³¹

Penodiadau Busnes

- 7.124 Mae polisi Gwrthdaro Buddiannau'r CMA yn nodi'n glir, pan fydd staff yn gadael y sefydliad, fod yn rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion y Rheolau Penodiadau Busnes ("BARs") cyn iddynt dderbyn penodiad newydd y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil. Hefyd, mae gan y CMA bolisi sy'n nodi'n fanylach y broses sydd ar waith ar gyfer ymdrin â cheisiadau a wneir o dan y Rheolau Penodiadau Busnes. Fodd bynnag, yn y cyfnod adrodd diwethaf, dechreuwyd ymdrin â nifer bach o geisiadau ac ni chawsant eu cwblhau ac ni chydymffurfiodd y CMA â'r gofynion o ran tryloywder a nodir yn y Rheolau Penodiadau Busnes. Mae'r CMA wedi cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r gwallau hyn yn brydlon a chwblhau'r ceisiadau. Mae'r CMA hefyd wedi adolygu a diwygio ei broses ar gyfer ymdrin ag unrhyw geisiadau o'r fath er mwyn sicrhau bod pob cam yn y broses wedi'i ddiffinio'n glir ac atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer ystyried ceisiadau a wneir gan staff ar lefel SCS, fel bod yn rhaid i unrhyw gais a wneir ar y lefel honno hefyd gael ei ystyried gan Swyddog Cydymffurfiaeth y CMA, yn ogystal â'r

²⁹ Mae polisi Gwrthdaro Buddiannau y CMA wedi'i atodi (Atodiad D) i Reolau Gweithdrefnau'r Bwrdd a gyhoeddir ar-lein: <https://www.gov.uk/government/publications/cma-board-rules-of-procedure>

³⁰ Ac eithrio un aelod o staff sy'n absennol o'r gwaith.

³¹ <https://www.gov.uk/government/publications/civil-service-code>

rheolwr cydlofnodi perthnasol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi adolygu'r broses ddiwygiedig ac mae'n fodlon y dylai'r CMA gydymffurfio â'r Rheolau Penodiadau Busnes yn y dyfodol.

Chwythu'r chwiban yn fewnol

7.125 Mae polisi chwythu'r chwiban mewnol y CMA, a elwir yn 'Speaking Out', yn nodi'r broses i'w dilyn os bydd aelod o staff yn ymwybodol o gamymddwyn canfyddedig yn y CMA, gan gynnwys rhywbeth y mae'n credu ei fod yn mynd yn groes i werthoedd craidd Cod y Gwasanaeth Sifil (h.y. uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd). Mae'r polisi ar gael i bob aelod o staff ar y fewnwyd a thynnir sylw aelodau newydd o staff ato yn ystod eu rhaglen sefydlu. Mae rhaglen gyfathrebu yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys blogiau a chymryd rhan yn wythnos 'Speak Up' sy'n cwmpasu pob rhan o'r Gwasanaeth Sifil. Mae grŵp o Gynghorwyr 'Speaking Out' hyfforddedig ar gael i staff sydd am godi pryder ond nad ydynt yn siŵr sut i wneud hynny. Mae'r polisi yn rhan o fframwaith rheolaeth fewnol y CMA ac fe'i hadolygir bob blwyddyn. Ni chafodd y CMA unrhyw gwynion chwythu'r chwiban yn ystod 2021/22.

Cwynion corfforaethol

7.126 Mae'r CMA yn cymryd cwynion a wneir yn ei erbyn o ddifrif. Mae gweithdrefn gwyno'r CMA yn darparu ar gyfer datrys cwynion yn gyflym mewn modd anffurfiol, er enghraifft drwy alwad ffôn, os bydd hynny'n foddhaol i'r achwynydd, neu drwy eu huwchgyfeirio at uwch-aelod annibynnol o staff os yw'n briodol. Mae'r CMA yn ymrwymedig i ymchwilio'n drylwyr i unrhyw gwynion sy'n codi materion difrifol sy'n ymwneud â'i ymddygiad.

7.127 Yn 2021/22, cafodd y CMA 13 o eitemau o ohebiaeth a gododd faterion yn ymwneud â'i ymddygiad ac yr ymdriniwyd â nhw fel cwynion corfforaethol (2020/21: 20). O'r 13 o gwynion hyn, gwrthodwyd 12 a chafodd un ei chadarnhau'n rhannol

7.128 Ni wnaed unrhyw gwynion yn erbyn y CMA i'r Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd yn ystod 2020/21 (2020/21: dim un).

Gohebiaeth gyffredinol

- 7.129 Yn 2021/22, ymdriniodd y CMA â 7341³² o eitemau o ohebiaeth ysgrifenedig gan y cyhoedd, a oedd yn cynnwys llawer o adroddiadau gan ddefnyddwyr a busnesau am ymddygiad gwrthgystadleuol neu broblemau mewn marchnadoedd ac a allai beri inni graffu ar farchnadoedd neu ymchwilio i fusnesau a all fod yn torri'r gyfraith (2020/21: 11,330).³³ Mae gennym darged i ymateb i'r ohebiaeth hon o fewn 10 diwrnod gwaith. Gwnaethom ymateb i'r holl ohebiaeth hon o fewn y targed hwn (2020/21: 99%).
- 7.130 Yn ystod 2021/22, cafodd y CMA 152 o lythyrau gan ASau (heb gynnwys gohebiaeth adrannol gweinidogol) (2020/21: 260). Gwnaethom ymateb i 84.21% o'r llythyrau hyn o fewn ein targed o 15 diwrnod gwaith (2020/21: 72.9%).

Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

- 7.131 Yn 2021/22, ymatebodd y CMA i 94.66% o'r ceisiadau am wybodaeth a gafodd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn y cyfnod statudol o 20 diwrnod gwaith.
- 7.132 Os bydd unigolyn sy'n gwneud cais am wybodaeth yn anfodlon ar ymateb y CMA gall ofyn i'r CMA adolygu ei benderfyniad yn fewnol. Cafodd y CMA naw cais am adolygiad mewnol ac ymatebodd iddynt; cadarnhawyd ei benderfyniad gwreiddiol ym mhob un o'r naw achos. Gall unigolyn sy'n gwneud cais am wybodaeth hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y ffordd y mae'r CMA wedi ymdrin â chais. Yn ystod 2021/22, cafodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth dair cwyn mewn perthynas â phenderfyniadau gan y CMA; datryswyd dwy o'r cwynion hyn cyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wneud penderfyniad ac mae un yn aros i gael ei phennu i un o swyddogion achosion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- 7.133 Yn ystod yr un cyfnod, cawsom 21 o geisiadau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data/Deddf Diogelu Data 2018 hefyd. Gwnaed tri o'r ceisiadau hyn o ganlyniad i ddefnyddwyr yn arfer eu hawliau

³² Nid yw'r cyfanswm hwn yn cynnwys gohebiaeth na materion yr hysbyswyd y CMA amdanynt yn uniongyrchol drwy'r Ffurflen we benodol ar gyfer COVID-19, yr ymdrinwyd â nhw gan Dasglu COVID-19 y CMA.

³³ Nid yw'r cyfanswm hwn yn cynnwys y cwynion ar-lein ynglŷn ag ymddygiad gwrthgystadleuol yn y DU yn ystod pandemig y Coronafeirws (COVID-19) yr ymdrinwyd â nhw gan Dasglu COVID-19.

unigol ac yn gofyn am i'w data personol gael eu dileu cyn i'r CMA gysylltu â nhw; roedd chwech yn geisiadau am gopiâu o ddata personol unigolion, gan gynnwys dau gan aelodau o staff y CMA. Atebwyd pedwar o'r chwe chais hyn o fewn y cyfnod statudol o fis a ganiateir gan y ddeddfwriaeth. Cawsom hefyd 11 o geisiadau i ddileu data gan unigolion nad oedd y CMA wedi cysylltu â nhw yn flaenorol a chawsom un cais i ddiweddarau unrhyw ddata a oedd yn cael ei ddal gan y CMA.

Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022

Cyfanswm y ceisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.	131
<i>O'r rhain:</i>	
Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn llawn	42
Nifer y ceisiadau a wrthodwyd yn llwyr am nad yw'r CMA yn dal unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani	12
Nifer y ceisiadau a wrthodwyd am y byddai cost yr ymateb yn fwy na'r trothwy cost	3
Nifer y ceisiadau a wrthodwyd am fod y cais yn un blinderus	0
Nifer y ceisiadau lle y gwrthododd y CMA ddarparu rhywfaint o'r wybodaeth	40
Nifer y ceisiadau lle y gwrthododd y CMA ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani	34

Digwyddiadau sy'n ymwneud â data personol

7.134 Hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ffurfiol am ddau ddigwyddiad yn ymwneud â data personol yn ystod 2021/22, gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach iddynt.

Archwilio Mewnol

7.135 Mae Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn darparu adroddiad blynyddol a barn ar y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth sydd ar waith yn y CMA yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gwybodaeth am yr amgylchedd busnes a gwaith eraill megis y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

- 7.136 'Cymedrol' oedd y farn gyffredinol a gofnodwyd gan yr adroddiad blynyddol a barn eleni. Er bod y brif farn hon yn dal i fod yr un fath â'r flwyddyn adrodd flaenorol, mae dosbarthiad sgoriau ar gyfer adroddiadau archwilio unigol wedi gwella eleni, sy'n adlewyrchu tuedd tuag at i fyny o ran gallu'r CMA i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn yn 2022-23 a thu hwnt Dangosodd y gwaith ar gyfer 2021-22 fod y CMA wedi cynnal system llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ddigonol, gan fanteisio ar y cyfle i adeiladu ar brosesau a'u gwella drwy system o welliant parhaus ac mewn ymateb i argymhellion archwilio. Llwyddwyd i wneud hyn er gwaethaf y cynnydd ym maint a chymhlethdod y sefydliad.
- 7.137 Nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod strwythur llywodraethu'r CMA yn datblygu er mwyn helpu i greu swyddogaethau newydd y CMA, gyda gwaith yn mynd rhagddo i gysoni a chydgysylltu â'r strwythur llywodraethu ehangach, gyda chynigion yn cael eu datblygu yn unol ag amserlenni deddfwriaethol. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod y CMA yn wynebu heriau pellach am fod angen penodi ac ymgorffori Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol newydd yn y fframwaith llywodraethu wrth iddo symud i 2022/23.
- 7.138 Nodwyd bod y CMA wedi parhau i wneud cynnydd o ran ymgorffori'r fframwaith rheoli risg gan wella prosesau cofnodi risgiau fel rhan o'r broses uwchgyfeirio risgiau a chynnwys swyddogaethau newydd y CMA fel rhan annatod o drefniadau llywodraethu'r CMA. Fodd bynnag, erys meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael â bylchau a sicrhau bod trefniadau ffurfiol ar waith a'u cysoni â Fframwaith Rheoli Risg y CMA. Bydd sicrhau bod y fframwaith rheoli risg yn parhau i gael ei roi ar waith a'i weithredu'n effeithiol yn weithgaredd allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 7.139 Tynnodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol sylw at y ffaith bod y CMA yn parhau i weithredu mewn amgylchedd sy'n newid drwy'r amser a'i fod wedi llwyddo i sicrhau canlyniad cadarnhaol i'r Adolygiad o Wariant yn erbyn cefndir o bwysau ar gyllid y sector cyhoeddus, gyda chynnydd yn ei gyllideb er mwyn iddo sefydlu'r Uned Marchnadoedd Digidol a pharhau i gyflawni ei ymrwymadau yn 'Places for Growth' a chynnal gweithgareddau craidd.
- 7.140 Nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd fod gwaddol y pandemig a'r cynnydd diweddar mewn costau byw yn cael effaith ar recriwtio a chadw staff, yn arbennig mewn sefydliadau megis y CMA lle mae sefydliadau yn cystadlu â chyflogau yn y sector preifat ac mewn marchnad swyddi cystadleuol. Tynnwyd sylw at lesiant staff a'r risg o

lefelau uwch o straen a blinder ac mae hyn yn arbennig o wir gan fod y seibiant disgwylidig ar ôl y pandemig wedi'i ddisodli'n gyflym gan yr argyfwng costau byw a'r rhyfel yn Wcráin, a all fod wedi effeithio ar gydwethwyr. Nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod y CMA yn dal i fod yn effro i'r problemau hyn a'i fod wedi mynd ati i gefnogi staff drwy gydol yr amser mewn modd tosturiol.

- 7.141 Tynnwyd sylw at y cynnydd y mae'r CMA wedi'i wneud o ran gweithredu ar argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o flwyddyn adrodd 2020/21 a mynd i'r afael â gwendidau neu wella'r amgylchedd rheoli, sy'n adlewyrchu ymrwymiad y CMA i sicrhau amgylchedd rheoli effeithiol.

Adrodd ar well rheoleiddio

- 7.142 Mae rhan 4 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA adrodd ar ei gydymffurfiaeth â'i ddyletswydd o dan y Ddeddf i osgoi gosod neu gynnal beichiau diangen ar fusnesau wrth gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio. Pan fydd ein gwaith yn arwain at swyddogaethau rheoleiddio, mae'n gwneud hynny o dan gyfraith cystadleuaeth neu gyfraith uno, sydd wedi'u hepgor yn benodol o reolaethau adrodd ar well reoleiddio. Nid oes gennym unrhyw bŵer i wneud rheolau nac ychwaith osod beichiau sy'n effeithio ar fusnesau yn gyffredinol. Mae ein hymyriadau yn digwydd mewn perthynas â busnesau neu farchnadoedd penodol a dim ond os oes tystiolaeth glir o fethiant marchnad a/neu achosion o dorri'r gyfraith sy'n peryglu gweithrediad cywir marchnadoedd y byddwn yn ymyrryd.

Adroddiad Cynaliadwyedd

- 7.143 Mae'r CMA yn ymrwymedig i gyflawni targedau'r Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth sydd â'r nod o leihau'r defnydd o ddŵr, allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwastraff a sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu caffael mewn ffordd gynaliadwy.
- 7.144 Mae'r Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth yn nodi fframwaith i leihau eu heffeithiau ar yr amgylchedd erbyn 2025.
- 7.145 Cynhaliodd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth archwiliad a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y cynnydd/cynlluniau a oedd yn cael ei wneud (eu gwneud) gan y CMA o ran targedau Gwyrddu Llywodraeth sydd i'w cyflawni yn 2025. Wedyn, rhoddwyd cynllun

gweithredu ar gyfer rheoli ar waith er mwyn helpu'r CMA i gyflawni'r targedau cynaliadwyedd.

- 7.146 Fel sefydliad llywodraethol, rydym yn ymrwymedig i gyflawni targed o allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050. Mae'r CMA wedi cychwyn ar ei daith i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a gwneud newidiadau i'w weithrediadau a'r ffordd y mae'n gweithio fel sefydliad.
- 7.147 Rydym yn sefydliad llywodraethol cymharol fach, gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd, Llundain, Belfast a Chaeredin a swyddfeydd sydd ar fin cael eu hagor ym Manceinion a Darlington. Mae ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a Belfast wedi'u lleoli o fewn adrannau eraill o'r llywodraeth. Darperir y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn ein swyddfeydd eraill gan landlordiaid sy'n rhoi gwybodaeth i'r tenantiaid unigol. Rydym wedi cynyddu nifer ein staff sydd wedi effeithio ar y ffigurau cyffredinol ar gyfer allyriadau.

Lliniaru newid yn yr hinsawdd

- 7.148 Mae gan y CMA brif darged i leihau cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o linell sylfaen 2018. Rydym wedi adolygu a diweddarau polisi teithio'r CMA er mwyn sicrhau bod opsiynau carbon isel yn cael eu hystyried ac mae proses lywodraethu bellach ar waith i adrodd ar y lleihad mewn allyriadau.
- 7.149 Comisiynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) adolygiad manwl o ddull y CMA o reoli newid hinsawdd. Nodwyd bod gwaith gweithredol wedi'i wneud a bod y CMA yn cymryd rhan mewn sawl gweithgaredd i fynd i'r afael â risg newid yn yr hinsawdd a lleihau ôl troed carbon y CMA.
- 7.150 Dengys y tabl canlynol y pellter a deithiwyd gan staff ac allyriadau yn y flwyddyn 2021/22. Mae'n bwysig nodi bod y cynnydd yn nifer ein staff wedi effeithio ar y ffigurau. Mae'r CMA yn parhau i annog teithio ar y trêrn yn lle gyrru ac rydym yn gweithio i leihau'r angen i deithio. Mae'r CMA wedi rhoi ei fodel gweithio hybrid ar waith yn llawn a disgwylir i staff yn Llundain a Chaeredin weithio yn un o swyddfeydd y CMA o leiaf 50% o'u hamser bob mis gyfuno'r gwersi a ddysgwyd o weithio o bell â'r manteision sy'n deillio o fod mewn amgylchedd swyddfa. Bydd y ffordd newydd hon o weithio yn helpu i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau nwyon.

	Pellter(milltiroedd)	Allyriadau (kg CO ₂)
Teithiau Awyr	16,389	6,594
Teithiau ar Drên	33,046	1739.36
Eurostar	398	10.64
Teithiau mewn Car	12,166	2,715

Cyfleustodau a rheoli gwastraff

7.151 Gan fod y CMA yn meddiannu adeilad aml-denant, mae'r landlord yn darparu gwasanaethau cyfleustodau gan gynnwys rheoli gwastraff. At hynny, mae'r cynnydd yn nifer ein staff wedi effeithio ar ein defnydd o ynni a dŵr a'n prosesau rheoli gwastraff. Cyfrifwyd y ffigur ar gyfer dŵr ar sail swm sgwâr plât llawr y CMA gyda nwy a thrydan fesul llawr. Ar hyn o bryd, mae'r CMA yn gweithio gyda'r landlord i osod is-fesuryddion yn yr adeilad er mwyn i'r CMA allu cael y data mewn ffordd fwy effeithlon. Mae ein holl wastraff yn mynd drwy raglen ailgylchu sy'n helpu i leihau faint o wastraff a gynhyrchir gan y busnes. Mae hyn yn cynnwys gwastraff bwyd o'r caffï a gaiff ei fesur a'i nodi er mwyn sicrhau y caiff unrhyw fwyd a deflir i'r bin ei gasglu'n awtomatig ac y caiff y data eu cofnodi.

7.152 Rhestrir ein defnydd o nwy, trydan a dŵr yn 2021/22 yn y tabl isod ac mae'n seiliedig ar drosriniad rhwng pob tenant yn ein prif swyddfeydd. Caiff adroddiadau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn targedau defnyddio ynni yr Ymrwymadau Gwyrddu Llywodraeth eu cyflwyno bob chwarter i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

	Defnydd (KWh)	Tunelli (CO ₂ e)
Trydan	14,928,406	3458.24
Nwy	125,894	21.3

	Defnydd (m ³)
Dŵr	4822

	Tunelli
Dŵr wedi'i Ailgylchu'n Allanol	47.1

7.153 Mae gan y CMA darged i leihau'r defnydd o bapur yn ei swyddfeydd. Anogir y staff i beidio ag argraffu oni bai ei fod yn angenrheidiol;

gosodiad diofyn ein hargraffyddion canolog yw dwyochrog a monocrom er mwyn lleihau costau argraffu a'n hól troed carbon. Mae ein holl bapur wedi'i ardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd sy'n cadarnhau bod ein papur wedi'i wneud o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ac nad yw'n cynnwys clorin elfennol. Mae ein papur hefyd yn cydymffurfio ag ardystiad achrededig ISO9706. Mae gan ein cyflenwr achrediad ISO14001 sy'n golygu bod ganddo system reoli amgylcheddol effeithiola r waith.

7.154 Dengys y tabl isod nifer y rimau o bapur a archebwyd gan y cyflenwr yn 2021/22.

	Nifer y Rimau
Y Defnydd o Bapur	605

7.155 Yn ein swyddfa, rheolir y systemau gwresogi, awyru ac aerdymheru gan System Rheoli Adeilad sy'n cyd-fynd â safon adeiladu WELL. Mae'r system hon yn rheoli ac yn monitro'r defnydd o wneir o ynni gan wneud y swyddfeydd yn fwy effeithlon. Mae goleuadau synhwyro symudiadau wedi'u gosod yn yr adeiladau sy'n helpu i leihau'r defnydd o ynni, yn ogystal â synwryddion tapiau i reoli dŵr drwy ddefnyddio solenoidau ac amseryddion.

Caffael cynaliadwy

7.156 Mae ein gweithgarwch prynu yn cydymffurfio â chyfarwyddeb gyhoeddus yr UE er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am arian a lleihau gwastraff ym mhob rhan o'n cadwyn gyflenwi. Ar hyn o bryd, rydym yn ceisio prynu mwy o eitemau sy'n dod o ffynonellau cynaliadwy a/neu sydd wedi'u hailgylchu.

Gwasanaethau arlwyo

7.157 Mae ein swyddfeydd yn Llundain yn cynnig gwasanaeth o fath caffi sy'n darparu bwyd ffres a choffi barista. Gwneir dewisiadau cynaliadwy wrth gaffael ac mae gan ein darparwr arlwyo presennol categorïau o fwyd a diod â blaenoriaeth lle mae angen gwneud cynnydd o ran cynaliadwyedd, megis osgoi pysgod â sgôr o 5 gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol (MC), osgoi wyau ffres o ieir mewn cewyll, defnyddio te/coffi Masnach Deg neu Organig yn unig a sicrhau nad yw cynhyrchion bwyd nac olewau ffrïo/coginio yn cynnwys olew palmwydd.

7.158 Mae'r CMA yn ymrwymedig i leihau plastigau defnydd untro drwy ddefnyddio cynhyrchion amgen megis pecynnau darparu bwyd sydd wedi'u gwneud o blanhigion ac y gellir eu compostio. Cynhaliwyd adolygiad yn ddiweddar er mwyn cyflwyno opsiynau amgen cynaliadwy a phenderfynwyd cyflwyno bagiau cario papur a chyllyll a ffyrn pren yn lle bagiau a chyllyll a ffyrn plastig a rhoi'r gorau i ddefnyddio gwellt plastig yn gyfan gwbl.

7.159 Dengys y tabl isod faint o ddarnau o blastig a ddefnyddiwyd yn y caffî rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022.

		Darnau a ddefnyddiwyd
Plastig	Defnydd	50,085
Untro		

Llety

7.160 Mae ein swyddfa yn Canary Wharf, Llundain wedi'i dylunio i safon 'Ardderchog' Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) ac mae'n cyrraedd safon adeiladu WELL.

7.161 Mae gan y CMA raglen ar waith er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni targedau'r Ymrwymadau Gwyrddu wrth agor swyddfeydd newydd ym Manceinion a Darlington.

Ein data

7.162 Darperir y cyfleustodau a'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau i ni drwy ein landlordiaid a thrwy daliadau gwasanaeth sy'n ymwneud â'n cytundeb prydlesu. Gan nad ydym wedi cael unrhyw wybodaeth fanwl gan ein landlordiaid, rydym wedi defnyddio gwybodaeth ariannol. Mae'r symiau a nodir wedi'u cyfrifo ar sail y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael i denantiaid mewn eiddo aml-denant.

8. Yr adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

Adroddiad ar Gydnabyddiaeth

Uwch-reolwyr – un cyfanswm ar gyfer cydnabyddiaeth (archwiliwyd)

Uwch-reolwyr	Cyflog		Bonysau ³⁴		Buddiannau pensiwn		Cyfanswm	
	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Andrea Coscelli CBE	200-205	200-205	15-20	15-20	37	37	255-260	255-260
Andrea Gomes da Silva ³⁵	30-35	165-170	-	15-20	-	-	30-35	185-190
David Stewart ³⁶	40-45	-	-	-	16	-	55-60	-
Erik Wilson CBE	135-140	135-140	15-20	20-25	5	133	155-160	290-295
Michael Grenfell	165-170	165-170	15-20	15-20	25	25	205-210	210-215
Mike Walker	180-185	180-185	15-20	-	70	70	270-275	250-255
Sarah Cardell	200-205	200-205	15-20	15-20	31	35	245-250	250-255
Stuart Hudson ³⁷	135-140	-	10-15	-	54	-	200-205	-

Datganiadau cyflog teg (archwiliwyd)

Newid canrannol mewn cyflog

- 8.1 Ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf, ni fu unrhyw newid i gyflog na lwfansau, na thâl perfformiad na bonysau, o gymharu â 2020/21.
- 8.2 Ar gyfer pob cyflogai, heb gynnwys y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf, bu cynnydd canrannol cyfartalog o 0.91% i gyflog a lwfansau

³⁴Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid yw'r canllawiau ar daliadau bonws 2021/22 ar gyfer staff SCS wedi'u cymeradwyo gan y Llywodraeth eto. Defnyddiwyd ffigurau 2020/21.

³⁵Gadawodd Andrea Gomes da Silva y CMA ar 27 Mai 2021. Ei chyflog blynyddol am flwyddyn lawn oedd £165k-£170k.

³⁶Ymunodd David Stewart â'r CMA ar 4 Ionawr 2022. Ei gyflog blynyddol am flwyddyn lawn yw £165k-£170k.

³⁷Cafodd rôl Stuart Hudson fel cynghorydd i'r Bwrdd ei ffurfioli ym mis Ionawr 2022. Felly, nid oedd data cydnabyddiaeth yn adroddadwy yn 2020/21.

ers 2020/21. Bu lleihad canrannol cyfartalog o 3.75% i dâl perfformiad a bonysau.

- 8.3 Mae'r newid i gyflog a lwfansau i'w briodoli i gynnydd yn nifer y bobl a gyflogir (fel y dangosir ar dudalen 108). Gwelwyd y cynnydd hwn ar draws graddau SEO i PB2, sydd wedi cynyddu'r cyflog cyfartalog.
- 8.4 Mae'r lleihad mewn tâl perfformiad i'w briodoli i newidiadau i broffiliau staff dros y flwyddyn o ganlyniad i drosiant uwch yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae rhai aelodau o staff a oedd yn cael tâl perfformiad a bonysau wedi gadael y CMA ac nid oedd newydd-ddyfodiaid yn ystod y flwyddyn yn gymwys i gael y taliadau hyn.

Lluosrifau cyflog

- 8.5 Y lluosrif cyflog yw'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr gweithredol sy'n ennill y cyflog mwyaf yn ei sefydliad a chydnabyddiaeth ganolrifol gweithlu'r sefydliad.
- 8.6 Band cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn y cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf yn y CMA yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 oedd £220-225 (2020/21 £220k-£225k).
- 8.7 Yn 2021/22, ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r hyn a gafodd y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf (2020/21: dim). Roedd cydnabyddiaeth, heb gynnwys y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf, yn amrywio o £22.5k i £217.9k (2020/21: £22.5k-£218.4k).
- 8.8 Dengys y tabl isod y cymarebau rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf a chyflog a buddiannau'r cyflogai yn y 25^{ain} ganradd, y canolrif a'r 75^{ain} ganradd.

	2021/22			2020/21	
	Cyfanswm cyflog a buddiannau (£)	Cyflog (£)	Cymhareb dâl	Cyfanswm cyflog a buddiannau (£)	Cymhareb dâl
Y 25 ^{ain} ganradd	38,628	37,678	5.78:1	37,202	5.98:1
Canolrif	57,616	56,356	3.86:1	58,175	3.82:1

y 75 ^{ain} ganradd	76,561	75,141	2.91:1	77,685	2.86:1
-----------------------------	--------	--------	--------	--------	--------

8.9 Bu lleihad yng nghymhareb y 25^{ain} ganradd a chynnydd yng nghymarebau'r canolrif a'r 75^{ain} ganradd. Gellir priodoli'r gwahaniaethau hyn i newid yn y ffordd y gwnaed taliadau anghyfunol i staff nad oeddent yn staff SCS yn 2021/22.

8.10 Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog a ffioedd, tâl cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddiannau mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod (CETV) pensiynau.

Uwch-reolwyr – buddiannau pensiwn (archwilwyd)

	Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2022	Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn	CETV ar 31 Mawrth 2022	CETV ar 31 Mawrth 2021	Cynnydd / (lleihad) gwirioneddol yn CETV	Cyfraniad y cyflogwr at y cyfrif pensiwn partneriaeth
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Andrea Coscelli CBE	-	-	-	-	-	37
Andrea Gomes da Silva	-	-	-	-	-	-
David Stewart	0-5	0-2.5	12	0	8	-
Erik Wilson CBE	85-90	0-2.5	1,744	1,658	(13)	-
Michael Grenfell	-	-	-	-	-	25
Mike Walker	35-40	2.5-5	497	426	42	-

Sarah Cardell	-	-	-	-	-	31
Stuart Hudson	5-10	2.5-5	68	38	19	-

Cydnabyddiaeth aelodau Anweithredol o'r Bwrdd (archwiliwyd)

	2021/22		2020/21	
	Cyflog	Buddiannau mewn nwyddau	Cyflog	Buddiannau mewn nwyddau
	£000	£100 agosaf	£000	£100 agosaf
Andrew Tyrie ³⁸	-	-	70-75	-
Amelia Fletcher	25-30	-	25-30	-
Cynthia Dubin	25-30	-	25-30	-
Jonathan Scott	105-110	-	100-105	-
Kirstin Baker ³⁹	25-30	-	25-30	-
Martin Coleman ⁴⁰	25-30	-	25-30	-
Bill Kovacic	25-30	-	25-30	-

8.11 Roedd holl aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu cyflogi ar sail 30 diwrnod y flwyddyn ar wahân i Jonathan Scott a oedd yn cael ei gyflogi ar contract 2 ddiwrnod yr wythnos.

8.12 Nid yw'r Cadeirydd na'r Aelodau Anweithredol yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac nid oes ganddynt unrhyw hawliau eraill i bensiwn gyda'r CMA (2020/21: dim).

³⁸ Gadawodd yr Arglwydd Andrew Tyrie y CMA ar 15 Medi 2020.

³⁹ Mae a wnelo'r cyflog uchod ar gyfer Kirstin Baker â'i rôl fel un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y CMA yn unig. Yn 2021/22, roedd Kirstin hefyd yn cael ei chyflogi fel un o Gadeiryddion Ymchwiliadau'r CMA ac yn 2021/22 enillodd gyfanswm gydnabyddiaeth o £125k-£130k am ei gwaith ar Fwrdd a Phanel y CMA.

⁴⁰ Mae a wnelo'r cyflog uchod ar gyfer Martin Coleman â'i rôl fel un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y CMA yn unig. Yn 2021/22, roedd Martin hefyd yn cael ei chyflogi fel Cadeirydd Panel y CMA ac yn 2021/22 enillodd gyfanswm gydnabyddiaeth o £135k-£140k am ei waith ar Fwrdd a Phanel y CMA.

Polisi cydnabyddiaeth

8.13 Pennir cydnabyddiaeth Uwch Weision Sifil (SCS) gan y Prif Weinidog gan ddilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion.

8.14 Mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion yn rhoi cyngor i'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd ar gyflog, pensiynau a lwfansau gweinidogion ac eraill y pennir eu cyflog gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion a Chyflogau Eraill 1975 (fel y'i diwygiwyd).

8.15 Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl â gallu a chymwysterau priodol i arfer eu gwahanol gyfrifoldebau;
- amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff;
- polisiâu'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad i adrannau gyflawni'r targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol;
- y cyllid sydd ar gael i adrannau fel y'i nodir yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth;
- targed y Llywodraeth ar gyfer chwyddiant.

8.16 Mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion yn ystyried y dystiolaeth y mae'n ei chael am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Contractau gwasanaeth

8.17 Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau i'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau lle y gellir gwneud penodiadau mewn ffordd arall.

8.18 Oni nodir yn wahanol, mae'r swyddogion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Byddai eu terfynu'n gynnar, ac eithrio oherwydd camymddwyn, yn golygu bod yr unigolyn yn cael

iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Yn 2021/22, ni wnaed unrhyw daliadau o'r fath, (2020/21: dim).

Cyflog a bonysau

- 8.19 Mae cyflog yn cwmpasu symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys cyflogau gros ond nid yw, o reidrwydd, yn gyfyngedig iddynt; goramser; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa breifat; lwfansau eraill (i'r graddau y maent yn ddarostyngedig i drethiant y DU); ac unrhyw daliadau ex-gratia eraill. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronodig a wnaed gan yr adran.
- 8.20 Mae bonysau yn seiliedig ar lefelau perfformiad a gyraeddwyd fel rhan o'r broses adolygu perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn. Talwyd y bonysau a ddatgelwyd ar gyfer uwch-reolwyr yn 2021/22 ac maent yn ymwneud â pherfformiad yn 2020/21. Mae'r bonysau cymaradwy a gofnodwyd ar gyfer 2020/21 yn ymwneud â pherfformiad yn 2019/20.

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

- 8.21 Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd pob gwas sifil newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn gwasanaethu eisoes ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, cymerodd gweision sifil ran ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: tair sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.
- 8.22 Mae'r trefniadau statudol hyn yn cael eu tanariannu gyda chost buddiannau yn cael ei thalu ag arian gyda phleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau cyfredol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Cafodd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a phum mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1

Ebrill 2012 eu symud i **alpha** rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Am fod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd o ran y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y bydd aelodau cymwys â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yn gymwys, o bosibl, i gael buddiannau pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (ac y gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn yr adroddiad hwn). Caiff buddiannau PCSPS pob aelod sy'n symud i **alpha** eu 'bancio', a bydd buddiannau cynharach aelodau mewn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad diffiniedig (prynu arian) gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

8.23 Mae cyfraniadau cyflogai yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau classic, premium, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha**. Mae buddiannau yn **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy ar adeg ymddeol. Yn achos **premium**, mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Hybrid yn y bôn yw'r cynllun **classic plus** gyda buddiannau am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras fel y rhai ar gyfer **classic** a buddiannau am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu gweithio allan fel y rhai ar gyfer **premium**. Yn y cynllun **nuvos** bydd aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), credydir 2.3% o enillion pensiynadwy yr aelod yn y flwyddyn honno o'r cynllun i'w gyfrif pensiwn a enillwyd a chaiff y pensiwn cronedig ei gynyddu yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddiannau yn **alpha** yn cronni mewn ffordd debyg i **nuvos** ond, yn yr achos hwn, y gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, caiff aelodau ddewis ildio pensiwn a chael cyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004.

8.24 Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannau ond lle mae'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at derfyn uchaf o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn

ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o gyflog pensiynadwy i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad ar sail afiechyd).

- 8.25 Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth pan fydd yn rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau **classic**, **premium** a **classic plus**, 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu yn alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac yn alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond gall y rhan honno o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)
- 8.26 Ceir manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan: www.civilservicepensionscheme.org.uk

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

- 8.27 Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraid buddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'i gronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a brisiwyd yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod digwyddiadol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun neu'n dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd i'w hen gynllun. Mae a wnelo'r ffigurau ar gyfer pensiynau a ddangosir â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth ar lefel uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.
- 8.28 Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni drwy brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun.
- 8.29 Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd

Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol na phosibl mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn daladwy pan gymerir buddiannau pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

- 8.30 Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prasio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Adroddiad ar y Staff

Cyflwyniad

- 8.31 Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ein pobl fel ein hased pwysicaf o ran cyflawni ein hamcanion strategol. Mae ein harweinwyr yn hyrwyddo ein diwylliant, yn byw ein gwerthoedd, ac yn hwyluso perfformiad uchel, ac mae gennym weithlu talentog a medrus sy'n ymgysylltu drwy ffyrdd cydweithredol a chynhwysol o weithio.
- 8.32 Wrth i'r pandemig fynd rhagddo yn 2021/22, mae ein staff wedi addasu ac ymateb i'r newidiadau yn y byd o'u cwmpas, a'r heriau personol a phroffesiynol a gyflwynwyd ganddo. Rydym wedi parhau i gefnogi staff drwy'r cyfnod heriol hwn ac rydym wedi cynnal ein ffocws ar sicrhau bod y CMA yn parhau i fod yn gyflogwr o ddewis.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- 8.33 Mae gan y CMA Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant bedair blynedd o hyd i gyflwyno newid parhaus ac ystyrlon i bawb yn y CMA. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth dwy flynedd o hyd. Y flwyddyn hon, gwnaethom ddatblygu Cynllun Gweithredu ar Anabledd newydd, penodol ynghyd â'n hail Gynllun Gweithredu ar Hil. Ein Grŵp Llywio Gweithredu Cadarnhaol sy'n gyfrifol am gyflwyno a gweithredu'r cynlluniau gweithredu ar Hil ac Anabledd.
- 8.34 Mae ein Cynllun Gweithredu ar Anabledd yn ein herio i sicrhau bod gennym yr hyn sydd ei angen i fod yn gyflogwr cynhwysol. Rydym am i'r CMA fod yn lle y gall cydweithwyr anabl ffynnu yn y gwaith a theimlo'n hyderus y byddant yn cael eu cefnogi i wneud eu gorau. Drwy ein cynllun byddwn yn sicrhau bod ein rheolwyr yn hyderus yn cefnogi cydweithiwr anabl ac yn ymateb mewn ffordd amserol i'r addasiadau angenrheidiol. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ein prosesau recriwtio ac yn ceisio sicrhau eu bod mor gynhwysol a chefnogol â phosibl ar gyfer ymgeiswyr anabl.
- 8.35 Heriodd ein Cynllun Gweithredu ar Hil ein dulliau gweithredu a'n ffyrdd o feddwl gan ganolbwyntio ar sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gennym ar lefel uwch yn defnyddio ffyrdd amrywiol o feddwl ynghyd â mwy o ymwybyddiaeth o'r rhwystrau at ddatblygu gyrfaoedd yn y CMA. Bydd ein cynllun newydd yn gwerthuso effeithiolrwydd ein mentrau blaenorol, yn sicrhau ein bod yn parhau i ddysgu gan eraill, ac yn rhoi

llwyfan i weithgarwch ar lefel leol, ar wneud penderfyniadau ac ar arferion. Mae gan y cynllun bedair thema fawr i'n helpu i ganolbwyntio ar y meysydd cywir a sicrhau y gallwn fesur ein cynnydd, sef: Recriwtio, Cyfrifoldeb Cymdeithasol Cymunedol, Rhoi Arferion ar Waith yn Lleol a Gwerthuso Effeithiolrwydd.

- 8.36 Cafodd y cynlluniau hyn eu datblygu mewn ymgynghoriad â'n rhwydweithiau staff, ein Bwrdd Gweithredol a'n huwch-hyrwyddwyr amrywiaeth, y grŵp llywio Llesiant, Cynhwysiant, Amrywiaeth a Chydraddoldeb a'n cynrychiolwyr staff.
- 8.37 Yn 2021-22, sefydlodd y CMA y Pwyllgor Cynghori; tîm amrywiol o unigolion o bob rhan o'r CMA sy'n rhoi gwybodaeth a chynghor i hysbysu, cefnogi a herio penderfyniadau a wneir ar lefel uwch yn y CMA mewn modd adeiladol. Sefydlwyd y Pwyllgor Cynghori fel rhan o waith ehangach [CMA ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant](#) a [Chynllun Gweithredu ar Hil 2020](#).

Gwirfoddoli

- 8.38 Rydym yn annog staff i gefnogi elusennau, grwpiau cymunedol lleol, a chynnal gweithgareddau allgymorth i ysgolion a phrifysgolion. Rydym yn cynnig hyd at 6 diwrnod o wyliau arbennig y flwyddyn i alluogi staff i ymgymryd â gwaith gwirfoddoli ac allgymorth. Yn 2021-22, ymysg gweithgareddau gwirfoddoli'r staff mae cefnogi'r broses o gyflwyno brechiad COVID-19 a thimau gwirfoddol mewn cymunedau lleol. Drwy ein partneriaeth ag ymddiriedolaeth aml-academi mawr rydym wedi rhoi allgymorth i ysgolion, ac mae staff y CMA wedi cymryd rhan mewn noson rwydweithio, gan roi sgysiau gyrfaoedd a chynnig cymorth â sgiliau cyfweld.

Llesiant

- 8.39 Rydym wedi canolbwyntio ar lesiant cyflogeion drwy gydol pandemig COVID-19. Rydym wedi atgoffa staff a rheolwyr yn rheolaidd am bwysigrwydd holi ei gilydd a ydynt yn iawn a chefnogi ei gilydd. Rydym wedi annog cydweithwyr i gysylltu eu llesiant corfforol a'u llesiant meddyliol ac wedi tynnu sylw at yr amrywiaeth eang o gymorth sydd ar gael i'n staff yn cynnwys hwb COVID-19 dynodedig ar ein mewnwyd, a chyfeiriad e-bost dynodedig ar gyfer ymholiadau, ein Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, ein Rhaglen Cymorth i Gyflogeion a'r Elusen ar gyfer Gweision Sifil.

- 8.40 Yn ystod y pandemig ac yn unol â chanllawiau adnoddau dynol y Gwasanaeth Sifil, gwnaethom gefnogi'r aelodau hynny o staff sydd â chyfrifoldebau gofalu drwy gynnig gwyliau arbennig â thâl pan fo'n briodol, er enghraifft, wrth ofalu am blant ifanc sy'n hunanynysu. Yn ystod 2020/21, cafodd y CMA sgôr arian gan MIND ym Mynegai Llesiant MIND 2020/21. Yn dilyn hyn, gwnaethom gyhoeddi cynllun gweithredu newydd ar lesiant ac iechyd meddwl i ddwyn ynghyd y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y flwyddyn nesaf i wella iechyd meddwl a llesiant i bawb yn y CMA.

Newid i weithio hybrid

- 8.41 Er ein bod wedi gallu cynnal ein gweithgareddau o gartref yn ystod y pandemig heb gollu galluedd, ansawdd na chyflymder, nid yw'n gynaliadwy nac yn fuddiol yn yr hirdymor i weithio o bell yn unig. Rydym wedi cynnal adolygiad sylfaenol o'n diwylliant a'r ffordd rydym yn gweithio, gan ddefnyddio safbwyntiau cydweithwyr ac arferion gorau o'r tu allan i'r CMA i gynllunio model gweithio hybrid sy'n addas i ni a'r gwaith a wnawn.
- 8.42 Gwnaethom addasu'r ffordd rydym yn gweithio ochr yn ochr â'n gilydd, y ffordd rydym yn sicrhau ein bod yn gynhwysol ac yn barchus ym mhopeth a wnawn, a'r ffordd rydym yn cadw mewn cysylltiad ac yn cydweithio'n arbenigol ble bynnag yr ydym. Gwnaethom gynllunio cyfres newydd o egwyddorion ac ymddygiadau arwain ac rydym yn parhau i gyflwyno technoleg newydd sy'n galluogi pawb i weithio'n gynhyrchiol, yn gyfforddus ac ar y cyd.
- 8.43 Aethom i'r afael â'r broses o newid i'r model hwn mewn modd hyblyg, gan gynnal momentwm ag ymrwymiad clir i iechyd a lles cydweithwyr. Ers i'r cyfyngiadau gael eu codi ledled y DU rydym wedi llwyddo i roi ein model gweithio hybrid ar waith yn llawn. Byddwn yn parhau i adolygu a mireinio ein model; mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni ehangu ein presenoldeb ledled holl wledydd y DU.

Iechyd a Diogelwch

- 8.44 Yn 2021/22, gan fod cyfyngiadau COVID-19 wedi cael eu llacio, symudodd y CMA o broses o adfeddiannu adeiladau'n rhannol, i broses fwy cynyddol o adfeddiannu adeiladau. Cyflawnwyd y newid graddol hwn ar ôl adolygu a chwblhau arolygiadau yn y gweithle, cynnal asesiadau risg, asesiadau risg o dân a hyfforddi swyddogion cymorth cyntaf a swyddogion tân.

- 8.45 Cafodd polisiau a gweithdrefnau lechyd a Diogelwch y CMA eu cymeradwyo gan Is-Grŵp y Polisi Pobl a'r Pwyllgor Gweithrediadau. Gwnaed newidiadau hefyd i sesiynau cynefino ag adeiladau ar ôl cyflwyno ein model gweithio hybrid a gwnaethom gyflwyno asesiadau o Gyfarpar Sgrin Arddangos. Cafodd y trefniadau i wacáu adeiladau mewn argyfwng eu hadolygu a'u diweddarau yn ystod chwarter olaf 2021 a arweiniodd at greu rolau Prif Warden Tân a Rheolwr Prif Ddrws. Adolygodd y tîm Rheoli Cyfleusterau hefyd y mesurau cyfathrebu ar gyfer swyddogion tân gan atgyfnerthu ein sefyllfa drwy gyflwyno cyfarpar cyfathrebu ychwanegol. Profwyd y dull gweithredu'n llwyddiannus yn ystod yr ymarfer gwacáu llawn diweddaraf.
- 8.46 Adsefydlwyd ein Pwyllgor lechyd a Diogelwch eleni i greu gysylltiadau gwell fyth rhwng y CMA a'i gyflogeion ar faterion lechyd a Diogelwch. Mae'r Pwyllgor yn hyrwyddo ymrwymiad y CMA i lechyd a Diogelwch, yn annog gwelliant parhaus a dulliau effeithiol o gydweithio rhwng adrannau.
- 8.47 Gwnaethom adrodd am dair damwain a thair damwain a fu bron â digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol (2020/21: dim damwain a thair damwain a fu bron â digwydd).

Absenoldeb salwch

- 8.48 Y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd yn 2021/22 oherwydd absenoldeb fesul cyflogai CALI oedd 3.54 diwrnod (2020/21: 3.39 diwrnod). Y ffigur a gyhoeddwyd ddiwethaf gan y Gwasanaeth Sifil oedd cyfartaledd o 6.1 diwrnod.
- 8.49 Yn ystod 2021/22, collwyd 798 o ddiwrnodau gwaith oherwydd salwch staff gyda symptomau sy'n cyfateb i'r rheini a gysylltwyd â COVID-19 (733 diwrnod yn 2020/21); mae hyn yn cyfrif am 26% o'r holl ddiwrnodau gwaith a gollwyd yn ystod y flwyddyn.

Ymgysylltu â staff

- 8.50 Mae'r CMA yn cymryd rhan yn arolwg staff blynyddol y Gwasanaeth Sifil. Rydym yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae staff yn eu rhannu ar sut brofiad yw gweithio yn y Gwasanaeth Sifil ac yn y CMA. Rydym yn datblygu ac yn gweithredu cynlluniau gweithredu corfforaethol a lleol sy'n gwneud gwelliannau wedi'u targedu yn seiliedig ar yr hyn y mae staff yn ei ddweud wrthym.

- 8.51 Yn yr arolwg staff a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2021, cyfradd ymateb y CMA oedd 73% a'n sgôr ymgysylltu oedd 65%. Gwnaethom adrodd am gynnydd cadarnhaol ar y themâu cynhwysiant a thriniaeth deg, cydweithio'n dda, gwaith diddorol a fy rheolwr. Y meysydd ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod yw arweinyddiaeth a newid, diogel dweud – parch ac iechyd a llesiant.

Trosiant staff

- 8.52 Cyfradd trosiant staff blynyddol y CMA ar gyfer staff parhaol ar 2021/22 oedd 13.0% (2020/21: 9.7%).
- 8.53 Rydym yn priodoli'r cynnydd mewn trosiant i'r ffaith bod cyfyngiadau COVID-19 wedi cael eu llacio gyda'r staff yn teimlo'n fwy hyderus yn ceisio cyfleoedd gyrfa amgen y tu allan i'r CMA.

Polisiau staff a gymhwyswyd ar gyfer staff anabl

Ceisiadau ar gyfer cyflogaeth

- 8.54 Mae ymgeiswyr sy'n gwneud cais drwy'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd yn sicr o gael cyfweiliad os bydd sgôr eu cais yn cyrraedd y lefel ofynnol dderbyniol, neu uwch, ar gyfer pob elfen a gaiff ei hasesu, ni waeth a oes ymgeiswyr sy'n sgorio'n uwch.
- 8.55 Yn ystod y broses recriwtio rydym yn annog ymgeiswyr i ddweud wrthym pa newidiadau neu gymorth y gallai fod eu hangen (ei angen) arnynt, er mwyn inni allu gwneud addasiadau rhesymol i'w cefnogi gyda'u cais.

Cyflogaeth barhaus

- 8.56 Yn y CMA, caiff iechyd a llesiant ein staff ei gydnabod fel ffactor allweddol sy'n ein galluogi i gyflawni ein hamcanion a chyfrannu at lwyddiant ein sefydliad. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau a'n dyletswydd gofal i'n holl staff yn llawn. Drwy ddarparu a hyrwyddo amrywiaeth eang o fentrau llesiant, ein nod yw galluogi staff i gynnal eu hiechyd, eu llesiant a'u diogelwch yn y gwaith. Ein bwriad yw:
- Atal salwch ac anafiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, ond hefyd mynd gam ymhellach a defnyddio'r gweithle fel cyfle i wella iechyd yn gyffredinol;
 - Ymateb yn gynnar pan fydd problemau iechyd yn codi ac, ar y cyd â hyn, sicrhau bod yr ymyriadau angenrheidiol ar gael yn hawdd ac yn gyflym;

- Helpu pobl i reoli eu cyflyrau iechyd a'u hanableddau yn well yn y gweithle gan ddilyn cyngor ein gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol er mwyn ystyried addasiadau rhesymol priodol fel y gallant fod yn fwy cynhyrchiol yn y gweithle ac fel y gall y rheini sy'n absennol o'r gwaith ddychwelyd i'r gwaith cyn gynted â phosibl;
- Hyrwyddo'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion i sicrhau bod cymorth priodol ar gael i'r rheini sydd ei angen.

8.57 Rydym wedi cyflwyno Pasbort Addasu'r Gweithle ar draws y llywodraeth sydd â'r nod o gefnogi'r sgwrs rhwng unigolyn a'i reolwr am ei anabledd, ei gyflwr iechyd neu ei statws ailbennu rhywedd ac unrhyw addasiadau y gall fod angen eu gwneud i'r gweithle. Gall cyflogeion a'u rheolwyr gwblhau'r ffurflen er mwyn gweithredu fel cofnod o'r sgwrs honno a'r addasiadau y cytunwyd arnynt fel mesur cefnogol, dros dro fel arfer. Ar sail wirfoddol y caiff y pasbort ei gwblhau. Mae gan y cyflogai reolaeth dros y cynnwys a gyda phwy y bydd yn ei rannu a cheidw berchengaeth o'r ffurflen drwyddi draw.

8.58 Mae gennym ddau rwydwaith staff sydd â'r nod penodol o gefnogi staff ag anableddau. Prif nod ein rhwydwaith VisAbility yw codi ymwybyddiaeth a dathlu galluoedd ein staff sydd ag anabledd (corfforol ac iechyd meddwl) neu gyflwr iechyd hirdymor gweladwy / nad yw'n weladwy. Mae'r rhwydwaith VisAbility yn creu partneriaeth â'r Rhwydwaith Dyslecsia er budd eu haelodau.

Hyfforddiant a datblygiad

8.59 Yn ogystal â chynnig datblygiad gyrfa drwy raglenni talent y Gwasanaeth Sifil (fel rhaglen DELTA Cynllun Arweinwyr y Dyfodol), rydym wedi datblygu ein rhaglen datblygu gyrfa ein hunain, Aspire, ar gyfer grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol, gan gynnwys y cydweithwyr hynny sydd ag anabledd.

Amser Cyfleuster Undebau Llafur

8.60 Amser Cyfleuster yw pan gaiff cyflogai amser â thâl neu amser di-dâl i ffwrdd o'i rôl arferol i ymgymryd â dyletswyddau a gweithgareddau undeb llafur fel cynrychiolydd undeb llafur.

Swyddogion undeb perthnasol

8.61 Roedd 18 o gyflogeion (17.4 CALI) yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod 2021/22 (2020/21: 18.4 CALI). Treuliodd tri swyddog undeb 0%

o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster yn 2021/22 (2020/21: 5) a threuliodd 15 o swyddogion undeb hyd at 50% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster yn 2021/22 (2020/21: 14).

8.62 Yr amser a dreuliwyd gan swyddogion undeb ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr amser cyfleuster â thâl yn 2021/22 oedd 6.59% (2020/21: 9.29%).

8.63 Canran cyfanswm y bil cyflogau yn 2021/22 a wariwyd ar dalu cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol am amser cyfleuster oedd 0.064% (2020/21: 0.085%).

Penodiadau oddi ar y gyflogres

8.64 Penodiadau gweithwyr oddi ar y gyflogres sy'n cael cyflog uchel ar 31 Mawrth 2022, sy'n ennill £245 y dydd neu fwy.

Nifer y penodiadau presennol ar 31 Mawrth 2022	15
O'r rheini, y nifer a barodd:	
Llai na blwyddyn	9
Rhwng 1 a 2 flynedd	4
Rhwng 2 a 3 blynedd	1
Rhwng 3 a 4 blynedd	-
4 blynedd neu fwy	1

8.65 Yr holl weithwyr oddi ar y gyflogres sy'n cael cyflog uchel a benodwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, sy'n ennill £245 y dydd neu fwy

Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a benodwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022	25
O'u plith:	
Nifer y rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	21
Nifer y rhai sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennir eu bod o fewn cwmpas IR35	-
Nifer y rhai sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennir eu bod y tu allan i gwmpas IR35	4

Nifer y penodiadau a ailasesir at ddibenion cydymffurfiaeth neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	-
O'u plith: Nifer y penodiadau y newidiwyd eu statws IR35 yn dilyn adolygiad	-

8.66 Fel arfer, penodir gweithwyr oddi ar y gyflogres naill ai drwy gcontractau masnachol i ddarparu gwasanaethau arbenigol neu fel gweithwyr asiantaeth dros dro i lenwi rolau sy'n anodd eu llenwi, i gyflenwi dros dro mewn rolau allweddol neu i gyflawni prosiectau brys a lle ceir cyfyngiadau amser.

8.67 Nid oedd unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres o aelodau Bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldebau ariannol sylweddol.

8.68 Roedd tri unigolyn ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn aelodau Bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldebau ariannol sylweddol.

Costau staff (archwiliedig)

8.69 Mae costau staff yn cynnwys:

	2021/22			2020/21
	Staff a gyflogir yn barhaol	Eraill ⁴¹	Cyfanswm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Cyflogau	52,333	1,707	54,040	55,099
Costau nawdd cymdeithasol	6,112	-	6,112	6,020
Costau pensiwn	13,633	-	13,633	13,289
Is-gyfanswm	72,078	1,707	73,785	74,408
Costau staff eraill	89	-	89	170
(Incwm) / Incwm gwrthdro mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan	(14)	-	(14)	(361)
Cyfanswm	72,153	1,707	73,860	74,217

8.70 Yn 2021/22 cafwyd gostyngiad mewn costau staff o gymharu â 2020/21 oherwydd y ffactorau canlynol:

- Cyfradd CALI gyfartalog is (CALI o 7 neu is) ar gyfer y flwyddyn o gymharu â 2020/21 wrth i ni weld trosiant staff uwch yn 2021/22;

⁴¹ Mae Cyflogau Eraill yn cynnwys staff asiantaeth a staff dros dro.

- Mae prosesau recriwtio i'r swyddogaethau newydd wedi creu cyfleoedd a symudiadau mewnol, sydd wedi creu swyddi gwag mewn rhannau eraill o'r CMA;
- Ni roddwyd unrhyw ddyfarniad cyflog am ein bod wedi cadw at y penderfyniad i oedi o ran cyflogau yn y sector cyhoeddus yn 2021/22;
- O ganlyniad i'r ffaith y cafodd cyfyngiadau COVID-19 eu llacio a throsiant staff uwch, gwelwyd gostyngiad net yn lefel y gwyliau blynyddol a gariwyd drosodd.

Nifer y bobl a gyflogir (archwiliedig)

8.71 Nifer y bobl (CALI) a gyflogir ar 31 Mawrth 2022 a nifer cyfartalog y bobl (CALI) a gyflogir yn ystod y flwyddyn:

	Ar ddiwedd y flwyddyn		Y cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn	
	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21
	Rhif	Rhif	Rhif	Rhif
Staff parhaol	786.0	766.2	781.0	770.0
Eraill ⁴²	89.1	80.6	81.0	99.0
Cyfanswm	875.1	846.8	862.0	869.0

8.72 Mae'r ffigur ar ddiwedd blwyddyn 2021/22, sef 28.3 CALI yn uwch na'r ffigur ar ddiwedd blwyddyn 2020/21. Mae hyn am fod y CMA wedi cwblhau 130 yn fwy o benodiadau recriwtio (262) na'r hyn a welwyd yn 2020/21 (132). Gellir priodoli hyn i'r ffaith bod y CMA wedi cael tair swyddogaeth newydd: yr Uned Marchnadoedd Digidol, Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau sydd wedi arwain at gyfleoedd i dyfu ym mhob rhan o'r CMA. Yn chwarteri 2 a 4, gwnaethom nodi'r nifer uchaf o ymgeiswyr yn dechrau yn y CMA; bydd penodiadau chwarter 4 wedi effeithio'n uniongyrchol ar y ffigur ar ddiwedd blwyddyn 2021/22.

8.73 Mae'r cyfartaledd ar gyfer blwyddyn 2021/22, sef 7 CALI yn is nag yn 2020/21. Yn chwarteri 1, 2 a 4, gwnaethom nodi nifer uwch o lawer o staff yn gadael o gymharu â blynyddoedd blaenorol, y gwnaethom ei briodoli i'r ffaith bod y cyfyngiadau wedi'u llacio yn dilyn y pandemig a bod y staff mewn sefyllfa well i geisio cyfleoedd gyrfya amgen y tu allan i'r CMA. Mae hyn wedi gostwng ein cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn.

⁴² Yn cynnwys benthyciadau i mewn, secondiadau i mewn, contractau cyfnod penodol a gweithwyr asiantaeth. Nid oes gan y CMA unrhyw weinidogion na chynhgorwyr arbennig.

Cyfansoddiad staff

Nifer y bobl (CALI) a gyflogwyd⁴³ ar 31 Mawrth 2022 yn ôl gradd:

	2021/22		2020/21	
	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw
SCS3 (Cyfarwyddwr)	3.0	0	2.0	1.0
SCS2 (Cyfarwyddwr)	13.9	7.3	12.9	7.3
SCS1 (Cyfarwyddwr)	55.1	41.2	46.9	37.2
Gradd 6	109.8	91.7	101.4	91.2
Gradd 7	129.1	125.5	117.0	125.0
SEO	26.0	34.8	25.0	30.0
HEO	66.8	80.8	65.8	80.3
EO	32.6	38.5	37.6	39.5
Swyddog Gweinyddol	7.0	12.0	14.0	12.8
Cyfanswm	443.3	431.8	422.6	424.3

Staff ar fenthyg

8.74 Ers 2020/21, rydym wedi nodi gostyngiad yn nifer y benthyciadau tuag allan a chynnydd yn nifer y benthyciadau tuag i mewn i'r CMA. Yn gyffredinol, mae cyfanswm nifer y benthyciadau wedi aros yr un fath â'r flwyddyn ddiwethaf (38). Y ffactor ysgogi ar gyfer benthyciadau i mewn ac allan o'r CMA dros y flwyddyn ddiwethaf oedd rhoi cymorth i swyddogaeth twf newydd y CMA, sef yr Uned Marchnadoedd Digidol. Drwy ddefnyddio aelodau o staff o'r tu mewn a'r tu allan i'r CMA, llwyddom i feithrin profiad ac arbenigedd yn swyddogaeth arbenigol yr Uned Marchnadoedd Digidol a meysydd ategol.

	Benthyciadau staff tuag allan 2021/22		Benthyciadau staff tuag i mewn 2021/22	
	Llai na 6 mis	Mwy na 6 mis	Llai na 6 mis	Mwy na 6 mis

⁴³ Mae'n cynnwys unigolion a gyflogwyd ar gcontract cyflogaeth yn unig ac nid yw'n cynnwys unigolion ar secondiad a gweithwyr asiantaeth.

SCS3 (Cyfarwyddwr)	-	-	-	-
SCS2 (Cyfarwyddwr)	1	-	-	-
SCS1 (Cyfarwyddwr)	-	-	1	1
Gradd 6	3	6	1	2
Gradd 7	1	6	1	1
SEO	-	-	-	-
HEO	3	7	1	2
EO	-	1	-	-
Swyddog Gweinyddol	-	-	-	-
Cyfanswm	8	20	4	6

Gwariant ar wasanaethau ymgynghori

8.75 Yn 2021/22, gwariodd y CMA £0.7 miliwn ar wasanaethau ymgynghori (2020/21: £0.6 miliwn). Roedd y cynnydd mewn gwariant yn 2021/22 yn bennaf oherwydd gwelliannau pwrpasol i system Cynllunio Adnoddau Menter y CMA, a chostau cam darganfod prosiectau, fel Porth Cyhoeddus y CMA a phorth Swyddfa'r Farchnad Fewnol, ynghyd â dadansoddiadau busnes a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect trawsnewid i dechnegau digidol.

Pecynnau ymadael (archwiliedig)

8.76 Telir pecynnau ymadael, lle y bo'n gymwys, yn unol â thelerau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil. Cyfrifir ar gyfer costau ymadael yn llawn pan fydd ymrwymiad wedi'i wneud gan y CMA a chânt eu talu yn y flwyddyn ymadael.

8.77 Ni thalwyd unrhyw becynnau ymadael yn 2021/22 (2020/21: dim).

9. Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol (SOPS)

- 9.1 Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA baratoi Datganiad Cyflenwi Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol. Caiff y SOPS a'r nodiadau ategol eu harchwilio, fel y nodir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.
- 9.2 Mae'r SOPS yn ddatganiad allweddol o atebolrwydd sy'n dangos, yn fanwl, sut mae'r CMA wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrif o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a ddaw'n bennaf o'r Gronfa Gyfunol), y mae'r Senedd yn rhoi awdurdod statudol i endidau eu defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn nodi'r cyflenwad ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Os bydd y CMA yn mynd y tu hwnt i'r terfynau a nodir gan ei Amcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn cael barn amodol.
- 9.3 Mae fformat y SOPS yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o Gyflenwad, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn gallu cymharu rhwng yr hyn y mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol. Mae'r SOPS yn cynnwys tabl cryno, sy'n nodi perfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, arian parod a wariwyd (caiff cyllidebau eu llunio ar sail cronïadau ac, felly, ni fydd yr alldro yn cyfateb yn union i'r arian parod a wariwyd) a gwaith gweinyddol.
- 9.4 Mae'r nodiadau ategol yn nodi'r canlynol: Alldro yn ôl llinell Amcangyfrif, sy'n rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoniad o'r alldro i wariant gweithredu net yn yr SOCNE, er mwyn cysylltu'r SOPS â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoniad o'r alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).
- 9.5 Caiff y SOPS a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i IFRS ond yn wahanol iddynt. Rhoddir dealltwriaeth o'r fframwaith cyllidebu ac esboniad o'r termau allweddol ar dudalen 51, yn adran adolygiad ariannol yr adroddiad ar berfformiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS hefyd ym mhennod 1 o'r Canllawiau ar Gyllidebu Cyfunol, sydd ar gael yn gov.uk.

- 9.6 Mae'r SOPS yn rhoi darlun manwl o'r perfformiad ariannol, ar ffurf y pleidleisir arni ac a gydnabyddir gan y Senedd. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad ar Berfformiad, yn darparu trafodaeth gryno ynghylch alldro yn erbyn amcangyfrif a swyddogaethau fel cyflwyniad i ddatgeliadau SOPS.

Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol 2021/22

		2021/22						2020/21	
		Amcangyfrif			Alldro			Alldro	
Nodyn ar SoPS		Gyda phleidlais	Heb bleidlais	Cyfanswm	Gyda phleidlais	Heb bleidlais	Cyfanswm	Alldro gyda phleidlais o gymharu â'r Amcangyfrif: arbedion/ (gormodedd)	Cyfanswm
		£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Terfyn Gwariant Adrannol									
Adnoddau	1.1	115,600	-	115,600	97,937	-	97,937	17,663	93,055
Cyfalaf	1.2	7,500	-	7,500	2,675	-	2,675	4,825	2,657
Gwariant a Reolir yn Flynyddol									
Adnoddau	1.1	45,000	-	45,000	7,875	-	7,875	37,125	7,695
Cyfalaf	1.2	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm y Gyllideb		168,100	-	168,100	108,487	-	108,487	59,613	103,407
Heb Gyllideb									
Adnoddau		-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm		168,100	-	168,100	108,487	-	108,487	59,613	103,407
Cyfanswm Adnoddau		160,600	-	160,600	105,812	-	105,812	54,788	100,750
Cyfanswm Cyfalaf		7,500	-	7,500	2,675	-	2,675	4,825	2,657
Cyfanswm		168,100	-	168,100	108,487	-	108,487	59,613	103,407

Gofyniad arian parod net 2021/22

Nodyn ar SoPS	2021/22			2020/21
	Amcangyfrif	Alldro	Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: Arbedion/(Gormodedd)	Alldro
	£000	£000	£000	£000
3	117,100	92,134	24,966	94,326

Costau gweinyddu 2021/22

Nodyn ar SoPS	2021/22			2020/21
	Amcangyfrif	Alldro	Arbedion/(Gormodedd)	Alldro
	£000	£000	£000	£000
1	26,640	19,621	7,019	20,403

9.7 Mae'r ffigurau yn yr ardaloedd sydd wedi'u hamlinellu mewn print trwm yn gyfansymiau gyda phleidlais sy'n agored i reolaeth Seneddol. Yn ogystal, er nad yw'n gyfyngiad ar wahân gyda phleidlais, bydd unrhyw achos o dorri'r gyllideb weinyddu hefyd yn arwain at bleidlais ar ormodedd.

SOPS 1 Alldro net

SoPS 1.1 Dadansoddiad o alldro adnodd net yn ôl adran

	2021/22									2020/21	
	Alldro							Amcangyfrif		Alldro	
	Gweinyddiaeth			Rhaglen				Cyfanswm alldro	Cyfanswm net	Cyfanswm net o gymharu â'r Amcangyfrif	Cyfanswm
	Gros	Incwm	Net	Gros	Incwm	Net					
£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000		£000		
Gwariant yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)											
Gyda phleidlais: A Deunydd Hyrwyddo ar gyfer Cystadleuaeth	19,846	(225)	19,621	79,100	(784)	78,316	97,937	115,600	17,663	93,055	
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)											

Gyda phleidlais: B Deunydd Hyrwyddo ar gyfer Cystadleuaeth	-	-	-	7,875	-	7,875	7,875	45,000	37,125	7,695
Cyfanswm	19,846	(225)	19,621	86,975	(784)	86,191	105,812	160,600	54,788	100,750

9.8 Caiff esboniadau manwl o'r amrywiadau sylweddol rhwng yr Alldro a'r Amcangyfrif eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwyr: adolygiad ariannol ar dudalen 51.

SoPS 1.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf net yn ôl adran

	2021/22			2020/21		
	Alldro			Amcangyfrif		Alldro
	Gros	Incwm	Net ⁴⁴	Net	Cyfanswm net o gymharu â'r Amcangyfrif	Net
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gwariant yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)						
Gyda phleidlais: A	2,675	-	2,675	7,500	4,825	2,657
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)						
Gyda phleidlais: B	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	2,675	-	2,675	7,500	4,825	2,657

9.9 Caiff esboniadau manwl o'r amrywiadau sylweddol rhwng yr Alldro a'r Amcangyfrif eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwyr: adolygiad ariannol ar dudalen 51.

⁴⁴ Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau yn 2021/22.

SoPS 2 Cysoni alldro i'r gwariant gweithredu net

SoPS 2.1 Cysoni alldro adnoddau net i'r gofyniad gweithredu net

	2021/22	2020/21
	Alldro	Alldro
	£000	£000
Alldro adnoddau net yn y Datganiad Cyflenwi Seneddol	105,812	100,750
Ychwanegu: Ymchwil wedi'i chynnwys mewn alldro cyllideb gyfalaf ⁴⁵	-	172
Gwariant Gweithredu Net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	105,812	100,922

SoPS 3 Cysoni alldro adnoddau net i'r gofyniad arian parod net

	Nodyn	Amcangyfrif		2021/22	2020/21
		£000	Alldro	Cyfanswm alldro net o gymharu â'r Amcangyfrif arbedion/(gormodedd)	Alldro
		£000	£000	£000	£000
Alldro adnoddau	SOPS 1.1	160,600	105,812	54,788	100,750
Alldro cyfalaf	SOPS 1.2	7,500	2,675	4,825	2,657
Croniadau i addasiadau arian parod					
<i>Addasiadau i ddileu eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:</i>					
Dibrisiant	4	(6,000)	(5,168)	(832)	(4,893)
Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol	4	(45,000)	(7,956)	(37,044)	(7,703)
Eitemau eraill nad ydynt yn rhai arian parod	4	-	(90)	90	(88)
<i>Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:</i>					
Cynnydd/(lleihad) mewn symiau derbyniadwy	9	-	(4,243)	4,243	7,159
(Cynnydd)/lleihad mewn symiau taladwy	10	-	2,181	(2,181)	(4,687)
Cynnydd/(gostyngiad) i'w ildio i'r Gronfa Gyfunol		-	(1,234)	1,234	1,063
Y defnydd o ddarpariaethau	11	-	157	(157)	68
Gofyniad arian parod net		117,100	92,134	24,966	94,326

⁴⁵ Y system Ewropeaidd o gyfrifon rhanbarthol a chenedlaethol, 2010.

SoPS 4 Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

SoPS 4.1 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

9.10 Yn ystod 2021/22 nid oedd unrhyw incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (2020/21: dim).

SoPS 4.2 Incwm o'r Gronfa Gyfunol

9.11 Nid yw'r incwm o'r Gronfa Gyfunol yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan y CMA lle roedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn hytrach na phrif arferydd. Ceir manylion llawn yr incwm a gasglwyd fel cyfrwng ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn Natganiad Ymddiriedolaeth y CMA ar gyfer 2021/22 a gyhoeddir ar wahân i'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hyn ond ochr yn ochr â nhw.

Datgeliadau atebolrwydd Seneddol

Colledion a thaliadau arbennig (archwiliedig)

9.12 Ni chafwyd unrhyw golledion a thaliadau arbennig yn 2021/22 (2020/21: £0.4 miliwn).

Rhwymedigaethau Wrth Gefn Pell (archwiliedig)

9.13 Nid oedd unrhyw rwymedigaethau wrth gefn o bell yn 2021/22 (2020/21: dim).

Talu cyflenwyr yn brydlon

9.14 Er bod ein telerau ac amodau safonol yn nodi y dylid talu o fewn 30 diwrnod i dderbyn, rydym yn anelu at dalu pob anfoneb ddilys o fewn 10 diwrnod gwaith. Yn 2021/22, talwyd 73% o'r holl anfonebau dilys a ddaeth i law o fewn 10 diwrnod gwaith (2020/21: 69%) a thalwyd 94% o'r holl anfonebau dilys a ddaeth i law o fewn 30 diwrnod gwaith (2020/21: 92%).

2021/22	Anfonebau a dalwyd o fewn 10 diwrnod gwaith	Anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod
Chwarter 1af	70%	94%
2il Chwarter	66%	95%
3ydd Chwarter	74%	94%
4ydd Chwarter	84%	97%

- 9.15 O gymharu â 2020/21, rydym yn dangos gwelliant mewn perfformiad talu. Mae'r broses o roi arferion gorau ar waith a gyflwynwyd yn y modiwl e-ddysgu i Archebwyr, ynghyd â dulliau aml wedi'u targedu o gyfathrebu ar bwysigrwydd perfformiad talu i holl gydwethwyr y CMA sy'n rhan o'r broses hon, mae hyn wedi cyfrannu at y gwelliant hwn. Mae'r CMA yn rhagweld, unwaith y bydd yr arferion hyn wedi'u hymgorffori'n llawn yn y busnes, y bydd perfformiad talu yn parhau i wella.
- 9.16 Yn y flwyddyn ariannol hon, gwnaethom ganolbwyntio ar dalu cyflenwyr sy'n BBaCh yn brydlon er mwyn cefnogi eu gofynion o ran llif arian parod yn ystod pandemig COVID-19 ac yn unol â'r Cod Talu'n Brydlon. Yn 2021/22, talwyd 71% o'r holl anfonebau dilys a ddaeth i law gan gyflenwyr sy'n BBaCh o fewn 10 diwrnod gwaith (2020/21: 73%).
- 9.17 Rydym yn parhau i fod yn rhagweithiol yn nodi cyfleoedd pellach i wella ein perfformiad yn 2022/23 a'u rhoi ar waith.

Llofnodwyd dros ac ar ran y CMA

Andrea Coscelli CBE

Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

20 Gorffennaf 2022

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Lifau Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y nodiadau cysylltiedig yn cynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith gymwys ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar 31 Mawrth 2022, ac o'i wariant net gweithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a roddwyd yn ôl y gofynion hynny.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol:

- mae'r Datganiad o Alldro yn Erbyn Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol gyda phleidlais ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 ac mae'n dangos nas rhagorwyd ar y cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn

Cynhaliâs fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (ISAs y DU), cyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig*. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesebol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i lunio sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, arwain at gryn amheuaeth ynghylch gallu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na fy nhystysgrif ac adroddiad fel archwilydd. Fy Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rwy'n gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a geir yn yr archwiliad, neu yr ymddengys fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosol o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, os byddaf yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn ein barn ni, paratowyd y rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff i'w harchwilio yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol sy'n agored i gael eu harchwilio wedi'u paratoi yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Crynodeb o Berfformiad, yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

O ystyried gwybodaeth a dealltwriaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r amgylchedd a sicrhodd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y byddaf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i;

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu na dderbyniwyd digon o ffurflenni ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol sy'n agored i gael eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a nodwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM neu nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff a gaiff eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adroddiadau ariannol cymwys ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan;
- rheolaeth fewnol ag sydd ei hangen ym marn y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall;
- asesu gallu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Rwy'n anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Y graddau yr ystyriwyd y gall yr archwiliad ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll. Nodir y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, isod.

Nodi ac asesu risgiau posibl mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, gwnaethom ystyried y canlynol:

- natur y sector, rheolaeth amgylcheddol a pherfformiad gweithredol yn cynnwys cynllunio polisiau cyfrifyddu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.
- Gwneud ymholiadau â'r rheolwyr a'r sawl sy'n llywodraethu, yn cynnwys caffael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisiau a gweithdrefnau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, honedig neu a amheuir;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys rheolaethau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- trafod ymysg y tîm ymgysylltu a chynnwys arbenigwyr mewnol perthnasol, ynghylch sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer twyll a nodais y posibilrwydd mwyaf o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, rhannu cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Fel gyda phob archwiliad o dan ISAs (y DU), mae hefyd yn ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Hefyd, cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill lle mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gweithredu, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar gyfrifon perthnasol a datgeliadau yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Ymysg y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn mae Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus a Chyflenwi a Neilltuo Arian (Prif Amcangyfrifon) 2022, y Ddeddf Gyflogaeth, Deddfwriaeth Treth a Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

Ymateb archwilio i risg a nodwyd

O ganlyniad i gyflawni'r uchod, roedd y gweithdrefnau a roddais ar waith mewn ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau datganiad ariannol a phrofi dogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- cynnal ymholiadau â rheolwyr, y Pwyllgor Risg, Sicrwydd ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol mewnol ynghylch materion cyfreithia a hawliadau posibl;

- darllen ac adolygu cyfrifon cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau, profi priodolrwydd cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r safbwyntiau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos tuedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i gwrs busnes arferol;

a bŵm hefyd yn cyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm ymgysylltu yn cynnwys arbenigeddau mewnol gan gadw'n effro i unrhyw ddangosyddion o dwyll neu o achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Cyfrifoldebau'r archwilydd arall

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol gyda phleidlais ac nas rhagorwyd ar y cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheolaeth Seneddol gyda phleidlais yw Cyfyngiadau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Heb Gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Arian Parod Net.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseriad bwriadedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, yn cynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

Dyddiad

10. Datganiadau Ariannol y CMA

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE)

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2021/22	2020/21
		£000	£000
Incwm gweithredu	5	(1,009)	(6,092)
Cyfanswm yr incwm gweithredu		(1,009)	(6,092)
Costau staff	3	73,860	74,217
Darpariaeth dadfeiliadau: darperir yn ystod y flwyddyn	4	1,756	3,763
Prynu nwyddau a gwasanaethau	4	31,205	29,034
Cyfanswm y gwariant gweithredu		106,821	107,014
Gwariant gweithredu net / (incwm) ar gyfer y flwyddyn		105,812	100,922
Gwariant net cynhwysfawr arall			
Colled/(elw) net actiwaraid ar gynllun pensiwn cydweddol	11.2	76	60
Gwariant net cynhwysfawr / (incwm) ar gyfer y flwyddyn		105,888	100,982

10.1 Mae'r nodiadau ar dudalennau 126 i 151 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

ar 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2021/22	2020/21
		£000	£000
Asedau nad ydynt yn gyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	6	33,520	35,825
Asedau anniriaethol	7	1,344	1,532
Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol		34,864	37,357
Asedau cyfredol			
Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	9	6,084	10,327
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	8	723	1,957

Cyfanswm yr asedau cyfredol		6,807	12,284
Cyfanswm asedau		41,671	49,641
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	10	(11,514)	(12,675)
Darpariaethau	11	(10,047)	(252)
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		(21,561)	(12,927)
Cyfanswm yr asedau llai Rhwymedigaethau			
		20,110	36,714
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol			
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	10	(10,834)	(11,854)
Darpariaethau	11	(11,622)	(13,542)
Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol		(22,456)	(25,396)
Cyfanswm yr asedau llai (atebolrwydd)			
		(2,346)	11,318
Ecwiti a chronfeydd wrth gefn trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol		(2,346)	11,318
Cyfanswm yr ecwiti		(2,346)	11,318

Mae'r nodiadau ar dudalennau 126 i 151 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

Andrea Coscelli CBE

Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

20 Gorffennaf 2022

Datganiad o Lifau Arian Parod

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

		2021/22	2020/21
	Nodyn	£000	£000
Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu			
Incwm/(gwariant) gweithredu net	SoCNE	(105,812)	(100,922)
Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod	4,5	13,214	12,684
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	9	4,243	(7,159)
Llai symudiad mewn symiau derbyniadwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r SoCNE		-	-
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	10	(2,181)	4,687
Symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r SoCNE		1,234	(1,063)
Y defnydd o ddarpariaethau	11	(157)	(68)
(All-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu		(89,459)	(91,841)
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	6	(2,468) ⁴⁶	(2,265)
Prynu asedau anniriaethol	7	(207)	(220)
Enillion o waredu asedau anariannol	5	-	-
(All-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(2,675)	(2,485)
Llifau arian parod o weithgareddau ariannu			
Ariannu o'r Gronfa Gyfunol (cyflenwi)		90,900	95,389
Blaensymiau o'r Gronfa Hapddigwyddiadau		-	-
Ad-daliadau i'r Gronfa Hapddigwyddiadau		-	-
Llif arian parod net o weithgareddau ariannu		90,900	95,389
Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn, cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol			
Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol		(1,234)	1,063
		-	-
Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol		(1,234)	1,063
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	8	1,957	894

⁴⁶ Mae cyfanswm y pryniant eiddo, offer a chyfarpar wedi gostwng o groniad (heb fod yn arian parod) o £0.1 miliwn i gyflwyno pryniannau arian parod yn unig

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	8	723	1,957
---	----------	------------	--------------

Mae'r nodiadau ar dudalennau 126 i 151 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Nodyn	Cronfa Gyffredinol
		£000
Balans ar 31 Mawrth 2020		17,886
Cyllid Seneddol Net – wedi'i dynnu i lawr		95,389
Cyllid Seneddol Net – tybiedig		894
Cyflenwad heb ei wario sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol		(1,957)
Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – tâl archwilwyr	4	88
Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn (Colled)/elw actiwaraidd ar rwymedigaeth pensiwn	11	(100,922) (60)
Balans ar 31 Mawrth 2021		11,318
Cyllid Seneddol Net – wedi'i dynnu i lawr		90,900
Cyllid Seneddol Net – tybiedig		1,957
Cyflenwad heb ei wario sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol	10	(723)
Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – tâl archwilwyr	4	90
Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn (Colled)/elw actiwaraidd ar rwymedigaeth pensiwn	11	(105,812) (76)
Balans ar 31 Mawrth 2022		(2,346)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 126 i 151 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

1 Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

- 10.2 Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth 2021/22, a gyhoeddwyd

gan Drysorlys EM, a Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r polisiau cyfrifyddu a geir yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu fel y'u dehonglwyd ar gyfer y FReM. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r CMA yn dewis y polisi cyfrifyddu y bernir mai hwnnw yw'r un mwyaf priodol i'r amgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun gwir a theg.

- 10.3 Disgrifir y polisiau a fabwysiadwyd gan y CMA isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA baratoi Datganiad Cyflenwi Seneddol a nodiadau ategol yn dadansoddi'r adnoddau net a'r alldro cyfalaf yn erbyn cyfansymiau rheoli gyda phleidlais gan y Senedd drwy'r Amcangyfrif. Caiff y rhain eu cynnwys yn adran Atebolrwydd Seneddol y ddogfen hon.
- 10.4 Mae'r CMA wedi mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth ystyried y gofynion a nodir yn FReM Trysorlys EM. Cafodd y CMA gymeradwyaeth Seneddol ar gyfer cyllid yn 2022/23 drwy'r Prif Amcangyfrifon Cyflenwi a gyhoeddwyd ar 12 Mai 2022, ynghyd â chadarnhad Trysorlys EM o ran setliad Adolygiad o Wariant y CMA yn 2021 ar gyfer 2022/23. Felly, mae'r CMA wedi rhagweld y bydd y gwasanaethau a ddarperir yn parhau i mewn i'r dyfodol.

1.1 Confensiwn cyfrifyddu

- 10.5 Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio'r offerynnau ariannol hynny a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio, fel yr eglurir yn y polisiau cyfrifyddu isod, ac fel y pennir gan y safonau cyfrifyddu perthnasol a'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

1.2 Safbwyntiau ac amcangyfrifon sylweddol

Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau:

- 10.6 Mae'r darpariaethau'n dibynnu ar gymhwyso barn broffesiynol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill y disgwylir iddynt ddylanwadu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Pan yr ystyrir ei bod yn debygol y bydd rhwymedigaeth yn crisialu ac y gellir ei mesur mewn modd dibynnol, caiff darpariaeth ei chydabod. Mae darpariaethau'n seiliedig ar brisiadau, ynghyd â barn reoli.

- 10.7 Pan fydd gwerth amser arian yn berthnasol, caiff darpariaethau eu disgowntio i'w gwerthoedd presennol gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio Trysorlys EM ym mhapur diweddaraf y System Gwariant Cyhoeddus (PES). Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 11.

1.3 Safonau wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto

- 10.8 Mae'r canlynol yn rhestr o newidiadau perthnasol i IFRSs a gyhoeddwyd ond nad oeddent yn weithredol ar adeg llunio'r adroddiad:

IFRS 16 - Prydlesau

Mae'r CMA yn brydlesai

- 10.9 Mae'r safon hon, sy'n gymwys o 1 Ebrill 2022 ac sy'n disodli IAS 17 – Prydlesau, yn cyflwyno model cyfrifyddu unigol i brydlesai sydd, i bob pwrpas, yn dileu'r driniaeth 'oddi ar y fantolen' bresennol o weithredu prydlesau o dan IAS 17. Mae hyn yn arwain at gynrychiolaeth gywir o asedau a rhwymedigaethau prydlesai.
- 10.10 Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i asedau ar brydles gael eu cydnabod, gan gynrychioli'r hawl i ddefnyddio'r eitem ar brydles, a rhwymedigaethau ar brydles, gan gynrychioli'r darpar daliadau prydles yn y dyfodol, ar y SoFP ar gyfer pob cytundeb prydles gymwys. Caiff y draul rentu ar brydlesau gweithredol o dan IAS 17 ei ddisodli gan dâl dibrisiant a thâl ariannu yn y SoCNE.
- 10.11 Bydd gwerth cychwynnol yr ased hawl i ddefnyddio yn cynnwys gwerth presennol y taliadau prydles gofynnol, wedi'i addasu ar gyfer: unrhyw daliadau prydles a wnaed cyn dechrau'r brydles; ac unrhyw gymhellion prydles a gafwyd llai croniadau a rhagdaliadau sy'n gysylltiedig â'r brydles, wedi'u disgowntio yn unol â chyfeiriad Trysorlys EM.
- 10.12 Wrth bennu pa gytundebau prydles sydd o fewn cwmpas IFRS 16, bydd y CMA yn defnyddio'r dulliau ymarferol canlynol a ganiateir gan y safon:
- Cymhwyso'r esemptiadau cydnabod a mesur:
 - Cyfrifo am brydlesau gweithredol gyda llai na 12 mis yn weddill, ar 1 Ebrill 2022, fel prydlesau byrdymor;

- Cyfrifo am brydlesau gweithredol lle mae gan yr ased sylfaenol werth is h.y. llai na throthwy cyfafalu'r CMA o £5k.
- Defnyddio cyfradd ddisgowntio unigol i bortffolio o brydlesau sydd â nodweddion cymharol debyg;
- Peidio â chynnwys costau uniongyrchol cychwynnol i fesur asedau hawl i ddefnyddio ar ddyddiad y cais cychwynnol;
- Defnyddio ôl-ddoethineb i bennu telerau'r brydles lle mae'r contract yn cynnwys opsiynau i ymestyn neu derfynu'r brydles;
- Dewis cymhwyso'r model ailbrisiad yn IAS 16 i'r holl asedau hawl i ddefnyddio sy'n ymwneud â dosbarth eiddo, offer a chyfarpar ar adeg trosglwyddo.

10.13 Mae'r CMA wedi casglu gwybodaeth am brydlesau gweithredol er mwyn asesu'r effaith a'r addasiad cronol diweddaraf wrth drosglwyddo o IFRS 16. Bydd y CMA yn cymhwyso'r safon o'r dyddiad trosiannol gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol diwygiedig, gan addasu balans agoriadol enillion argadwedig a pheidio ag ailddatgan ffurfiau cymharol â chyfnodau blaenorol, yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

10.14 Ar 31 Mawrth 2022, mae gan y CMA bum prydles weithredu ac eir i'r costau hyn ar hyn o bryd ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles, yn unol ag IAS 17. Y prydlesau hyn, ar gyfer eiddo a feddiennir gan CMA yn: y Cabot; yr Uned Ymglyfreitha; ac yn y gwledydd datganoledig, yw'r unig gytundebau prydles o fewn cwmpas IFRS 16. Nid oes gan y CMA unrhyw brydlesau hedyn pupur.

10.15 Mae'r CMA wedi asesu'r effaith a'r addasiad cronol diwygiedig wrth drosglwyddo i IFRS 16 a bydd yn cymhwyso'r safon o'r dyddiad trosiannol gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol diwygiedig, gan addasu balans agoriadol enillion argadwedig a pheidio ag ailddatgan ffurfiau cymharol â chyfnodau blaenorol.

10.16 Bydd cymhwyso IFRS 16 o'r dyddiad trosiannol yn cael yr effaith ganlynol ar y datganiadau ariannol;

- Bydd eiddo, offer a chyfarpar, ar gyfer yr asedau hawl i ddefnyddio, yn cynyddu £54.3 miliwn a bydd symiau masnach taladwy a symiau taladwy arall, ar gyfer rhwymedigaethau'r brydles, yn cynyddu £56.6 miliwn ar 1 Ebrill 2022;
- Bydd enillion argadwedig yn cynyddu £8.3 miliwn ar 1 Ebrill 2022, gan fod y credydwr di-rent ar gyfer y Cabot wedi'i wrth-droi, y cyfrifwyd ar ei gyfer o dan IAS 17;

- Mae'r CMA yn amcangyfrif, o flwyddyn ariannol 2022/23, y bydd y tâl dibrisiant o fewn SoCE yn cynyddu £4.9 miliwn, ar gyfer yr asedau hawl i ddefnyddio, a bydd y tâl ariannu o fewn SoCNE yn cynyddu £0.4 miliwn ar gyfer rhwymedigaethau'r brydles.

Cyllidebu

10.17 Bydd y broses o fabwysiadu IFRS 16 yn cael tair effaith ar wariant y CMA ar adnoddau a chyfalaf:

- gwariant cyfalaf ar ddechrau'r brydles, ar gyfer yr ased a gaiff ei gydnabod ar SoFP;
- gwariant ar adnoddau a glustnodwyd ar gyfer dibrisiant ar yr ased a brydleswyd, dros gyfnod y brydles;
- gwariant ar adnoddau na chlustnodwyd ar gyfer y llog yr aed iddo dros gyfnod y brydles (mae taliadau arian parod blynyddol ar y brydles bellach yn cyfrif fel symudiadau cyfalaf gweithio).

10.18 Yn 2022/23, bydd cynnydd yng ngwariant y CMA ar adnoddau o dan IFRS 16 o gymharu â'r driniaeth ar gyfer prydlesau o dan IAS 17. Mae'r cynnydd blynyddol hwn yn sgil y ffaith bod dibrisiant a'r taliadau llog o dan IFRS 16 yn cael eu cyfrifo yn erbyn llifau arian parod, dros gyfnod y brydles, a gaiff eu haddasu ar gyfer codiadau chwyddiannol ar gyfer cynnydd mewn rhent a'u disgowntio yn unol â chyfraddau disgownt Trysorlys EM.

Y CMA fel prydleswr

10.19 Y CMA yw'r prydleswr mewn un cytundeb sy'n isosod rhan o ofod swyddfa'r Cabot i Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser. Mae IFRS 16 yn cario ymlaen yn sylweddol ofynion cyfrifyddu'r prydleswr yn IAS 17. Fodd bynnag, mae IFRS 16 wedi gwneud y newid canlynol i'r canllawiau ar isbrydlesau:

- Os nad yw'r brif brydles yn brydles fyrdymor, caiff yr isbrydles ei dosbarthu fel prydles weithredol;
- Fel arall, caiff yr is-brydles ei dosbarthu gan gyfeirio at yr ased hawl i ddefnyddio sy'n codi o'r brif brydles, yn hytrach na chan gyfeirio at yr ased sylfaenol.

10.20 Felly, bydd y CMA yn dosbarthu'r cytundeb hwn â Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser fel is-brydles ariannu pan gaiff IFRS 16 ei gymhwyso o'r dyddiad trosiannol. Caiff hyn yr effaith ganlynol ar y datganiadau ariannol;

- Bydd symiau derbyniadwy, ar gyfer y gofod llawr a ddefnyddir gan Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser, yn cynyddu £0.4 miliwn, a bydd yr eiddo, offer a chyfarpar, ar gyfer yr ased hawl i ddefnyddio nas cydnabyddwyd, yn cynyddu £0.4 miliwn ar 1 Ebrill 2022.

IFRS 17 – Contractau Yswiriant

10.21 Bydd IFRS 17 – Contractau Yswiriant, y disgwylir iddo gael dyddiad gweithredol gorfodol yn y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2024, yn disodli IFRS 4 – Contractau Yswiriant.

10.22 Mae'r safon hon yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau yswiriant gael eu nodi, ac i rwymedigaeth contract yswiriant gael ei chydabod ar gyfer y contractau hyn. Caiff y rhwymedigaeth contract yswiriant ei chyfrifo fel gwerth presennol llifau arian parod yswiriant yn y dyfodol (y llifau arian parod cyflawni) ynghyd ag addasiad risg dilynol.

10.23 Nid yw'r CMA yn rhagweld y bydd y broses o fabwysiadu'r safon hon yn cael effaith berthnasol ar ei gyfrifon.

1.4 Incwm

10.24 Mae IFRS 15 'Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid' yn gymwys i incwm a dderbyniwyd gan y CMA. Caiff pob incwm ei gydnabod pan gaiff y gwasanaeth ei ddarparu neu pan fydd penderfyniad cyfreithiol wedi'i wneud.

10.25 Mae incwm cydnabyddedig yn cynnwys y canlynol yn bennaf:

- Apeliadau Rheoleiddio;
- ad-dalu costau apelio (yn ymwneud â chostau cyfreithiol a adenillwyd) ac incwm arall.

Apeliadau rheoleiddiol

10.26 Egwyddor graidd IFRS 15 yw y bydd endid yn cydnabod refeniw er mwyn dangos y broses o drosglwyddo nwyddau neu wasanaethau a addawyd i gwsmeriaid mewn swm sy'n adlewyrchu'r ystyriaeth y mae'r endid yn disgwyl y bydd ganddo hawl iddi yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny.

10.27 Caiff yr egwyddor graidd hon ei chyflawni mewn fframwaith model 5 cam: [IFRS 15:IN7]

- Cam 1: Nodi'r contract â chwsmer – Caiff yr amod hon ei bodloni pan fydd trydydd parti yn herio penderfyniadau rheoleiddio gan reoleiddiwr sector a phan gaiff y mater ei gyfeirio at y CMA. Mae hyn yn cyd-fynd â'r diffiniad o gontract o dan addasiad FReM o IFRS 15. Mae'r FReM yn nodi bod deddfwriaeth neu reoliadau sy'n caniatáu i endid dderbyn arian parod o endid arall yn cyd-fynd â'r diffiniad o gontract.
- Cam 2: Nodi'r rhwymedigaethau cyflawni yn y contract – Mae'r rhwymedigaethau cyflawni yn y contract er mwyn i'r CMA weithredu fel tribiwnlys arbenigol, i benderfynu ar yr achos sylfaenol, ac i adennill costau er mwyn bod yn orfodadwy.
- Cam 3: Nodi pris y trafodiad, sef y costau yr eir iddynt gan y CMA yn gweithredu fel tribiwnlys arbenigol, fel y'i mesurir yn y gorchymyn costau terfynol.
- Cam 4: Pennu pris y trafodiad i'r rhwymedigaethau cyflawni yn y contract ar ôl i gamau 2 a 3 gael eu cyflawni h.y. y rhwymedigaeth berfformio yw bod y CMA yn gweithredu fel tribiwnlys arbenigol ac y caiff y gorchymyn costau ei bennu i'r CMA yn cyflawni'r rôl hon.
- Cam 5: Cydnabyddir y refeniw pan fydd y cyfnod ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad y CMA wedi dod i ben neu pan fydd y broses apelio wedi'i chwblhau.

Adennill costau apelio

10.28 Caiff incwm ar ffurf adennill costau apelio ei adfer gan bartïon sydd wedi apelio'n aflwyddiannus yn erbyn penderfyniad cyfreithiol a wnaed gan y CMA. Mae'r CMA yn cyfrif am incwm sy'n ymwneud ag adennill

elfen fewnol y costau hyn yn unig, gan fod unrhyw gostau allanol (alldaliadau) yn cael eu gwrthbwysu o incwm dirwy ar Ddatganiad Ymddiriedolaeth y CMA.

10.29 Y pwynt cydnabod incwm ar gyfer ad-daliadau costau cyfreithiol mewnol yw pan gaiff Dyfarniad Llys neu Dribiwnlys ei drosglwyddo i lawr gan nodi bod yr apêl wedi cael ei gwrthod, bod penderfyniad y CMA yn cael ei gadarnhau ac y cytunir neu y gorchymynnir gan y Llys neu'r Tribiwnlys y dylai'r apelydd dalu holl gostau'r CMA yn yr achos apelio i'r CMA neu gyfran ohonynt.

1.5 *Pensiynau*

10.30 Mae'r CMA yn cydnabod y costau pensiwn disgwylidig ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y bydd yn manteisio ar wasanaeth cyflogeion drwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronol i'r PCSPS. Mae atebolrwydd i dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl ar y PCSPS. Mewn perthynas â'r cynlluniau cyfraniad diffiniedig, mae'r CMA yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn.

10.31 Mae gan y CMA gynllun ar wahân ar gyfer y Cadeiryddion blaenorol a Rheolwyr Gyfarwyddwyr y Swyddfa Masnachu Teg, sy'n debyg i'r PCSPS. Mae darpariaeth pensiwn etifeddol wedi'i chofnodi ar gyfer costau buddiannau o dan y cynllun hwn yn y dyfodol.

1.6 *Prydlesau*

10.32 Caiff gwariant mewn perthynas â rhenti prydles weithredol eu codi i'r SoCNE ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles, o fewn cwmpas IAS 17 'Prydlesau'.

1.7 *Eiddo, offer a chyfarpar*

10.33 Caiff gwariant ar eiddo, offer a chyfarpar (heb gynnwys asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu) eu cyfalafu i ddechrau am gost ar yr amod ei fod yn bodloni meini prawf cyfalafu'r CMA> Mae'r CMA yn cyfalafu gwariant o £5,000 (yn cynnwys TAW) neu fwy ar gyfer asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio. Wedi hynny, caiff yr asedau hyn eu cario ar werth teg llai dibrisiant a chaiff lleihad mewn gwerth ei godi ar ôl dyddiad yr ailbrisiad. Nid oedd unrhyw ailbrisiad yn 2021/22.

1.8 Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu

10.34 Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cynrychioli costau yr eir iddynt wrth ddatblygu asedau diriaethol ac anniriaethol. Ar ôl cwblhau hyn a phan ddechreuir defnyddio'r asedau, caiff gwerth perthnasol yr asedau hyn eu trosglwyddo i'r dosbarth asedau priodol a'u dibrisio (neu eu hamorteiddio) yn unol â'r polisi cyfrifyddu perthnasol. Caiff gwariant nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ei drin fel cost gweithredu yn y flwyddyn yr aed iddo.

1.9 Asedau anniriaethol

10.35 Mae asedau anniriaethol yn cynwys datblygu llwyfannau Technoleg Gwybodaeth (TG) i'w defnyddio ym mhob rhan o'r CMA, meddalwedd arall a thrwyddedau meddalwedd a gaiff eu cyfalafu am gost lle maent yn bodloni meini prawf cyfalafu'r CMA o gyfalafu gwariant o £5,000 (yn cynnwys TAW) neu fwy am bryniannau unigol ac asedau wedi'u grwpio a lle cânt eu defnyddio am fwy na 12 mis.

1.10 Dibrisio ac amorteiddio

10.36 Caiff asedau eu dibrisio ar gyfraddau a gyfrifir i ostwng eu gwerth, llai unrhyw werth gweddilliol amcangyfrifedig ar sail llinell syth dros eu cyfnod defnyddiol amcangyfrifedig. Ar gyfer asedau ar brydles, mae'r cyfnod defnyddiol amcangyfrifedig yn cynnwys bywyd y brydles neu'r cyfnod sy'n ymhlyg yn yr amserlen ad-dalu. Pan bennir newid mewn cyfnod ased, caiff yr ased ei ddibrisio neu ei amorteiddio drwy weddill ei gyfnod a asesir ar sail llinell syth. Ar gyfer asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, yr adeg y dechreuir defnyddio'r ased yw'r adeg y bydd y dibrisiant yn dechrau.

10.37 Mae cyfnodau defnyddiol amcangyfrifedig asedau o fewn yr ystodau canlynol:

Eiddo, offer a chyfarpar (dibrisiant)

Costau gwella pryddles (yn cynnwys ased dadfeiliadau) dros weddill cyfnod y bryddles

Technoleg gwybodaeth 2 i 6 blynedd

Dodrefn a ffitiadau 5 i 10 mlynedd

Asedau anniriaethol (amorteiddio)

Trwyddedau meddalwedd 2 i 5 mlynedd (cyfnod y drwydded)

10.38 Caiff gwerthoedd asedau eu hadolygu ar gyfer lleihad mewn gwerth ar gyfer digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau sy'n nodi bod y gwerth cario yn anadferadwy o bosibl a chânt eu hysgrifennu ar unwaith i'w swm adferadwy

1.11 *Offerynnau ariannol*

10.39 Mae IFRS 9 'Offerynnau Ariannol' yn cynnwys gofynion ar gyfer dosbarthu, cydnabod a mesur, lleihad mewn gwerth a dadgydnabod offerynnau ariannol. Nid oes gan y CMA unrhyw offerynnau ariannol cymhleth ac mae ei offerynnau ariannol yn cynnwys symiau masnach derbyniadwy a symiau masnach taladwy. Caiff symiau derbyniadwy eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio.

10.40 Nid yw model 'Colled Credyd Ddisgwyliedig' IFRS 9 ar gyfer asesu lleihad mewn gwerth ar gyfer asedau ariannol yn effeithio'n sylweddol ar y Cyfrifon hyn. Symiau masnach derbyniadwy a ddelir ar gyfer casglu arian parod yng nghwrs busnes arferol sydd gan y CMA yn bennaf, felly mae'r CMA yn dilyn y dull 'wedi'i symleiddio' a ganiateir o dan y safon sy'n dileu'r angen i gyfrifo Colled Credyd Ddisgwyliedig dros 12 mis. Os bydd risg credyd swm masnach derbyniadwy yn cynyddu'n sylweddol ac na chaiff ei ystyried yn isel, caiff Colled Credyd Ddisgwyliedig ei chydabod.

1.12 *Treth ar Werth*

10.41 Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'r CMA y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid oes treth allbwn yn gymwys ac ni ellir adennill treth fewnbwn ar bryniannau. Caiff TAW anadenilladwy ei chodi i'r categori gwariant perthnasol neu ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu asedau nad ydynt yn gyfredol. Pan gaiff treth allbwn ei chodi, neu pan fydd treth fewnbwn yn adennilladwy, caiff y symiau eu nodi heb gynnwys TAW.

2 Datganiad o gostau gweithredu yn ôl elfen weithredu

2.1 *Dadansoddiad yn ôl elfen weithredu*

10.42 Cydnabu'r CMA wyth segment adroddadwy yn ei gyfrifon rheoli gyda chyfanswm y gwariant gros wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

	Cyfanswm y gwariant gros 2021/22 £000	Cyfanswm y Gwariant gros 2020/21 £000
Gwasanaethau Corfforaethol**	22,640	30,245
Uned Marchnadoedd Digidol	4,803	-
Gorfodi (yn cynnwys yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau)	18,256	19,669
Gwasanaeth Cyfreithiol	13,372	12,366
Marchnadoedd ac Uno (yn cynnwys Swyddfa'r Farchnad Fewnol)	16,919	13,383
Swyddfa'r Prif Gyngorydd Economaidd	12,295	12,578
Polisi a Rhyngwladol	1,593	2,716
Strategaeth, Cysylltiadau ac Eiriolaeth	3,729	3,388
Balans ar 31 Mawrth	93,607	94,345

10.43 Ym mis Ebrill a mis Medi 2021 yn y drefn honno, sefydlodd y CMA yr Uned Marchnadoedd Digidol, Swyddfa'r Farchnad Fewnol a dechreuodd y gwaith o sefydlu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau. Gan fod y rhain i gyd yn swyddogaethau newydd, nid oes angen ailnodi'r un o'r elfennau o 2020/21. Sefydlwyd yr Uned Marchnadoedd Digidol ar ffurf gysgodol cyn llunio'r ddeddfwriaeth, fel ei elfen weithredu ei hun, a threfnwyd Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau o fewn Marchnadoedd ac Uno a Gorfodi, yn y drefn honno. Er i'r gwaith o baratoi ar gyfer yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau gael ei drefnu o fewn Gorfodi y flwyddyn hon, gostyngodd y gwariant yn yr elfen hon oherwydd gostyngiad o £1.45 miliwn mewn costau staff a nodir ymhellach yn yr adroddiad Staff (tudalen 100). Mae'r lleihad yng ngwariant Polisi a Rhyngwladol yn adlewyrchu'r newidiadau i ffurf y mae'r CMA wedi'u gwneud ac yn adlewyrchu cyllideb benodedig lai.

10.44 O 2022/23, bydd y CMA yn ad-drefnu ei elfennau gweithredu wrth i'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau gael ei hadleoli o Gorfodi i Marchnadoedd ac Uno. Mae'r penderfyniad hwn yn cydnabod y synergeddau pwysig rhwng y ddwy swyddogaeth a natur gynghorol y ddwy. Caiff Polisi a Rhyngwladol ei adleoli i fod yn rhan o Gwasanaeth Cyfreithiol.

10.45 **Caiff cyfanswm gwariant gros Gwasanaethau Corfforaethol o £22.6 miliwn ei ddadansoddi fel a ganlyn:

	Cyfanswm y gwariant gros 2021/22	Cyfanswm y gwariant gros 2020/21
--	--	-------------------------------------

	£000	£000
Safleoedd	6,796	10,781
Technoleg Gwybodaeth	3,167	3,711
Costau staff a chostau eraill nad ydynt yn ymwneud â staff	12,677	15,753
	22,640	30,245

10.46 Mae'r gostyngiad yng nghyfanswm gwariant gros Gwasanaethau Corfforaethol yn sgil newid yn y modd y cyflwynir costau cysylltiedig. Nid yw'r costau yn cael eu cynnwys o fewn Gwasanaethau Corfforaethol yn unig mwyach fel cyfran o safleoedd y CMA ac mae costau TG wedi'u hailgodi i'r swyddogaethau newydd ac maent wedi'u cynnwys o fewn eu priod elfennau gweithredu.

10.47 Ar ôl addasu ar gyfer yr ailgodi, mae gwariant ar draws y CMA ar Safleoedd wedi gostwng £1.1 miliwn o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf gan fod gwariant ar waith a phrosiectau Rheoli Cyfleusterau wedi gostwng a nodir ymhellach yn Nodyn 4. Mae costau TG wedi cynyddu £0.2 miliwn a nodir hyn ymhellach hefyd yn Nodyn 4. Eir i'r afael â'r costau Staff a chostau eraill nad ydynt yn ymwneud â staff yn fanwl yn Nodyn 3.

2.2 Cysoni rhwng elfennau gweithredu a SoCNE

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Cyfanswm y gwariant gros a nodir ar gyfer elfennau gweithredu	93,607	94,345
Eitemau cysoni:		
Incwm	(1,009)	(6,092)
Dibrisiant ac eitemau nad ydynt yn rhai arian parod	13,214	12,669
Cyfanswm y gwariant net yn ôl y SoCNE	105,812	100,922

3 Costau staff

10.48 Roedd cyfanswm y costau staff ar 31 Mawrth 2022 yn £73.9 miliwn (2020/21: £74.2 miliwn), sy'n cynnwys £54.0 miliwn o gyflogau, £6.1 miliwn o nawdd cymdeithasol, £13.6 miliwn o gostau pensiwn staff. Mae gwybodaeth fanylach am gostau staff ar gael yn yr Adroddiad Staff ar dudalen 100.

4 Prynu nwyddau a gwasanaethau

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Rhent (prydlesau gweithredol)	3,875	4,097
Cyfraddau	1,815	1,644
Cyfleustodau	387	481
Cynnal a chadw	19	14
Costau Safleoedd Eraill	332	428
Tâl Gwasanaeth	1,816	2,448
Costau safleoedd net	8,244	9,112
Gwariant ar ymchwil	10	180
Costau Ymglyfreitha ⁴⁷	-	-
Llogi offer a pheiriannau	3	5
Gwasanaethau proffesiynol	1,863	1,844
Hyfforddiant	1,907	1,811
Cyhoeddusrwydd ac ymgyrchoedd	646	301
Teithio a chynhaliaeth	164	56
Recriwtio	553	293
Telathrebu	545	500
TG (yn cynnwys cynnal a chadw)	3,723	3,223
Argraffu, copio a phostio	312	449
Cyhoeddiadau	28	62
Rheoli Cyfleusterau	1,246	1,788
Gwariant arall	388	375
Cyfanswm prynu nwyddau a gwasanaethau	11,378	10,707

Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod

Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar	4,574	4,157
Dibrisio asedau anniriaethol	587	720
Lleihau gwerth symiau masnach derbyniadwy	-	12
Colled /(elw) ar waredu asedau diriaethol	7	2
Ardoll Prentisiaeth – hyfforddiant	115	116
Darpariaethau - symiau y darparwyd ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn	8,053	7,703
Cydnabyddiaeth a threuliau'r archwilwyr	90	88
Darpariaethau – nad yw'r swm yn ofynnol, a adferwyd	(97)	-
Cyfanswm yr eitemau nad ydynt yn rhai arian parod	13,329	12,798

⁴⁷Mae'r CMA wedi cael cymeradwyaeth i wrthbwysu costau ymglyfreitha yn llawn yn erbyn incwm dirwy CA98 sy'n golygu, i bob pwrpas, y caiff y costau hyn eu hariannu'n llawn sy'n golygu na chaiff unrhyw gostau ymglyfreitha eu cydnabod yn y SoCNE na'u datgelu yn nodyn 4.

- 10.49 Yn 2021/22, lansiodd y CMA ymgyrch newydd “Rip-Off, Tip-Off” sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, sydd â'r nod o helpu defnyddwyr i nodi ac osgoi tactegau gwerthu slei sy'n arwain at wariant uwch o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn 'Cyhoeddusrwydd ac Ymgyrchoedd'.
- 10.50 Mae ein gwariant ar 'Teithio a Chynhaliaeth' wedi treblu o un flwyddyn i'r llall wrth i'r cyfyngiadau symud yn sgil pandemig COVID-19 lacio gan ein galluogi i ddychwelyd i'r gwaith sy'n galw am deithio.
- 10.51 Fel rhan o'r broses o sefydlu ein swyddogaethau newydd, mae'r CMA wedi gwario mwy ar 'Recrwtio' a bydd hyn yn parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf wrth i ni wella ein gallu ac ehangu ar draws pedair gwlad y DU.
- 10.52 Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein seilwaith 'TG', gan ychwanegu mwy o wasanaethau a thrwyddedau TG i gefnogi datrysiadau llinell flaen a model gweithredu CMA ar gyfer gweithio hybrid yn y dyfodol a mwy o waith craffu ar safonau gwasanaethau digidol.
- 10.53 Yn 2020/21, aethom i fwy o gostau 'Rheoli Cyfleusterau' na'r arfer er mwyn sicrhau bod ein safleoedd yn ddiogel i staff ddychwelyd i'r swyddfa yn ystod pandemig COVID-19. Ni fu'n rhaid ailadrodd y costau hyn yn 2021/22 ond rydym wedi parhau i sicrhau y caiff ein swyddfeydd eu glanhau yn rheolaidd.
- 10.54 Caiff y newid i'n lefel o Ddarpariaethau ei drafod yn fanwl yn nodyn 11 (tudalen 145).

5 ***Incwm***

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Adennill costau adeiladau	81	160
Adennill costau apelio	1,003	1,124
Apeliadau rheoleiddiol	(219)	4,033
Incwm arall	29	659
Cyfanswm incwm (eitemau arian parod)	894	5,976

Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod

- 10.55 Adenillodd y CMA lai o gostau adeiladau yn 2021/22 gan fod y flwyddyn flaenorol hefyd yn cynnwys adennill costau dodrefnu, yn ogystal â rhent, gan ein his-denant yn y Cabot, Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser.
- 10.56 Yn 2021/22, cafodd y CMA ad-daliadau am gostau cyfreithiol mewnol mewn chwe achos cyfreithiol a apelwyd, o gymharu ag ad-daliadau mewn wyth achos yn 2020/21.
- 10.57 Rydym wedi rhoi rhagor o eglurhad ar yr adeg rydym yn cydnabod referniw ar gyfer adennill costau apelio rheoleiddiol o dan IFRS 15 – referniw o contractau â chwsmeriaid. Dim ond pan fydd yr archebion costau terfynol yn orfodadwy y bydd y CMA yn cydnabod costau a adenillwyd. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 1.4.
- 10.58 O ganlyniad, rydym wedi gwrthdroi £0.3 miliwn o adenilliad cost a gronwyd o 2020/21 yn 2021/22 yn unol â'n polisi cyfrifyddu. Byddwn yn ailgronni'r adenilliad cost hwn pan fydd y costau terfynol yn orfodadwy. Yn 2020/21, cafodd y CMA y derbyniadau o bedwar ailbenderfyniad dŵr, adenilliad mwyaf y CMA o gostau apelio rheoleiddiol.
- 10.59 Mae'r gostyngiad a gofnodwyd yn Incwm Arall o ganlyniad i'r ffaith ein bod wedi dychwelyd i'n cyfartaledd hanesyddol gan fod y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys un setliad a wnaed y tu allan i'n patrwm arferol.
- 10.60 Mae'r CMA yn cynnig rhaglenni hyfforddiant ar gyfer prentisiaid mewn amrywiaeth o rolau ym mhob rhan o'r adran a phroffesiynau amrywiol. Ar 31 Mawrth 2021, dechreuodd 62 o brentisiaid newydd â'r CMA. Cynyddodd hyn wrth i 13 o brentisiaid newydd eraill dechrau yn ystod 2021/22, ac roedd 75 o brentisiaid newydd wedi dechrau yn y CMA erbyn 31 Mawrth 2022. Mae'r CMA yn cael grant tybiannol ar gyfer cost hyfforddi prentisiaid sy'n arwain at effaith sero net ar y datganiadau ariannol, gweler nodyn 4.

6 Eiddo, offer a chyfarpar

	Gwelliannau i lesddaliadau	Technoleg gwybodaeth	Dodrefn a ffitiadau	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu	2021/22 Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2021	27,358	8,545	4,279	1,348	41,530
Ychwanegiadau	1,015	984	-	469	2,468
Gwarediadau	(14)	-	-	-	(14)
Ailddosbarthu	-	-	-	(192)	(192)
Ailbrisiadau (addasu symudiadau mewn darpariaethau)	-	-	-	-	-
Lleihad mewn gwerth	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2022	28,359	9,529	4,279	1,625	43,792
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2021	2,276	2,823	606	-	5,705
Codwyd yn ystod y flwyddyn	2,033	2,114	427	-	4,574
Gwarediadau	(7)	-	-	-	(7)
Ailddosbarthu	-	-	-	-	-
Ailbrisiadau	-	-	-	-	-
Lleihad mewn gwerth	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2022	4,302	4,937	1,033	-	10,272
Swm cario ar 31 Mawrth 2022	24,057	4,592	3,246	1,625	33,520
Swm cario ar 31 Mawrth 2021	25,082	5,722	3,673	1,348	35,825

10.61 Yn ystod 2021/22, gwariodd y CMA £1.0 miliwn ar asedau TG er mwyn sicrhau bod gan staff y CMA dechnoleg addas i weithio'n effeithiol ac yn effeithlon o bell yn ystod pandemig COVID-19.

	Gwelliannau i lesddaliadau	Technoleg gwybodaeth	Dodrefn a ffitiadau	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu	2020/21 Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2020	27,435	6,561	4,240	2,564	40,800
Ychwanegiadau	30	1,991	-	244	2,265
Gwarediadau	-	(798)	(19)	-	(817)
Ailddosbarthu	(107)	791	58	(1,460)	(718)
Lleihad mewn gwerth	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2021	27,358	8,545	4,279	1,348	41,530
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2020	270	1,899	195	-	2,364
Codwyd yn ystod y flwyddyn	2,006	1,721	430	-	4,157
Gwarediadau	-	(797)	(19)	-	(816)

Aiddosbarthu	-	-	-	-	-
Lleihad mewn gwerth	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2021	2,276	2,823	606	-	5,705
Swm cario ar 31 Mawrth 2021	25,082	5,722	3,673	1,348	35,825
Swm cario ar 31 Mawrth 2020	27,165	4,662	4,045	2,564	38,436

7 Asedau anniriaethol

	Meddalwedd a Thrwyddedau Meddalwedd	
	2021/22	2020/21
	£000	£000
Cost neu brisiad		
Ar 1 Ebrill	3,591	4,680
Ychwanegiadau	207	220
Gwarediadau	(54)	(2,012)
Aiddosbarthu	192	703
Ar 31 Mawrth	3,936	3,591
Dibrisiant		
Ar 1 Ebrill	2,059	3,351
Codwyd yn ystod y flwyddyn	587	720
Gwarediadau	(54)	(2,012)
Aiddosbarthu	-	-
Ar 31 Mawrth	2,592	2,059
Swm cario	1,344	1,532

Ariannu asedau

10.62 Mae'r holl eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol yn eiddo i'r CMA.

8 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill	1,957	894
Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddynt	(1,234)	1,063
Balans ar 31 Mawrth	723	1,957
Daliwyd y balans ar 31 Mawrth yng		
Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	723	1,957

10.63 Roedd gan y CMA lai o arian parod yn y banc ar ddiwedd 2021/22 o gymharu â 2020/21. Mae hyn yn dangos gwelliant yn rhagolygon rheoli arian parod y CMA gan fod llai o gyllid wedi'i ddal yng nghyfrif banc y CMA ar 31 Mawrth 2022.

9 Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill

9.1 Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Symiau masnach derbyniadwy (gros)	72	3,198
Darpariaeth lleihad mewn gwerth	(7)	(27)
Symiau masnach derbyniadwy (net)	65	3,171
Adneuon a blaensymiau	21	16
Symiau derbyniadwy eraill	457	305
TAW	342	141
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	5,199	6,694
Cyfanswm	6,084	10,327

10.64 Nid oes unrhyw symiau masnach derbyniadwy na symiau derbyniadwy eraill yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

10.65 Roedd y gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy (gros) yn bennaf oherwydd un endid yr anfonebwyd £3.1 miliwn iddo yn 2020/21 ar gyfer adennill costau cyfreithiol sy'n ymwneud ag Apêl Reoleiddiol. Cawsom daliad am yr anfoneb hon yn ystod y flwyddyn ac, felly, nid oedd yn ddyledus mwyach ar 31 Mawrth 2022.

10.66 Roedd y gostyngiad mewn Rhagdaliadau ac incwm cronedig o £1.5 miliwn oherwydd gostyngiad mewn incwm cronedig o £1.7m ar gyfer adennill costau Apêl Reoleiddiol ac am setliad y cytunwyd arno yn dilyn proses gyfryngu a sefydlwyd gyda thrydydd parti gan y CMA, a dalwyd i'r CMA yn 2021/22. Cafodd y gostyngiad cyffredinol ei wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd mewn rhagdaliadau o £0.5 miliwn oherwydd cynnydd mewn ardrethi busnes ar gyfer y Cabot y mae'r CMA yn ei dalu o flaen llaw bob blwyddyn, yn hytrach nag yn fisol, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol.

10 Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill

10.1 Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Symiau masnach taladwy	432	993
Croniadau ac incwm gohiriedig	6,849	6,346
Y Cabot – cymhelliad prydles	251	251
Trethiant a nawdd cymdeithasol	1,707	1,700
TAW	7	-
Symiau taladwy eraill	1,545	1,428
Symiau a gyhoeddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond nad oeddent wedi'u gwario ar 31 Mawrth	723	1,957
Derbyniadau ychwanegol y Gronfa Gyfunol y disgwylir iddynt gael eu talu i'r Gronfa Gyfunol – derbyniwyd	-	-
Cyfanswm	11,514	12,675

10.67 Rydym wedi cynyddu ein cyfradd o daliadau prydlon yn 2021/22 gan arwain at ostyngiad yn y symiau masnach derbyniadwy. Nodir ein llwyddiant yn cynyddu ein taliadau prydlon ymhellach ar dudalen 116.

10.68 Mae'r safle arian parod terfynol, a gaiff ei gofnodi yn y datgeliad hwn fel 'Symiau a gyhoeddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond na chawsant eu gwario ar 31 Mawrth', wedi gostwng £1.2 miliwn yn 2021/22, sy'n cynrychioli proses fwy effeithiol o reoli arian parod. Yn ymarferol, nid yw'r safle arian parod terfynol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol. Yn hytrach, caiff ei ddiwynnu o ofyniad arian parod net y CMA ar gyfer 2022/23 y gellir ei ostwng o'r Gronfa Gyfunol yn y flwyddyn ariannol nesaf.

10.2 Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Rhent y Cabot – cyfnod rhydd o rent	8,254	8,972
Y Cabot – Cymhelliad Prydles	2,580	2,882
Cyfanswm	10,834	11,854

10.69 Mae cytundebau prydles y CMA ar gyfer lloriau'r Cabot rydym yn eu meddiannu yn cynnwys cyfnodau rhydd o rent. Yn unol ag IAS 17, ni chaniateir i'r CMA gofnodi rhent o ddim yn nodyn 4 yn ystod cyfnodau rhydd o rent. Rydym yn cofnodi rhent cyfrifyddu, ar sail llinell syth, dros gyfnod prydles y Cabot ac, o ganlyniad, rydym wedi cronni cyfnod

rhydd o rent sy'n daladwy. Nid yw hynny'n swm taladwy sy'n ddyledus i landlord y Cabot.

10.70 Pan fydd y cyfnodau rhydd o rent ar bob un o lorïau'r Cabot wedi dirwyn i ben, bydd y CMA yn dad-ddirwyn, neu'n lleihau'r cyfnod rhydd o rent sy'n daladwy er mwyn sicrhau bod y rhent cyfrifyddu, yn hytrach na'r taliadau arian parod uwch ar gyfer rhent, yn cael eu cynnal yn nodyn 4.

10.71 Yn 2018/19, cafodd y CMA gyfraniad o £3.4 miliwn gan landlord y Cabot tuag at y gwelliannau lesddaliad a ddatgelir yn nodyn 6. Yn unol â IAS 17, rydym wedi cyfrif am y trafodyn hwn fel cymhelliad prydles ac mae'r cyfraniad a dderbyniwyd wedi cael ei ledaenu drwy gyfnod y brydles, ar sail llinell syth, yn hytrach na chael ei gydnabod fel trafodyn incwm untro. O ganlyniad, gostyngodd y cymhelliad prydles sy'n daladwy £0.3 miliwn yn 2021/22. Mae'r cyfrifyddu hwn hefyd yn lleihau'r costau safleoedd net a ddatgelwyd yn nodyn 4.

10.72 Ar 1 Ebrill 2022, bydd y CMA yn mabwysiadu IFRS 16. Ar y dyddiad hwn, caiff y cyfnod rhydd o rent a'r cymhelliad prydles ar gyfer y Cabot, y cyfrifir amdano ar hyn o bryd o dan IAS 17, ei wrth-droi. Caiff y cyfnod rhydd o rent ei nodi o dan Enillion Argadwedig yn y Gronfa Gyffredinol, a chaiff y cymhelliad prydles ei nodi o dan ased Hawl i Ddefnyddio ar y SoFP. Ceir rhagor o wybodaeth am fabwysiadu IFRS 16 a'i effaith yn nodyn 1.3.

11 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	Gwaddol pensiynau	Dadfeiliadau	Cyfreithiol	Cyfanswm 2021/22
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2021	1,217	6,058	6,519	13,794
Darperir yn ystod y flwyddyn	15	663	5,800	6,478
Darpariaethau nad ydynt yn ofynnol a adferwyd	-	-	(97)	(97)
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(69)	(5)	(83)	(157)
Newidiadau yn y gyfradd ddisgowntio	-	1,093	482	1,575
Colled/(elw) actiwaraidd	76	-	-	76
Balans ar 31 Mawrth 2022	1,239	7,809	12,621	21,669

	Gwaddol pensiynau	Dadfeiliadau	Cyfreithiol	Cyfanswm 2020/21
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2020	1,204	2,295	2,600	6,099

Darperir yn ystod y flwyddyn	21	3,763	3,919	7,703
Darpariaethau nad ydynt yn ofynnol a adferwyd	-	-	-	-
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(68)	-	-	(68)
Newidiadau yn y gyfradd ddisgowntio	-	-	-	-
Colled/(elw) actiwaraid	60	-	-	60
Balans ar 31 Mawrth 2021	1,217	6,058	6,519	13,794

10.73 Yn 2021/22, disgowntiodd y CMA y darpariaethau dadfeiliadau a chyfreithiol i'w gwerthoedd presennol gan ddefnyddio cyfraddau diweddaraf Trysorlys EM gan fod gwerth amser arian wedi arwain at wahaniaeth sylweddol. Cyflwynir cyfraddau Trysorlys EM isod:

Cyfraddau Trysorlys EM		2021/22	2020/21
Chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)	Blwyddyn 1	4.0%	1.2%
	Blwyddyn 2	2.6%	1.6%
	I fytholbarhad	2.0%	2.0%
Cyfradd Ddisgowntio Enwol	Cyfnod byr (Blynyddoedd 1-5)	0.47%	(0.02%)
	Tymor canolig (Blynyddoedd 6-10)	0.70%	0.18%
	Hirdymor (Blynyddoedd 11-40)	0.95%	1.99%
	Hirdymor iawn (Blynyddoedd 41-100)	0.66%	1.99%

10.74 Mae'r newid mewn cyfraddau disgowntio wedi arwain at gynnydd mewn darpariaethau dadfeiliadau a chyfreithiol o £1.4 miliwn yn 2021/22 (2020/21: dim).

10.75 Cafodd y ddarpariaeth pensiwn etifeddol ei disgowntio gan Adran Actiwarei'r Llywodraeth gan ddefnyddio cyfraddau yr adroddwyd arnynt yn nodyn 11.2.

11.1 Dadansoddiad o amseru disgwylidig llifau arian parod

	Pensiynau etifeddol	Dadfeiliadau	Cyfreithiol	Cyfanswm 2021/22
	£000	£000	£000	£000
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	69	-	9,978	10,047

Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	276	8	2,643	2,927
Yn hwyrach na phum mlynedd	894	7,801	-	8,695
Balans ar 31 Mawrth 2022	1,239	7,809	12,621	21,669

	Pensiynau etifeddol	Dadfeiliadau	Cyfreithiol	Cyfanswm 2020/21
	£000	£000	£000	£000
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	68	5	179	252
Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	273	-	6,340	6,613
Yn hwyrach na phum mlynedd	876	6,053	-	6,929
Balans ar 31 Mawrth 2021	1,217	6,058	6,519	13,794

11.2 Pensiynau etifeddol

10.76 Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â Chadeiryddion blaenorol a Rheolwyr Gyfarwyddwyr yr hen Swyddfa Masnachu Teg, un o gyfrff rhagflaenol y CMA.

10.77 Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2022.

10.78 Roedd y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r rhwymedigaeth ar 31 Mawrth 2022 fel a ganlyn:

- y gyfradd gros a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun oedd 1.55% y flwyddyn (2020/21: 1.25% y flwyddyn);
- cyfradd gros y cynnydd ar gyfer pensiynau sy'n cael eu talu a phensiynau gohiriedig oed 2.90% y flwyddyn (2020/21: 2.22% y flwyddyn);
- mewn termau enwol, mae'r tybiaethau hyn yn golygu chwyddiant prisiau o 2.90% y flwyddyn (2020/21: 2.22% y flwyddyn).

10.79 Symiau eraill a ddatgelir er mwyn deall y newid mewn darpariaeth:

	Cyfanswm 2021/22	Cyfanswm 2020/21
	£000	£000
Cost llog	15	21
Colled / (elw) actiwaraidd	76	60
	91	81

11.3 Dadfeiliadau

10.80 Mae'r ddarpariaeth hon yn amcangyfrif o'r gwariant sy'n ofynnol yn y dyfodol i sicrhau bod gofod swyddfa'r CMA, a ddefnyddir ym mhob adeilad a feddiennir gennym, yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd cyfnod y brydles.

10.81 Y tybiaethau allweddol a ddefnyddir wrth gyfrifo'r ddarpariaeth hon yw:

- y bydd y CMA yn meddiannu'r gofod swyddfa hyd at ddiwedd cytundeb pob prydles, a heb unrhyw fwriad presennol i ddefnyddio unrhyw opsiynau o gael toriad;
- y caiff y gofod swyddfa ei gynnal a'i gadw'n dda ac mai dim ond mân atgyweiriadau fydd eu hangen.

10.82 Yn 2021/22, ailasesodd y CMA briodolrwydd y ddarpariaeth dadfeiliadau ar gyfer y Cabot ac, o ganlyniad, mae wedi cynyddu'r ddarpariaeth hon £0.6 miliwn i £6.6 miliwn, gan ddefnyddio asesiad o brisiad a gomisiynwyd i syrfëwr allanol.

10.83 Oherwydd ansicrwydd a pherthnasedd y ddarpariaeth hon, caiff y prisiad ar gyfer y ddarpariaeth hon ei adolygu'n rheolaidd.

11.4 Cyfreithiol – Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r CMA

10.84 Gall penderfyniadau rheoleiddiol gan y CMA fod yn agored i apêl. Gall apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r CMA arwain at rwymedigaethau tebygol ar gyfer costau cyfreithiol.

10.85 Yn yr achosion hyn, mae'r CMA yn cyfeirio at y meini prawf cydnabod ar gyfer darpariaeth costau cyfreithiol o fewn IAS 37 'Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn', ac mae'n nodi'r tair amod ym mharagraff 14 y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cydnabod darpariaeth.

10.86 Er bod ansicrwydd cynhenid mewn apeliadau parhaus o hyd, mae'r CMA wedi penderfynu, yn seiliedig ar y cyngor cyfreithiol a gafwyd, ei

bod yn debygol y ceir all-lif o adnoddau sy'n cynnig buddiannau economaidd.

10.87 Mae'r amcangyfrif o swm y rhwymedigaeth yn seiliedig ar asesiad o ba mor debygol ydyw y bydd y CMA yn wynebu rhwymedigaethau costau yn yr achosion ymglyfreitha amrywiol rydym yn rhan ohonynt a'n hasesiad o swm unrhyw rhwymedigaeth costau o'r fath.

10.88 Caiff hyn ei lywio gan:

- gwybodaeth sydd ar gael i'r CMA am gostau gwirioneddol y trydydd partïon; neu
- lle nad yw'r cyfryw wybodaeth ar gael, amcangyfrif o lefel debygol costau'r partïon eraill yn seiliedig ar brofiadau'r CMA yn y gorffennol.

10.89 Mae hyn yn sail ddibynadwy ar gyfer amcangyfrif darpariaeth yn yr achosion hyn.

10.90 Oherwydd ansicrwydd mewn apeliadau parhaus eraill, o ran y tebygolrwydd y bydd CMA yn llwyddo, amseru gweithrediadau a swm y rhwymedigaeth costau posibl, mae'r CMA wedi cydnabod apeliadau eraill fel rhwymedigaethau wrth gefn yn nodyn 13 gan nad ydynt yn bodloni'r tair amod ar gyfer cydnabod darpariaeth.

12 Ymrwymadau cyfalaf ac ymrwymadau eraill

12.1 Ymrwymadau cyfalaf

10.91 Ar ddiwedd 2021/22, roedd gan y CMA ymrwymadau cyfalaf o £0.1 miliwn (2020/21: £0.1 miliwn) ar gyfer gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Thechnoleg Gwybodaeth.

12.2 Ymrwymadau o dan brydlesau gweithredol

10.92 Yn 2019/20, symudodd y CMA ei bencadlys yn Llundain a llofnododd brydles weithredol 15 mlynedd o hyd, o fewn cwmpas IAS 17 ac yn cynnwys cyfnod rhydd o rent, ar gyfer gofod swyddfa yn y Cabot. Yn 2021/22, lluniodd y CMA y cytundebau prydles gweithredol canlynol ar gyfer gofod swyddfa ychwanegol, o fewn cwmpas IAS 17:

- Erskine House, Belffast, lle daw'r brydles i ben ym mis Chwefror 2044;
- Queen Elizabeth House, Caeredin, lle daw'r brydles i ben ym mis Chwefror 2044;

- Finlaison House, Llundain, lle daw'r brydles i ben ym mis Mehefin 2023;
- Tŷ William Morgan, Caerdydd, lle daw'r brydles i ben ym mis Ionawr 2045.

10.93 Mae'r ymrwymïadau ar gyfer y safleoedd hyn wedi'u nodi yn y tabl ymrwymïadau yn y nodyn hwn.

10.94 Yn 2021/22, cafodd £3.6 miliwn (2020/21: £3.4 miliwn) ei gynnwys fel traul ar gyfer prydlesau gweithredol yn y SoCNE. Mae'r cynnydd mewn gwariant o ganlyniad i'r pedwar cytundeb prydles gweithredol ychwanegol yn 2021/22 sydd o fewn cwpas IAS 17.

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Rhoddir cyfanswm y taliadau prydles gofynnol yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredol yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol:		
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	5,203	4,409
Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	19,658	18,868
Yn hwyrach na phum mlynedd	29,102	31,750
Cyfanswm	53,963	55,027

10.95 Mae gan y CMA drafodion ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrrff llywodraeth ganolog eraill. Heblaw am y gydnabyddiaeth a geir yn adran Adroddiad Cydnabyddiaeth yr Adroddiad Atebolrwydd, nid oes unrhyw aelod Bwrdd, rheolwr allweddol na pharti perthnasol wedi llunio unrhyw drafodyn perthnasol â'r CMA yn ystod y flwyddyn. Ceir gwybodaeth am Gofrestr o Fuddiannau Aelodau'r Bwrdd yn Adroddiad y Cyfarwyddwr o dan yr adran Cofrestr o Fuddiannau.

10.96 Mae'r CMA yn isosod rhan o'i swyddfa yn y Cabot i Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser (noddwyd gan yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol). Mae'r CMA hefyd yn rhentu safleoedd ar brydles o fewn Canolfannau'r Llywodraeth gan adrannau eraill y llywodraeth, fel CThEM, fel rhan o'n presenoldeb cynyddol yn y pedair gwlad.

13 Rhwymedigaethau wrth gefn

10.97 Mae posibilrwydd y caiff buddiannau economaidd perthnasol eu trosglwyddo i drydydd partïon pan fydd y CMA yn rhan o broses ymgyfreitha weithredol. Mae a wnelo'r achosion cyfreithiol sydd wedi'u cynnwys fel rhwymedigaethau wrth gefn ag achosion cyfreithiol drwy'r

llysoedd ac mae'r canlyniadau yn dibynnu ar ddyfarniadau a chanfyddiadau llysoedd.

10.98 Canlyniad achos Phenytoin yn y Goruchaf Lys ar 25 Mai 2022 yw mai'r man cychwyn, yn y Tribiwnlys Apelau Cystadlu, yw bod costau yn dilyn y digwyddiad ond bod gan y Tribiwnlys Apelau Cystadlu ddisgresiwn, o dan ei reolau, i wneud gorchymyn sy'n briodol ym marn y Tribiwnlys, gan ystyried holl amgylchiadau'r achos. Dyma oedd y sefyllfa yn 2019 lle roedd y CMA yn atebol am dalu costau mewn achosion a gollwyd ganddo yn y Tribiwnlys Apelau Cystadlu.

10.99 Ni ellir datgelu rhagor o fanylion oherwydd, yn unol ag IAS 37 (paragraff 92), mae'r CMA o'r farn y gallai datgelu gwerthoedd ar gyfer unrhyw rwymedigaeth wrth gefn sy'n gysylltiedig ag achos cyfreithiol fod yn niweidiol iawn i achosion ymglyfreitha sy'n mynd rhagddynt.

14 *Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd*

10.100 Yn unol â gofynion IAS 10 'Digwyddiadau ar ôl Cyfnod Llunio'r Adroddiad', caiff digwyddiadau eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w gyhoeddi, a ddehonglir fel yr un dyddiad ag y caiff y Cyfrifon eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau dilynol i'w nodi.

11. Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA

Caiff Datganiad Ymddiriedolaeth ar wahân ei lunio ar gyfer ffioedd a gesglir o dan Ddeddf Menter 2002 (diwygiwyd yn 2013) a dirwyon a gesglir o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Mae'r refeniw hwn yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r CMA i baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratwir y cyfrifon ar sail cronïadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa cyfrif Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA a'i refeniw, ei wariant a'i lifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae Trysorlys EM wedi penodi Prif Weithredwr y CMA fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n bennaf cyfrifol am baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth ac am ei drosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Wrth baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y FReM ac, yn benodol, i:

- arsylwi ar y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol;
- nodi a ddilynwyr safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn y FReM, a datgelu ac egluro unrhyw wriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi Datganiad Ymddiriedolaeth fel busnes gweithredol.

Rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrif hwn o'r Datganiad Ymddiriedolaeth, ac i sicrhau bod fy archwilwyr yn cael eu hysbysu. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw fy archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Rwy'n cadarnhau bod y Datganiad Ymddiriedolaeth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am Ddatganiad yr Ymddiriedolaeth a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Llofnodwyd dros ac ar ran y CMA

Andrea Coscelli CBE

Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

20 Gorffennaf 2022

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall a Datganiad o Lifau Arian Parod;
- y nodiadau cysylltiedig yn cynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith gymwys ac yn Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar 31 Mawrth 2022, ac o'i wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a roddwyd yn ôl y gofynion hynny.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (ISAs y DU), cyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig*. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesebol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i lunio sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, arwain at gryn amheuaeth

ynghylch gallu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na fy nhystysgrif ac adroddiad fel archwilydd. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rwyf yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a geir yn yr archwiliad, neu yr ymddengys fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosol o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, os byddaf yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn ein barn ni, paratowyd y rhan o Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Atebolrwydd sy'n agored i gael eu harchwilio wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Crynodeb o Berfformiad, yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

O ystyried gwybodaeth a dealltwriaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r amgylchedd a sicrhodd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y byddaf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i;

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu

- nad yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu na dderbyniwyd digon o ffurflenni ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolwydd Seneddol sy'n agored i gael eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a nodwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM neu nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a gaiff eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adroddiadau ariannol cymwys ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan;
- y fath reolaeth fewnol ag sydd ei hangen ym marn y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall;
- asesu gallu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Rwy'n anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Y graddau yr ystyriwyd y gall yr archwiliad ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll. Nodir y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, isod.

Nodi ac asesu risgiau posibl mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, gwnaethom ystyried y canlynol:

- natur y sector, rheolaeth amgylcheddol a pherfformiad gweithredol yn cynnwys cynllunio polisïau cyfrifyddu Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, dangosyddion perfformiad allweddol a chymhellion perfformiad.
- Gwneud ymholiadau â'r rheolwyr a'r sawl sy'n llywodraethu, yn cynnwys caffael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, honedig neu a amheuir;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys rheolaethau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- trafod ymysg y tîm ymgysylltu a chynnwys arbenigwyr perthnasol, ynghylch sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer twyll a nodais y posibilrwydd mwyaf o dwyll yn y meysydd canlynol: rhannu cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Fel gyda phob archwiliad o dan ISAs (y DU), mae hefyd yn ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Hefyd, cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill lle mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gweithredu, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar gyfrifon perthnasol a datgeliadau yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Ymysg y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn mae Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus a Chyflenwi a Neilltuo Arian (Prif Amcangyfrifon) 2021, y Ddeddf Menter a Deddf Cystadleuaeth 1998.

Ymateb archwilio i risg a nodwyd

O ganlyniad i gyflawni'r uchod, roedd y gweithdrefnau a roddais ar waith mewn ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau datganiad ariannol a phrofi dogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- cynnal ymholiadau â rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a chynghorwyr cyfreithiol mewnol ynghylch materion cyfreithia a hawliadau posibl;
- darllen ac adolygu cyfrifon cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau, profi priodolrwydd cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r safbwyntiau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos tuedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i gwrs busnes arferol;

a bŵm hefyd yn cyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm ymgysylltu yn cynnwys arbenigeddau mewnol gan gadw'n effro i unrhyw ddangosyddion o dwyll neu o achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Cyfrifoldebau'r archwilydd arall

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwysu i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseriad bwriadedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, yn cynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Dyddiad

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2021/22	2020/21
		£000	£000
Refeniw			
Incwm o ddirwyon a chosbau			
Cosbau a osodwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1998		13,579	56,552
Llog a enillwyd ar gosbau a osodwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1998		150	234
Cyfanswm yr incwm o ddirwyon a chosbau		13,729	56,786
Ffioedd uno			
Ffioedd a gafwyd o dan Ddeddf Menter 2002 ⁴⁸		4,880	3,000
Gorchmynion Gorfodi cychwynnol o dan Ddeddf Menter 2002		57,045	55
Llog a enillwyd ar gosbau a osodwyd o dan Ddeddf Menter 2002		-	-
Cyfanswm y ffioedd uno		61,925	3,055
Cyfanswm y refeniw		75,654	59,841
Gwariant			
CA98 Gwrthbwysu cosbau ar gyfer costau ymglyfreitha ⁴⁹		(2,621)	(2,064)
Dyledion a gafodd eu dileu neu y mae eu gwerth wedi lleihau fel arall	2	(17,702)	2,665
Cyfanswm y gwariant		20,323	601
(Gwariant)/refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol	5	55,331	60,442

11.1 Mae'r nodiadau ar dudalennau 162 i 167 yn rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.

⁴⁸ Mae'r cynnydd sylweddol mewn ffioedd uno a gafwyd i'w briodoli i'r ddirwy o £50.5m a osodwyd ar Facebook (Meta bellach) yn 2021/22 am dorri gorchymyn gorfodi cychwynnol a osodwyd gan y CMA.

⁴⁹ Mae'r CMA wedi cael cymeradwyaeth i wrthbwysu costau ymglyfreitha yn llawn yn erbyn incwm cosb CA98.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2021/22	2020/21
		£000	£000
Asedau nad ydynt yn gyfredol			
Symiau derbyniadwy	2	1,722	3,749
Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol		1,722	3,749
Asedau cyfredol			
Symiau derbyniadwy	2	4,698	48,338
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	3	100,921	59,288
Cyfanswm yr asedau cyfredol		105,619	107,626
Cyfanswm asedau		107,341	111,375
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau taladwy	4	348	425
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		348	425
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau		106,993	110,950
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		106,993	110,950
Cynrychiolwyd gan:			
Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol	5	106,993	110,950

Mae'r nodiadau ar dudalennau 162 i 167 yn rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.

Andrea Coscelli CBE

Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

20 Gorffennaf 2022

Datganiad o Lifau Arian Parod

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2021/22 £000	2020/21 £000
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu	3	100,921	59,288
Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol	5	(59,288)	(30,297)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod yn ystod y flwyddyn		41,633	28,991

Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian Parod

A: Cysoni'r Llif Arian Parod i symudiadau yn y Cronfeydd Net	Nodyn	2021/22 £000	2020/21 £000
Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol		55,331	60,442
Cynnydd/(gostyngiad) mewn asedau		45,667	(943)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn rhwymedigaethau		(77)	(211)
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu		100,921	59,288

B: Dadansoddiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Net	Nodyn	2021/22 £000	2020/21 £000
(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod yn ystod y flwyddyn	3	41,633	28,991
Cronfeydd net ar 1 Ebrill (arian parod net yn y banc)		59,288	30,297

Mae'r nodiadau ar dudalennau 162 i 167 yn rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.

Nodiadau i'r Datganiad Ymddiriedolaeth

1 *Datganiad o bolisiau cyfrifyddu*

- 11.2 Mae'r CMA yn gweithredu fel asiant sy'n gyfrifol am gasglu ffioedd unol a chosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 (CA98) ar ran y Gronfa Gyfunol. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn rhoi cyfrif o'r broses o gasglu refeniw, sy'n daladwy o dan gyfraith neu gonfensiwn i'r Gronfa Gyfunol, lle mae'r CMA sy'n ymgymryd â'r broses gasglu yn gweithredu fel asiant yn hytrach na phrif arferydd. Nodir y gofyniad deddfwriaethol yn Neddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.
- 11.3 Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â FReM 2021/22 a'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifyddu a geir yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu fel y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r CMA yn dewis polisi cyfrifyddu y bernir mai hwnnw yw'r un mwyaf priodol i'r amgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun gwir a theg.
- 11.4 Disgrifir y polisiau a fabwysiadwyd gan y CMA isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.
- 11.5 Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail busnes gweithredol.

1.1 Confensiwn cyfrifyddu

- 11.6 Mae'r Datganiad Ymddiriedolaeth wedi'i baratoi ar sail croniadau yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

1.2 *Safbwyntiau ac amcangyfrifon sylweddol*

11.7 Wrth gyfrifo incwm cronedig ar gyfer gwasanaethau gorfodi a gwasanaethau eraill, caiff barn ac amcangyfrifon eu llunio ar statws gweithgareddau sylfaenol. Mae darpariaeth ar gyfer symiau anadenilladwy a ragwelir wedi'i chynnwys. Eir i'r afael â barn ac amcangyfrifon eraill sydd â risg sylweddol o achosi unrhyw addasiad perthnasol i werth cario asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf yn y Datganiad Ymddiriedolaeth.

1.3 *Cydnabod refeniw*

11.8 Caiff ffioedd a chosbau eu mesur yn unol ag IFRS 15 'Refeniw o Contractau â Chwsmeriaid'. Caiff refeniw ei gydnabod unwaith y bydd y CMA wedi ymchwilio i'r uniad arfaethedig ac wedi rhoi ei benderfyniad; pan fydd cosb wedi'i gosod, llythyr penderfyniad wedi'i anfon at yr endid dan sylw, a phan fydd yr endid wedi cael 2 fis calendr i apelio yn erbyn y penderfyniad os bydd yn dymuno. Yn gryno o dan IFRS 15, caiff y refeniw ei gydnabod pan fydd llythyr penderfyniad wedi'i anfon a phan fydd y terfyn amser i endid apelio yn erbyn y penderfyniad wedi mynd heibio.

11.9 Mae'r dull hwn yn gyson ag addasiadau FReM mewn perthynas ag IFRS 15 ar gyfer gwerthuso faint o refeniw a gaiff ei gydnabod a phryd y caiff ei gydnabod o dan FReM 11.3.9.

11.10 Caiff ffioedd a chosbau eu mesur ar werth teg symiau a dderbynnir neu sy'n dderbyniadwy, heb gynnwys unrhyw ad-daliadau.

1.4 *Symiau derbyniadwy*

11.11 Mae IFRS 9 'Offerynnau ariannol' yn cynnwys gofynion ar gyfer dosbarthu, cydnabod a mesur, lleihad mewn gwerth a dadgydnabod offerynnau ariannol.

11.12 O dan IFRS 9, gwneir lwfansau ar gyfer colledion credyd ar sail 'colled credyd a ddisgwylir'.

11.13 Yn unol â dull syml IFRS 9 mewn perthynas â lleihad mewn gwerth, rydym wedi cydnabod lwfans colled ar swm sy'n cyfateb i golled credyd a ddisgwylir gydol oes o'r adeg y caiff y symiau derbyniadwy eu cydnabod i ddechrau. Mae IFRS 9 yn galluogi dull ymarferol a elwir yn matrices darpariaeth i gael ei ddefnyddio i fesur y lwfans lleihad mewn gwerth hwn. Amcangyfrifwyd y rhain drwy gyfeirio at brofiad diodyn o'r

gorffennol, wedi'i addasu fel sy'n briodol ar gyfer data arsylwadwy cyfredol.

11.14 Caiff symiau derbyniadwy eu hadolygu'n rheolaidd ar gyfer yr holl Gosbau CA98 sy'n weddill er mwyn pennu i ba raddau y gellir eu hadennill ac asesu unrhyw lwfans ar gyfer symiau na ellir eu casglu a fesurir yn unol ag IFRS 9. Nod y lwfans lleihad mewn gwerth yw lleihau'r swm sy'n dderbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, ond mae hefyd yn lleihau'r balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol. Caiff y broses o greu'r lwfans lleihad mewn gwerth hwn, ac unrhyw symudiad dilynol, neu unrhyw symiau a gaiff eu dileu nas darparwyd ar eu cyfer yn flaenorol, eu cynnwys yn y Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall.

11.15 Os bydd parti wedi cael cynnig yr opsiwn i dalu ei gosb mewn rhandaliadau, a'i fod wedyn yn methu taliadau am unrhyw reswm, er enghraifft os bydd yn mynd i ddwylo gweinyddwyr, cymerir pob cam i olrhain y ddyled. Fodd bynnag, fel arfer, caiff gwerth y balans sy'n ddyledus ei leihau'n llawn nes bydd y broses adennill wedi'i chwblhau, pan gaiff unrhyw lwfans nas defnyddiwyd ei ryddhau. Mae hyn hefyd yn gymwys pan gaiff cosb ei gosod ar endid sydd wedi mynd i ddwylo gweinyddwyr neu sy'n gwneud hynny cyn y gellir talu'r gosb.

1.5 Treth ar Werth (TAW)

11.16 Mae ffioedd uno a chosbau CA98 y tu allan i gwmpas TAW.

2 Symiau derbyniadwy

2.1 Symiau derbyniadwy cyfredol

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Cosbau Deddf Cystadleuaeth 1998	3,846	48,561
Llai lwfans lleihad mewn gwerth	(472)	(642)
Cosbau Deddf Cystadleuaeth Net 1998	3,374	47,919
Symiau derbyniadwy ffioedd uno	320	100
Llai lwfans lleihad mewn gwerth	(2)	(1)
Ffioedd Uno Net	318	99
Swm sy'n ddyledus o Brif Gyfrif y CMA	86	280

Incwm a gronnyd	920	40
Cyfanswm	4,698	48,338

2.2 Symiau derbyniadwy nad ydynt yn gyfredol

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		
Cosbau Deddf Cystadleuaeth 1998	1,722	3,749
Cyfanswm	1,722	3,749

- 11.17 Ym mis Mai 2021, cadarnhaodd y Tribiwnlys Apelau Cystadlu benderfyniad tramgwyddo'r CMA ar gyfer cytundebau fferyllol 'talau am oedi' ond gosododd ddirwyon llai, a dalwyd i'r CMA yn 2021/22. Er mwyn lleihau'r dirwyon roedd angen dadgydnabod yn rhannol y ddyled CA98 wreiddiol a oedd yn ddyledus gan dri endid. O ganlyniad, mae'r symiau derbyniadwy cyfredol sy'n gysylltiedig â chosbau CA98 wedi gostwng yn sylweddol.
- 11.18 Mae'r gostyngiad mewn symiau derbyniadwy nad ydynt yn gyfredol yn 2021/22 wedi'i achosi gan y ffaith bod pedwar endid ar gytundebau Amser i Dalu ar gyfer cosbau CA98 sy'n agos at gael eu cwblhau neu sy'n agos at gwblhau eu cynlluniau ad-dalu.
- 11.19 Yn unol ag IFRS 9 a FReM 2021/22, roedd asesiad y CMA o golledion credyd ar sail colled credyd a ddisgwyllir a gymhwyswyd yn erbyn symiau derbyniadwy cyfredol a rhai nad ydynt yn gyfredol yn £0.02 miliwn gan ddefnyddio cyfradd o 0.43%. Amcangyfrifir y gyfradd golled hon gan ddefnyddio data hanesyddol ar y symiau derbyniadwy a gaiff eu dileu neu y caiff eu gwerth ei leihau'n llawn, er enghraifft, am fod endid wedi mynd i ddwylo gweinyddwyr neu wedi'i diddymu, fel cyfan o gyfanswm y swm net sy'n dderbyniadwy ar ddyddiad llunio'r adroddiad.
- 11.20 O 2021/22, mae'r CMA wedi newid ei ddull o gyfrifo cyfanswm y swm net sy'n dderbyniadwy, ac ni fydd mwyach yn cynnwys dyledion sy'n apelio eu hachos. Mae'r dull hwn yn unol â pholisi cydnabod referniw cyfredol y CMA (gweler nodyn 1.3).
- 11.21 Mae'r lwfans lleihad mewn gwerth yn cwmpasu symiau sy'n ddyledus sy'n gysylltiedig â ffioedd uno a gan endidau sy'n rhan o achosion CA98 sydd yn nwylo gweinyddwyr neu wedi'u diddymu. Er y gwneir pob ymdrech i adennill y dyledion hyn, oherwydd natur ansicr

diddymiadau endidau, gwneid lwfans colled ar gyfer swm llawn y ddyled ar yr adeg y bydd yr endid yn mynd i ddwylo gweinyddwyr.

3 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Balans a ddelir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 1 Ebrill	59,288	30,297
Newid net mewn balansau arian parod	41,633	28,991
Balans a ddelir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 31 Mawrth	100,921	59,288

11.22 Mae'r cynnydd mewn balans arian parod o gymharu â 2020/21 o ganlyniad i'r broses o gasglu cosbau gwerth uchod a godwyd yn 2021/22. Cafodd y cosbau hyn eu gosod o dan Adran 94A o Ddeddf Menter 2002 am fethu â chydymffurfio, heb esgus rhesymol, â'r gofynion a roddir ar endidau gan orchmynion gorfodi cychwynnol a wneir gan y CMA.

11.23 Bydd y CMA yn trosglwyddo'r balans wrth gau hwn i Drysorlys EM ym mlwyddyn ariannol 2022/23. Gweler nodyn 5 sy'n adlewyrchu'r balans cychwynnol a oedd yn cael ei ddal yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 1 Ebrill 2021 a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol yn 2021/22.

4 Symiau taladwy

	2021/22	2020/21
	£000	£000
CA98 Gwrthbwyso cosbau ar gyfer costau ymglyfreitha sy'n daladwy	348	424
Cyfanswm	348	424

5 Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol ar 1 Ebrill	110,950	80,805
Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol	55,331	60,442
Llai y swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol	(59,288)	(30,297)
Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth	106,993	110,950

6 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

11.24 Yn unol â gofynion IAS 10 'Digwyddiadau ar ôl Cyfnod Llunio'r Adroddiad', caiff digwyddiadau eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r Datganiad Ariannol wedi'i awdurdodi i'w gyhoeddi, a ddehonglir fel yr un dyddiad ag y caiff ei ardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau dilynol i'w nodi.

E02715930

978-1-5286-3278-2